

Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

Veritas:

hanes a'r nofel ddirgelwch

Davies, Mary

Award date:
2016

Awarding institution:
Prifysgol Bangor

[Link to publication](#)

General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 02. Apr. 2025

VERITAS:
HANES A'R NOFEL DDIRGELWCH

MARY ELIZABETH DAVIES

TRAETHAWD PhD
PRIFYSGOL BANGOR
MAI 2016

DATGANIAD A CHANIATÂD

Manylion y Gwaith

Rwyf trwy hyn yn cytuno i osod yr eitem ganlynol yn y gadwrfa ddigidol a gynhelir gan Brifysgol Bangor ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall yr awdurdodir ei defnyddio gan Brifysgol Bangor.

Enw'r Awdur: Mary Elizabeth Davies

Teitl: *Veritas*: Hanes a'r Nofel Ddirgelwch

Goruchwyliwr/Adran: Yr Athro Gerwyn Williams, Ysgol y Gymraeg

Cymhwyster/gradd a enillwyd: PhD

Mae'r eitem hon yn ffrwyth fy ymdrechion ymchwil fy hun ac mae'n dod o dan y cytundeb isod lle cyfeirir at yr eitem fel "y Gwaith". Mae'n union yr un fath o ran cynnwys â'r eitem a osodwyd yn y Llyfrgell, yn amodol ar bwynt 4 isod.

Hawliau Anghyfyngol

Mae'r hawliau a roddir i'r gadwrfa ddigidol trwy'r cytundeb hwn yn gwbl anghyfyngol. Rydw i'n rhydd i gyhoeddi'r Gwaith yn ei fersiwn presennol neu mewn fersiynau i ddod mewn man arall.

Cytunaf y gall Prifysgol Bangor gadw ar ffurf electronig, copïo neu drosi'r Gwaith i unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy at bwrpas ei gadw a mynd ato yn y dyfodol. Nid yw Prifysgol Bangor o dan unrhyw rwymedigaeth i atgynhyrchu neu arddangos y Gwaith yn yr un fformatau neu ddyraniadau y cadwyd ef ynddynt yn wreiddiol.

Cadwrfa Ddigidol Prifysgol Bangor

Deallaf y bydd y gwaith a osodir yn y gadwrfa ddigidol ar gael i amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau, yn cynnwys asiantau a pheiriannau chwilio awtomataidd trwy'r We Fyd Eang.

Deallaf unwaith y gosodir y Gwaith, y gellir ymgorffori'r eitem a'i metadata yn y catalogau neu'r gwasanaethau mynediad cyhoeddus, cronfeydd data cenedlaethol theses a thraethodau hir electronig megis EthOS y Llyfrgell Brydeinig neu unrhyw wasanaeth a ddarperir gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

Deallaf y bydd y Gwaith ar gael trwy Wasanaeth Theses Electronig Ar-Lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru o dan y telerau a'r amodau defnydd a ddatganwyd (<http://www.llgc.org.uk/index.php?id=4676>). Cytunaf fel rhan o'r gwasanaeth hwn y gall Llyfrgell Genedlaethol Cymru gadw ar ffurf electronig, copïo neu drosi'r Gwaith i unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy at bwrpas ei gadw a mynd ato yn y dyfodol. Nid yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru o dan unrhyw rwymedigaeth i atgynhyrchu neu arddangos y Gwaith yn yr un fformatau neu ddyraniadau y cadwyd ef ynddynt yn wreiddiol.

Datganiad 1:

Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth am unrhyw radd onid fel y cytunwyd gan y Brifysgol ar gyfer cymwysterau deuol cymeradwy.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

Datganiad 2:

Canlyniad fy ymchwil fy hun yw'r thesis hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol. Lle defnyddiwyd gwasanaethau cywiro, mae maint a natur y cywiriad wedi'i nodi'n glir mewn troednodyn/troednodiadau.

Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod gan droednodiadau yn rhoi cyfeiriadau eglur. Mae llyfryddiaeth ynghlwm.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

Datganiad 3:

Rhoddaf ganiatâd drwy hyn i'm thesis, os caiff ei dderbyn, fod ar gael ar gyfer llungopïo, ar gyfer benthyciad rhynglyfrgellol ac i'w gadw'n electronig (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau fel y nodir yn natganiad 4), ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

Datganiad 4:

DEWISWCH **un** o blith y dewisiadau isod

a) Cytunaf i osod copi electronig o'm thesis (y Gwaith) yng Nghadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig, ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, a lle bo angen wedi cael y caniatâd angenrheidiol i ddefnyddio deunydd trydydd parti.	✓
b) Cytunaf i osod copi electronig o'm thesis (y Gwaith) yng Nghadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig, ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, pan fydd y gwaharddiad ar fynediad cymeradwy wedi ei godi.	
c) Cytunaf i gyflwyno fy thesis (y Gwaith) yn electronig trwy gyfrwng system e-gyflwyno Prifysgol Bangor ond rydw i'n dewis peidio â chyflwyno copi electronig i Gadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig ac/neu unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, oherwydd na chafwyd caniatâd i ddefnyddio deunydd trydydd parti.	

Yn ogystal â'r uchod rydw i hefyd yn cytuno â'r canlynol:

1. Mai myfi yw'r awdur neu wedi cael awdurdod yr awdur(on) i ddod i'r cytundeb hwn a fy mod i felly'n rhoi'r hawl i Brifysgol Bangor i sicrhau bod y Gwaith ar gael yn y ffordd a ddisgrifiwyd uchod.
2. Bod y copi electronig o'r Gwaith a gadwyd yn y gadwrfa ddigidol ac sydd o dan y cytundeb hwn, yn union yr un fath o ran ei gynnwys â'r copi papur o'r Gwaith a osodwyd yn Llyfrgell Prifysgol Bangor, yn amodol ar bwynt 4 isod.
3. Fy mod i wedi cymryd gofal rhesymol i sicrhau bod y Gwaith yn wreiddiol a, hyd eithaf fy ngwybodaeth, nad yw'n torri unrhyw gyfreithiau – yn cynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â difenwi, enllib a hawlfraint.
4. Fy mod i mewn achosion lle mae eiddo deallusol awduron eraill neu ddeiliaid hawlfraint wedi ei gynnwys yn y Gwaith, a lle bo'n briodol, wedi cael caniatâd eglur i gynnwys y deunydd hwnnw yn y Gwaith, ac yn ffurf electronig y Gwaith fel y ceir mynediad ato trwy'r gadwrfa ddigidol mynediad agored, *neu* fy mod i wedi canfod ac wedi dileu'r deunydd hwn na roddwyd caniatâd digonol a phriodol ar ei gyfer ac na fydd modd mynd ato trwy'r gadwrfa ddigidol.
5. Nad oes unrhyw ymrwymiad gan Brifysgol Bangor i gymryd camau cyfreithiol ar ran y sawl sy'n cyflwyno'r gwaith, neu ddeiliaid hawliau eraill, os digwydd bod hawliau eiddo deallusol yn cael eu torri, neu unrhyw hawl arall yn y deunydd a gedwir.
6. Y byddaf yn indemnio ac yn cadw wedi ei indemnio Prifysgol Bangor a Llyfrgell Genedlaethol Cymru rhag ac yn erbyn unrhyw golled, atebolrwydd, hawl neu ddifrod, gan gynnwys yn ddigyfyngiad unrhyw ffioedd cyfreithiol a chostau llys cysylltiedig (ar sail indemnïad llawn), sy'n gysylltiedig ar unrhyw achos lle'r ydw i wedi torri unrhyw amod yn y cytundeb hwn.

Llofnod: Dyddiad :

DIOLCHIADAU

Diolch yn arbennig i'r Athro Gerwyn Wiliams, fy nghyfarwyddwr ymchwil, am ei hynawsedd, a'i gefnogaeth a'i anogaeth gyson.

Diolch hefyd i'm teulu, Huw a Beca, am eu cefnogaeth hwythau.

CRYNODEB

Mae'r prosiect hwn yn seiliedig ar nofel hir, *Veritas*, a luniwyd yn ystod cyfnod y prosiect. Cyflwynir y prosiect mewn dwy ran.

Yn y rhan gyntaf, ceir traethawd hir sy'n disgrifio'r broses greadigol bersonol hon. Dangosir sut y mae hanes yn gallu bod yn rhan o nofel, ond heb i'r nofel honno fod yn *genre* y nofel hanesyddol. Dangosir hefyd sut yr oedd rhoi amser i'r nofel ddatblygu yn bwysig, wrth iddi ddod dan ddylanwad amryw ffactorau a effeithiodd ar ei ffurf orffenedig.

Yn yr ail ran ceir y nofel *Veritas*. Cyhoeddwyd y nofel hon yn 2015. At ddibenion y traethawd hwn, mae unrhyw gyfeiriad at rifau tudalennau *Veritas* yn gyfeiriad atynt fel y'u gosodwyd yn ail ran y ddoethuriaeth hon.

CYNNWYS

RHAN I

DATGANIAD A CHANIATÂD	2
DIOLCHIADAU	5
CRYNODEB	6
RHAGYMDRODD	10
1 DATBLYGU <i>VERITAS</i>	13
1.1 Sefyll ar y trothwy	13
1.2 Rhwng y trothwy a'r giât	14
1.3 Codi cliced y giât...a phetruso	16
1.4 Genedigaeth frenhinol	16
1.5 Cadw'r gyfrinach	20
1.6 Cymryd y cam cyntaf	22
1.7 Esgor ar Martha	24
1.8 Camu i'r ochr	25
1.9 Ar fy mhedwar	27
i. Sut nad oedd y pedwar wedi tynnu sylw atynt eu hunain cyn hyn?	27
ii. Ymhle y byddai'r pedwar yn cyfarfod?	29
iii. Pwy fyddai'r pedwar aelod gwreiddiol?	30
iv. Sut y byddai'r gyfrinach yn cael ei throsglwyddo?	31
1.10 Yn ôl ar y ffordd	32
1.11 Cyfriniaeth	33
1.12 Rhwng cwsg ac effro	36
1.13 <i>Des causes des monstres</i>	37
1.14 Presennol y nofel	40
i. Jiwbilí	41
ii. Ysgerbydau	41
iii. Colli April	42
iv. Melino'r gwynt	44
1.15 Mapio	45
1.16 Lleoli'r nofel	45
2 CYMERIADAU	49

2.1	Adnabyddiaeth raddol	49
2.2	Dilladu gair a llun.....	51
3	ARDDULL	53
3.1	Patrwm y penodau	53
3.2	Ieithwedd	55
4	PEN Y DAITH.....	59
4.1	Y camau olaf	59
4.2	Cyhoeddi	60
5	DERBYNIAD	64
5.1	Gwerthiant	64
5.2	Sylwadau	65
6	CASGLIAD	70
	ATODIAD	72
	Hydref 2012.....	73
	Y Ddol Rwsiaidd.....	74
	Cynefin	77
	Crafu.....	82
	LLYFRYDDIAETH	87
	Gweithiau beirniadol ac academaidd	87
	Gweithiau creadigol a ffuglennol	90
	Cynnyrch clywedol.....	91
	Gwefannau.....	92
	Gweithiau heb gydnabyddiaeth	93

RHAN II

<i>VERITAS</i>	1
----------------------	---

RHAN I

RHAGYMATRODD

Nid mympwy oedd ysgrifennu'r nofel hon. Bron na ellid dweud bod ynndi hadau a heuwyd ddegawdau'n ôl pan oedd adrodd storïau – a barddoniaeth, gwirebau a diarhebion hefyd – yn rhywbeth dyddiol bron yn ein tŷ ni. Os amrywiol y *repertoire* – o ddamhegion Beiblaidd i storïau'r Brodyr Grimm, o chwedlau Aesop i *Llyfr Mawr y Plant*, o storïau byrfyfyr i hanesion am blentyndod aelodau o'r teulu – cyfyng oedd y dewis, am fod mynd ar ffefrynnau. Doedd y rheini fyth yn siomi, er mor gyfarwydd yr oedden nhw, a doedden nhw fyth yn hir. Nid yng nghynnwys y stori roedd y rhinwedd, o reidrwydd, ond yn y gallu i'w dweud mewn ffordd a oedd yn ennyn diddordeb plentyn ac yn ei gynnal. Er mai'r un fyddai'r stori, doedd hi fyth yr un fath oherwydd roedd arlliw neu naws wahanol iddi bron bob tro, yn ôl gafael y storïwr ar ei grefft.

Does ryfedd wedyn, am wn i, fod yr hadau boreol hynny wedi dechrau bwrw gwraidd, a minnau'n dechrau creu bydoedd bach o'm cwmpas a chymeriadau nad oedd yn bod i neb arall ond i mi, ac yna, yn yr ysgol gynradd yn creu pytau bach dychmygol a lluniau creon lliwgar i gyd-fynd â nhw. Teg dweud bod mwy o raen ar y stori na'r llun! Erbyn cyrraedd Ysgol Bro Ddyfi, Machynlleth, roedd y lluniau creon wedi hen ddiflannu, a'r storïau'n hwy ac yn ddwyieithog. Erbyn hynny, roeddwn hefyd yn arbrofi gyda barddoniaeth ac yn ysgrifennu sonedau a cherddi rhydd, gan lwyddo i ennill cadair yr ysgol yn 1979.

Parhaodd y diddordeb yn y ddau gyfrwng yn y brifysgol yn Aberystwyth, a dechreuais gystadlu, ac ennill ambell dro, mewn eisteddfodau lleol, eisteddfod y Ffermwyr Ifanc a'r Eisteddfod Ryng-golegol. Cefais fy annog gan y Dr John Rowlands i ysgrifennu nofel fer ar gyfer y cwrs Ysgrifennu Creadigol, ac aeth *Dolennau* rhagddi i ennill Medal Lenyddiaeth Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd 1985. Wedi fy sbarduno gan y llwyddiant hwnnw, dyma gystadlu eto y flwyddyn ganlynol, y tro hwn gyda chyfuniad o ddeialog, stori fer ac ysgrif, ac ennill Coron Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dyffryn Ogwen 1986. Ym 1990, dyfarnwyd un o'm storïau byrion ymhlith

goreuon cystadleuaeth Gwobr Goffa Kate Roberts,¹ a chyhoeddwyd un arall yn 1997, fy ymgais gyntaf ar stori arswyd, yn y gyfrol *Mwys a Macâbr*.²

Erbyn hynny, roeddwn i'n briod, yn cyfieithu'n llawn-amser yng Nghaerfyrddin, a rhwng hynny a chadw tŷ a theulu, fe aeth yn fwyfwy anodd i gael yr oriau tawel yr oeddwn i eu hangen i ysgrifennu rhyddiaith. Ond hyd yn oed wedyn, roedd y gynneddf greadigol yn parhau'n gryf, a dyma ailgydio mewn ysgrifennu barddoniaeth. Nid bod hynny'n ffrwyth penderfyniad bwriadol ychwaith; roedd yr elfen greadigol fel petai yn addasu'i hun i ffitio'r amser a oedd ar gael, ac yn ateb y galw hefyd. Yr oeddwn bellach yn byw yn Aber-porth, a ffrwyth fy nghreadigrwydd bryd hynny oedd y cyflwyniadau gwreiddiol a luniais ar gyfer plant a phobl ifanc yr Ysgol Sul, i gyfansoddiadau cerddorol Alun Tegryn, fy nhad yng nghyfraith. Roeddwn eisoes wedi cael blas ar hyn pan gafodd Hefin Elis a minnau gomisiwn yn 1988 i ysgrifennu *Ffair Ffyled*, sioe gerdd gynradd yn seiliedig ar storïau a chwedlau lleol Maldwyn, ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Drenewydd.

Wedi troad y milflwydd, ac am resymau gwaith, dyma godi pac fel teulu a symud i Gaerfyrddin. Ymunais, maes o law, â'r Ysgol Farddol yno dan lywyddiaeth Tudur Dylan Jones a Mererid Hopwood. Y cynganeddion, a'r canu caeth, a aeth â'm bryd am sawl blwyddyn ar ôl hynny.

Wn i ddim yn iawn pryd y cododd yr awch i ysgrifennu nofel, ond roedd yn awch a gynyddai o flwyddyn i flwyddyn. Cawn fy hun yn holi'n dawel 'Beth pe tasai?' ac yn llunio plotiau cymhleth ynghylch y pethau mwyaf diniwed. Ond ni waeth faint o senarios posibl y gallwn eu gweld mewn digwyddiadau pob dydd, roedd gennyf yr un nifer o esgusodion rhag mynd ati i wisgo'r dychymyg â geiriau. Felly, er mwyn boddhau'r awch, ac i sicrhau fy mod yn gwneud mwy na breuddwydio am ysgrifennu, dyma gofrestru'n rhan-amser ar gwrs PhD Ysgrifennu Creadigol Prifysgol Bangor yn 2009. Erbyn hynny, roedd fy sefyllfa waith o'm plaid oherwydd roeddwn yn gweithio'n rhan-amser, dridiau'r wythnos, a hyd y gwelwn bryd hynny, gallwn neilltuo deuddydd ar gyfer y prosiect.

¹ Mari Lisa, 'Y dydd y torrodd yr argae', yn *Wyth Stori Fer* (gol. anhysbys) (Caerdydd: Hughes a'i Fab, 1990), tt. 28-34.

² Mari Lisa, 'Hilda', yn Delyth George (gol.), *Mwys a Macâbr* (Talybont: Y Lolfa, 1996), tt. 19-25.

Doedd dim troi'n ôl wedyn.

1 DATBLYGU *VERITAS*

1.1 Sefyll ar y trothwy

Wedi gwneud y penderfyniad i ysgrifennu nofel, roedd gennyf syniadau pendant ynghylch y math o nofel yr hoffwn ei hysgrifennu. Yn blentyn, roeddwn yn gwirioni ar gyfrolau Enid Blyton, *The Famous Five* a *The Secret Seven*, ac yn fy arddegau cynnar nofelau Alistair MacLean, Agatha Christie a Dick Francis a oedd yn mynd â'm bryd. Fyth oddi ar hynny, rydw i'n ddarllenwraig brwd o nofelau ditectif a dirgelwch o bob math. Gorau oll po gryfed neu fwyaf cymhleth y plot. Mae fy silffoedd llyfrau yn gwegian dan weithiau Ruth Rendell, Jo Nesbo, Stieg Larsson, Chris Ryan, John Grisham, Dan Brown, Jeffrey Archer, ac awduron eraill o'r fath. Pan gefais gynnig i gyfieithu *An Unsuitable Job for a Woman* (1972),³ un o nofelau P. D. James, yn 1989, roedd hynny'n ymylu ar fod yn fwy o wyliau nag o waith. Mae fy chwaeth mewn rhaglenni teledu hefyd yn yr un cywair: *Inspector Morse*, *Silent Witness*, *The Bridge*, *Witnesses*, *Yr Heliwr*, *Y Gwyll* ac ati. Felly, roedd mynd i gyfeiriad y *genre* dirgelwch neu dditectif yn benderfyniad naturiol.

Mae stori dda yn bwysig i mi. Magwyd yr awch hwnnw ynof, fel y soniais eisoes, ar yr aelwyd gartref, ac roeddwn yn awyddus i roi'r lle blaenaf i hynny. Roeddwn hefyd am geisio ysgrifennu stori y byddwn i fy hun yn mwynhau ei darllen, gan obeithio, drwy hynny, y byddai eraill yn cael blas arni. Mewn ffordd, drwy wneud hynny, roeddwn i'n ystyried fy hun yn ddarllenydd yn ogystal ag yn awdur; hynny yw, drwy geisio fy modloni fy hun, roeddwn i hefyd yn ceisio bodloni darllenwyr eraill a allai fod yn mwynhau'r un math o storïau â mi. Mae Patricia Duncker yn crisialu fy nheimpladau mewn erthygl yn *The Creative Writing Coursebook*:

Some writers/authors have an ideal reader in mind when they write, some write purely to please themselves. But for whoever you write, even if it is for yourself, it is for yourself *as a reader*.⁴

Felly, lle cyfeirïaf yn y traethawd hwn at 'ddarllenwyr', y mae hynny hefyd yn fy nghynnwys i fy hun.

³ Mari Lisa, *Ar Gortyn Brau* (Aberystwyth: Cymdeithas Lyfrau Ceredigion, 1990).

⁴ Patricia Duncker, 'On Narrative Structures', yn Julia Bell a Paul Magrs (gol.), *The Creative Writing Coursebook* (London: Macmillan, 2001), t. 202.

Yr oeddwn yn awyddus hefyd i gyflwyno elfen hanesyddol yn y nofel, ond yn gwybod ar yr un pryd nad nofel hanesyddol mohoni. Fel y nofelydd hanesyddol, fe fyddwn yn ceisio sicrhau, drwy waith ymchwil manwl, bod yr agweddau hanesyddol mor driw â phosibl i'r ffeithiau. Serch hynny, byddai'r defnydd a wnawn o'r ymchwil honno yn wahanol i'r nofelydd hanesyddol. Portreadu cyfnod mor driw â phosibl y mae ef. Yn fy achos i, swyddogaeth yr elfen hanesyddol fyddai ategu'r plot, rhoi hygredded i'r stori a gwneud i'r darllynydd gwestiynu'r gwirionedd. Yn hyn o beth, fe fyddwn yn defnyddio techneg debyg i un Dan Brown, James Becker a Kate Mosse yn eu nofelau hwy, lle mae elfennau o wirionedd yn rhan o'r ffuglen.⁵

Felly, nofel ddirgelwch a fyddai â phlot cryf, stori dda ac iddi naws Gymreig, a rhannau helaeth ohoni yn seiliedig ar hanes. Dyna'r trothwy y safwn arno wrth gychwyn arni, ac er y teimlai hwnnw'n ddigon solet odanaf, digon annelwig oedd yr hyn a oedd o gwmpas y trothwy.

1.2 Rhwng y trothwy a'r giât

Gan fy mod yn hanu o Lanwrin, nid nepell o Fachynlleth a Phennal, bu'r hanesion am Owain Glyndŵr yn rhan o'm magwraeth. Roeddwn i'n aelod o Gwmni Theatr Ieuencid Maldwyn yn 1981, pan lwyfannwyd eu sioe gyntaf, *Y Mab Darogan*; gwyddwn am y senedd-dy enwog, a llythyr Pennal, a brwydr Hyddgen; a gwyddwn hefyd am ambell beth llai cyfarwydd, fel y Llwybr Stablau igam-ogam ar lethrau Rhosdyrnog, ger Aberhosan, lle yr honnir bod Owain wedi tywys ei geffylau tua'r frwydr. Ond am bob darn bach a wyddwn am Owain, roedd lluoedd o ddarnau bach eraill ar goll neu ynghudd o dan haenau o ramant ac anwybodaeth. Os bu Owain ar herw, ymhle y bu hynny? Beth fu hanes yr hen Owain yn ei ddyddiau olaf? Ble y claddwyd ei gorff?⁶ Fel y soniwyd eisoes, cyfrwng fyddai'r elfen hanesyddol i chwarae â'r hyn sy'n wir ac i gynnig senario amgen. Roedd yr elfennau anhysbys yn hanes Owain yn cynnig posibilïadau eang yn hyn o beth, ond roedden nhw hefyd yn gwestiynau y bu ymgodymu â nhw ers blynyddoedd a doedden nhw ddim yn newydd. Rhaid oedd cael bachyn gwahanol.

⁵ Gweler y llyfryddiaeth.

⁶ Dyma faes astudiaeth Gruffydd Aled Williams yn ei gyfrol *Dyddiau Olaf Owain Glyndŵr* (Talybont: Y Lolfa, 2015), a gyhoeddwyd pan oedd y prosiect hwn yn tynnu at ei derfyn.

Chwiliais yn ddyfal drwy'r hanes am Owain Glyndŵr ar y we ac mewn llyfrau cyhoeddedig.⁷ Ceisiais roi trefn ar ei blant, a sylweddoli na wŷr neb i sicrwydd faint o blant a oedd ganddo. Gwnes fywgraffiad byr o rai o brif gymeriadau'r gwrthryfel, Crach Ffinnant, Rhys Gethin, Edmwnd Mortimer, John Scudamore. Darllenas gywyddau Gruffydd Llwyd i Owain a'i lys. Bŵm yn Sycharth a chopi o gywydd Iolo Goch yn fy llaw. Bŵm yn Eglwys Pennal, ac yng Nghefn Caer; darllenas yr honiadau am fannau claddu Owain ym Monnington Straddel, Kentchurch Court, ac Eglwys Llanwrda, Caerfyrddin.⁸ Ymchwiliais i'w arfbais, gan ystyried defnyddio'r llewod mewn cod o ryw fath yn ddiweddarach yn y stori, pa beth bynnag fyddai honno.

Erbyn hyn, roedd fy ffeil o nodiadau teipiedig yn cynyddu, ac roedd gennyf hefyd ddau lyfr nodiadau, y naill o faint A4 lle'r roeddwn yn ceisio cael trefn ar fy meddyliau a'r cwestiynau a'm poenai, a'r llall o faint dipyn yn llai, er mwyn imi ei gario gyda mi i gofnodi unrhyw syniadau a ddigwyddai fy nharo. Wrth ailddarllen fy nodiadau teipiedig am Owain, sylweddolais fy mod, bron yn ddjarwybod i mi fy hun, wedi cofnodi dyfyniadau am y 'broffwydoliaeth', yr oedd Owain, y Mab Darogan, yn gymaint rhan ohoni. Y broffwydoliaeth, wrth gwrs, oedd y gred y byddai arwr mawr yn codi i arwain y bobl i fuddugoliaeth, a'r nod pennaf un oedd cael Cymro i wisgo coron Prydain unwaith eto.

...gellid ystyried mai ar Owain Glyn Dŵr y syrthiai'r baich o...adfer y freuddwyd o dywysog brodorol Cymreig unwaith eto yng Nghymru.⁹

Yn ôl Enid Roberts, y person a wnaeth 'fwy na neb i gynnal ffydd ac ennyn diddordeb [yn y broffwydoliaeth] yng Nghymru...oedd Dafydd Llwyd o Fathafarn'.¹⁰

Yr oeddwn yn gyfarwydd iawn â hanes Dafydd Llwyd, gan fod Mathafarn dafliaid carreg o'm cartref yn Llanwrin. Gwyddwn amdano fel bardd a phroffwyd, ac un o gynheiliaid y canu brud a oedd yn seiliedig ar y broffwydoliaeth. Yr oedd y stori amdano yn croesawu Harri Tudur i Fathafarn wrth i hwnnw ymdeithio tuag at Bosworth a choron Lloegr yn rhan o'm plentyndod. Yn ôl y sôn, gofynnodd Harri Tudur i

⁷ Gweler y llyfryddiaeth.

⁸ Alex Gibbon, *The Mystery of Jack of Kent and the Fate of Owain Glyndwr* (Stroud: Sutton Publishing, 2004)

⁹ R. R. Davies, *Owain Glyn Dŵr* (Talybont: Y Lolfa, 2002), tt. 12-14.

¹⁰ Enid Roberts, *Dafydd Llwyd o Fathafarn*, Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'i Chyffiniau, 1981 (Caernarfon: Argraffwyr Gwynedd, 1981), t. 20.

Ddafydd Llwyd broffwydo a fyddai'n llwyddo i gipio'r goron oddi ar Rhisiart III. Achosodd hynny dipyn o boendod i'r hen Ddafydd, ac aeth i ymgynghori â'i wraig. Ei hateb hi oedd: "Dywed wrtho y bydd yn siŵr o ennill. Os colli a wna, nid yw'n debygol o ddychwelyd i'th boeni di; os ennill a wna, efallai cei dy wobrwyo."¹¹ Yn *Veritas*, mae Seimon yn adrodd y stori fach hon yn y car wrth Martha a Josh cyn i bethau fynd yn flêr.¹² Gyda'r stori honno yng nghefn fy meddwl, euthum wedyn ar drywydd Harri Tudur, a chael fy nghyfareddu gan ei hanes a ddechreuodd yng Nghastell Penfro, yn fab i'r weddw fach ifanc, Margaret Beaufort, Iarlles Richmond.

Rywbryd yn y cyfnod hwn, rhwng ymchwilio a darllen, holi a stilio, daeth yr holl elfennau hyn – y Mab Darogan, y broffwydoliaeth, y canu brud a genedigaeth Harri Tudur – at ei gilydd, ac roedd gen i syniad. Y cwestiwn a ofynnais i mi fy hun oedd hwn: beth petai rhywun wedi cyfnewid dau fabi yng nghastell Penfro yn 1457? Beth os nad oedd y babi a anwyd i Margaret Beaufort yn berthynas waed iddi hi a'i diweddar ŵr, Edmwnd Siaspar?

1.3 Codi cliced y giât...a phetruso

Bellach, gallwn weld pen y daith yn glir. '[T]he beginning of every story', meddai Margret Geraghty, 'contains...the seed of its end.'¹³ Gwyddwn, yn fras, beth fyddai cynnwys penodau olaf y nofel, sef datgelu cyfrinach a gadwyd ers ychydig dros hanner mileniwm. Roedd haul ar y bryn yn y pen draw, ond roedd y dyffryn rhyngof ag ef o dan niwl trwchus o hyd. Esgorodd y syniad o gyfnewid babi ar lu o gwestiynau eraill. A fyddai peth felly hyd yn oed yn bosibl? Dyma ddechrau felly ar y gwedd o ffeithiau hanesyddol a ffrwyth dychymyg sy'n rhan mor annatod o'r nofel.

1.4 Genedigaeth frenhinol

Ym mis Ebrill 2010, a'r syniadau hyn yn ffrwtian yn fy mhen, euthum ar ymweliad â Chastell Penfro am y tro cyntaf erioed. Disgwyliwn weld ystafell grand a moethus, ac

¹¹ Roberts, *Dafydd Llwyd o Fathafarn*, t. 5.

¹² *Veritas*, t. 147.

¹³ Margret Geraghty, *The five minute writer* (Oxford: How to Books), t. 56.

ynddi wely teilwng o'r darpar frenin, fel yn y darlun a atgynhyrchwyd yn y tywyslyfr swyddogol.¹⁴ Tybiais, fan lleiaf, y byddai Harri Tudur wedi'i eni yn y rhan fewnol, a mwyaf diogel, o'r castell. Yn lle hynny, fe'm tywyswyd at wal allanol y castell, ac at un o siambrau'r gwarchodlu. Mae'r tŵr yr honnir iddo gael ei eni ynddo yn gyfyng dros ben, ac roeddwn yn cael anhawster i ddeall pam y byddai Iarlles Richmond mewn lle mor llwm yn nyddiau olaf ei beichiogrwydd. Holais y tywysydd am hyn, a'i hateb oedd ei bod yn arferiad yn y 1500au i droi siambr mewn tŵr yn ystafell i'r ddarpar fam. Wrth ei holi ymhellach, sylweddolais ei bod yn bwysig imi ddeall beth oedd y drefn arferol wrth roi genedigaeth yn yr Oesoedd Canol, yn enwedig o gofio mai echel fy nofel yw cyfrinach am fabi newyddanedig yng Nghastell Penfro, ac yna cyfnewid y babi hwnnw. Dyma ddechrau ar daith ymchwil ddiddorol, a aeth â mi i diroedd pellach na'r penodau y mae a wnelo'r daith â hwy.

Yn y ddeunawfed ganrif, byddai brenhines yn gorfod rhoi genedigaeth yng ngŵydd torf o bobl. Pwrpas hyn oedd cadarnhau rhywedd y babi a sicrhau ei fod yn iach, ac yn anad dim i ofalu nad oedd neb yn cyfnewid y babi brenhinol am un arall. Yn 1717, rhoddodd y Frenhines Caroline enedigaeth ym mhresenoldeb Siôr II, Archesgob Caergaint a deuddeg o bobl eraill.¹⁵ Os oedd cipio neu gyfnewid babanod brenhinol yn berygl gwirioneddol yn y ddeunawfed ganrif, dychmyger cymaint yn fwy fyddai'r bygythiad hwnnw yng nghyfnod Rhyfeloedd y Rhosynnau pan oedd bygythiad cyson i sefydlogrwydd y Goron.

Ond iarlles oedd Margaret Beaufort, aelod o deulu bonedd blaenllaw yn yr Oesoedd Canol. Nid brenhines mohoni. Pan ddaeth Harri Tudur i'r byd yng Nghastell Penfro ym mis Ionawr 1457, o'r braidd y byddai unrhyw un wedi credu, gan mor denau oedd ei gysylltiad â'r teulu brenhinol, y byddai'n esgyn i orsedd Lloegr maes o law. Yr oedd yn annhebygol iawn, felly, y byddai yno dorf yn tystio i'w enedigaeth, ac yn gwarchod babi Margaret Beaufort rhag cael ei gipio neu ei gyfnewid am un arall. Pwy, felly, oedd yn yr ystafell oer yn y tŵr yn ei chynorthwyo hi?

Gwylodd darth ei hanadl yn yr oerfel yn cydsymud ag anadl y merched yma ac acw yng nghorneli'r ystafell... (V: t.3)

¹⁴ Darlun ym meddiant Llyfrgell Bodleian, Rhydychen, a atgynhyrchwyd yn Neil Ludlow, *Pembroke Castle*, Pembroke Castle Trust (dim dyddiad).

¹⁵ Lucy Worsley, 'Sleeping beauties', *National Trust Magazine* (Hydref 2012), tt. 60-4.

Yn yr Oesoedd Canol, merched yn unig fyddai yn y siambr gyda'r fam.¹⁶ Byddai un neu ragor ohonynt yn hyddysg yn yr arferion esgor. Ar ddiwedd fy ymweliad â Chastell Penfro, cyfeiriais at y lle cyfyng yn y tŵr, a holais y tywysydd sut yn y byd y byddai gwely wedi cael ei roi yn y fath le. Ei hateb oedd nad gwely fyddai yno o bosibl, ond cadair uchel. Roedd cynllun y gadair yn amrywio o ardal i ardal ac yn debyg i gomôd. Weithiau byddai ar flochiau fel y gallai'r wraig hysbys, y 'fydwraig', fynd o dan beisiau'r ferch i helpu'r babi ar ei daith.¹⁷

Petai hi ond yn gallu codi, fe allai orwedd yn rhywle. Gorwedd ar ei hochr fel y babi yn ei chroth, yn lle hofran ac eistedd am yn ail ar gadair galed fel iâr yn gori. (V: t.3)

Un arall o'r arferion a oedd yn gysylltiedig â'r esgor oedd y 'codl' (*S. caudle*) a roddid i'r fam i'w yfed. Cymysgedd o win, cwrw a sbeis oedd hwn. Mewn cyfnod pan nad oedd ffordd o ladd poen, diben y codl oedd sicrhau bod y fam yn ymlacio, ac os oedd yr esgor yn neilltuol o anodd, fel yn achos Margaret Beaufort, byddai'r 'fydwraig' yn ceisio ystwytho pethau gyda pherlyisiau ac emetigau.¹⁸

Daliodd rhywun ffiol wrth ei gwefusau gan ei hannog i yfed ohoni, a throdd hithau ei phen ymaith. Ofer y bu hynny oherwydd arllwyswyd peth o'r cynnwys i'w cheg a theimlodd ei wres yn ei llwnc, a'i ddiferion gwaedlyd yn glafoeri i lawr ei gên. (V: t.3)

Dim ond merched fyddai yn y siambr. Pwy felly a fyddai â'r cyfle a'r cymhelliant i gyfnwid y babi? Ai un o'r rheini? Gwyddwn fod merched bonedd weithiau yn rhoi eu baban i laethfam i'w fagu,¹⁹ a bûm yn chwarae â'r syniad y gallai honno gyfnwid y babi, ond ni allwn ddeall pam y byddai'n gwneud hynny. Weithiau, pan fyddai argyfwng, galwai'r merched ar 'feddyg' i'w cynorthwyo. Yn ôl hen goel gwlad, pe byddai'n rhaid cael dyn i helpu'r fydwraig roedd hynny'n arwydd bod yr argyfwng mor ddifrifol nes bod posibilrwydd y byddai'r plentyn neu'r fam yn marw.²⁰ Y mae'n hysbys y bu bron i Margaret Beaufort, y weddw dair ar ddeg oed, farw wrth roi

¹⁶ Frances Gies a Joseph Gies, *Daily Life in Medieval Times* (Hoo, Kent : Grange, 2005), t. 258.

¹⁷ Aly Alaily, *The History of the Parturition Chair* (St Leonards-on-Sea: Rosewell, 2000), t. 12.

¹⁸ Claudia Spahr, *Right Time Baby* (London: Hay House, 2011), t. 193.

¹⁹ Elena Greene, 'Pregnancy and Childbirth for the Historical Author', <<http://www.elenagreen.com/childbirth.html>>; cychwyd Mehefin 2010.

²⁰ Spahr, *Right Time Baby*, t.193.

genedigaeth,²¹ ac felly, yn fy nhyb i, byddai meddyg bron yn sicr wedi dod at ei gwely. Gwelais innau fy nghyfle i gyflwyno Lewys Caerllion. Ychydig a wyddwn am Lewys, ond yn ôl *Y Bywgraffiadur Cymreig*,²² mathemategydd, diwinydd, ac athro yn Rhydychen ydoedd, ac yn bwysicach fyth yr oedd yn feddyg i Margaret, Iarlles Richmond ac, yn ddiweddarach, i Harri Tudur. At ddibenion y nofel byddai'n beth naturiol iddo gael ei alw, yn feddyg ifanc, at yr argyfwng ym Mhenfro.

Er fy mod yn gwybod erbyn hyn y byddai'r babi ym Mhenfro yn cael ei gipio a'i gyfnewid am un arall, ac mai Lewys Caerllion, y meddyg, fyddai'n gwneud hynny, nid oeddwn yn glir beth fyddai ei gymhellant, oddieithr bod a wnelo hynny mewn rhyw fodd â'r hen broffwydoliaeth.

Wrth edrych yn ôl dros nodiadau a wnes yn 2010, sylwaf fy mod wedi nodi'r opsiynau canlynol:

Ar hyn o bryd mae dau opsiwn ar gyfer y gyfrinach yn dibynnu ar ddatblygiad y nofel:

1. Mab marwanedig a gafodd Margaret Beaufort yng Nghastell Penfro ar y noson dyngedfennol honno yn 1457. Mae hyn yn rhesymol o gofio'r ffaith nad oedd hi ond 13 oed ar y pryd. Dichon y byddai'r enedigaeth wedi bod yn eithriadol o anodd ar y gorau, heb sôn am amgylchiadau cyntefig y cyfnod. Cofier hefyd am y ffaith na lwyddodd i gael rhagor o blant wedi hynny er iddi briodi ddwywaith wedyn. Dyma'r opsiwn cryfaf.
2. Merch a gafodd Margaret Beaufort yng Nghastell Penfro ar y noson dyngedfennol honno yn 1457.

Yn naturiol ddigon byddai'r naill opsiwn neu'r llall yn drychineb i'r criw dethol oedd yn gweithio'n galed i wireddu'r 'broffwydoliaeth', oherwydd roedd angen mab i wneud hynny, wnâi merch mo'r tro.²³

Mab marwanedig, felly, oedd y syniad ar y cam hwn o'r gwaith plotio, a'r cymhellant oedd gwireddu'r broffwydoliaeth o roi coron Lloegr ar ben Cymro o dras. Gwelwn felly, at ddibenion y stori, pe byddai'r enedigaeth wedi bod yn ddidrafferth, a mab iach wedi'i eni i Margaret Beaufort, na fyddai wedi bod angen i Lewys Caerllion gyfnewid y

²¹ Peter Snelson, *Lady Margaret Beaufort* (Cambridge: Christian Heritage, 1999), t. 4.

²² Walter Thomas Morgan a'r Dr Llewelyn Gwyn Chambers, 'Lewis o Gaerleon', *Y Bywgraffiadur Cymreig* <<http://wbo.llgc.org.uk/cy/c-LEWI-SOG-1491.html>>; cyrchwyd Hydref 2010.

²³ Nodiadau personol yr awdur.

babi am un arall. Genedigaeth Harri Tudur oedd y cyfle olaf i wireddu'r broffwydoliaeth – er mor denau oedd y cysylltiad â'r llinach frenhinol – yn dilyn y siom ar ôl dienyddiad ei daid, Owain Tudur, yn Henffordd, a marwolaeth ei dad, Edmwnd, yng ngharchar Caerfyrddin.

1.5 Cadw'r gyfrinach

Ar ôl penderfynu ar y gyfrinach a fyddai'n greiddiol i'r stori, sef cipio a chyfnwid babi Margaret Beaufort, a'r hyn a fyddai'n cael ei ddatgelu ar ddiwedd y nofel, y cwestiwn nesaf a ofynnais i mi fy hun oedd pwy oedd wedi cadw'r gyfrinach mor ofalus ers 1457. Roedd angen imi ateb y cwestiynau hyn cyn hyd yn oed ddechrau ysgrifennu'r nofel ei hun. Mae'n amlwg o'r paragraff olaf yn y nodiadau uchod o 2010 fy mod eisoes wedi penderfynu y byddai 'criw dethol' yn rhan o'r stori mewn rhyw fodd.

Yr oedd gennyf un cymeriad eisoes a wyddai'r gyfrinach, sef Lewys Caerllion, ond gwyddwn, wrth reswm, fod angen mwy nag un person i fod yn gyfrifol am ei gwarchod, neu fe fyddai'r cyfan wedi darhod am byth gyda marwolaeth yr un person hwnnw. Ni fyddai criw mawr yn gweithio ychwaith oherwydd po fwyaf y nifer a fyddai'n gysylltiedig â'r gyfrinach, y mwyaf tebygol y byddai o gael ei datgelu gan rywun. Pwy fyddai Lewys wedi ymddiried ynddo? Cofiais fod Siaspar Tudur, ewythr Harri, wedi ymdrechu'n galed i warchod ei nai ac i hwyluso ei ffordd tuag at yr orsedd. Gellid tybio y byddai hwnnw'n siomedig iawn pe byddai Margaret Beaufort wedi esgor ar fab marwanedig. Lewys a Siaspar felly. Ond doedd hynny ddim yn ddigon, yn fy nhyb i. Penderfynais geisio gweithio gyda phedwar, gan feddwl y gallwn addasu hynny yn nes ymlaen yn ystod y broses o ysgrifennu'r nofel, er na wyddwn bryd hynny pwy fyddai'r ddau aelod arall.

Yr oedd y plot erbyn hyn yn dechrau siapio. Yn y cyfnod hwn, wrth geisio cael trefn ar fy meddyliau, nodais fel a ganlyn:

Mae criw bach dethol wedi tyngu llw ar hyd y blynyddoedd i gadw'r gyfrinach.²⁴

²⁴ Nodiadau personol yr awdur.

Y syniad oedd gennyf oedd bod y pedwar gwreiddiol wedi trosglwyddo'r gyfrinach i bedwar arall, ac yn y blaen, drwy'r canrifoedd. Yr oeddwn yn gwybod o'r dechrau bron y byddai o leiaf un llofruddiaeth yn y nofel, ac ar y cam hwn cefais syniad o gyflwyno cyfres o dair llofruddiaeth a'r tri a leddir ymhlith y rhai a oedd yn gwarchod y gyfrinach.

Y prif ddigwyddiadau fydd cyfres o lofruddiaethau arwyddocaol, a'r gyntaf o'r rheini fydd canfod bwgan brain wedi'i lunio o gorff dyn a'r brain yn heidio ato i'w fwyta yn hytrach na chael eu dychryn ymaith.²⁵

A'r nofel bellach wedi'i hysgrifennu, mae'n ddiddorol nodi na fu newid i'r syniad hwnnw, nac ychwaith i'r ail lofruddiaeth:

Digwydd yr ail lofruddiaeth mewn stabal, a'r tro hwn bydd y corff yn crogi wrth hen iau.²⁶

Yn ôl fy nisgrifiad o'r drydedd lofruddiaeth, fy nghynllun oedd hyn:

Bydd corff y drydedd lofruddiaeth efallai'n hongian o nenfwd eglwys a'i freichiau a'i goesau ar led fel petai'n hedfan.²⁷

Am resymau na ddaeth yn amlwg tan imi ysgrifennu'r nofel, cefnais ar y syniad hwn fisoedd lawer yn ddiweddarach. Ni fu trydedd lofruddiaeth, gan mai trawiad ar y galon a gafodd Seimon, y trydydd aelod o'r criw, a'r unig elfen o'r rhan hon a oroesodd yw'r cysylltiad â'r eglwys.

Yr oedd gennyf bwrpas penodol i bob un o'r senarios uchod, sef bod cliwiau i'r gyfrinach yn y ffordd y cawsant eu gosod. Roeddwn am i'r brain yn y llofruddiaeth gyntaf fod yn arwydd o hen deulu Dinefwr, ac yn fwy penodol Rhys ap Tomas. Yn yr ail achos, roedd yr iau i ddynodi ych, sef Siaspar Tudur. Yn achos y drydedd lofruddiaeth, roedd y corff i gael ei osod ar ffurf aderyn yn hedfan, yn benodol gwennol, gan ddynodi teulu Harri Tudur ei hun. Nodais hefyd:

²⁵ Nodiadau personol yr awdur.

²⁶ Ibid.

²⁷ Ibid.

...ym mhob achos o lofruddiaeth mae un symbol cyson yn rhywle ar y cyrff, sef darn o fochyn. Maes o law deuwn i gysylltu hynny â'r baedd, sef arwyddlun Rhisiart III.²⁸

Wrth edrych yn ôl ar y cyfnod hwn, mae'n amlwg fod y gwaith ymchwil ar Ddafydd Llwyd o Fathafarn yn dal yn fy isymwybod ac wedi dylanwadu ar fy ngwaith cynllunio yn y cyfnod hwn i raddau mwy na dim ond y stori amdano yn proffwydo llwyddiant Harri Tudur ar faes Bosworth. Confensiynau'r canu brud, wrth gwrs, yw'r gyfeiriadaeth at y frân, yr ych, y wennol a'r baedd.

1.6 Cymryd y cam cyntaf

Yn y cyfnod hwn roeddwn yn dal i ymgodymu â'r plot, ac er bod y gwaith ymchwil yn hynod ddiddorol, roedd perygl iddo lyncu'r deuddydd yr wythnos a neilltuais i mi fy hun ar gyfer y prosiect. Er mwyn ffrwyno hynny a'm cael i ganolbwyntio ar yr ochr greadigol awgrymodd yr Athro Gerwyn Williams, cyfarwyddwr y prosiect, y dylwn geisio ysgrifennu pennod neu ddwy. Rhaid cyfaddef fod hynny'n codi mwy nag ychydig o ofn arnaf am nad oeddwn wedi ysgrifennu dim rhyddiaith greadigol ers sawl blwyddyn. A fyddwn i hyd yn oed yn medru gwneud hynny?

Yr oedd y darlun o'r llofruddiaeth gyntaf yn glir iawn yn fy meddwl, a dyma fynd ati i ysgrifennu honno. Roedd y senario honno, yn fy marn i ar y pryd, yn un a allai weithio'n dda fel pennod agoriadol y nofel. Yn rhy aml yn y gorffennol, roeddwn wedi rhoi'r gorau i ddarllen nofelau nad oedd yn fy rhwydo o'r dechrau'n deg. Gan mai plesio fy hun fel darlennydd yr oeddwn am geisio'i wneud, roeddwn yn awyddus i osgoi hynny, a cheisio efelychu nofelau a'm cadwai i ddarllen hyd yr oriau mân. Hyd y gwelwn ar y pryd, roedd erchylltra'r sefyllfa am y bwgan brain yn gyfle i dynnu darllenwyr i fywyd y stori. Ceir enghraifft o hyn yn y prolog i nofel hanesyddol Gwen Pritchard Jones, *Dygwyl Eneidiau* (2006), lle ceir disgrifiad manwl ac erchyll o ddyn yn cael ei arteithio a'i ladd.

Ar y pryd, arbrawf oedd y bennod hon, i gael rhyw ffrâm i'm crefft. Yr oedd yn ddiamsar ac nid oedd yn cynnwys unrhyw un y bwriadwn ei wneud yn brif gymeriad yn

²⁸ Nodiadau personol yr awdur.

y nofel. Er ei bod yn rhywle ym Mhowys, nid oedd iddi ychwaith leoliad penodol, ond bu'n allweddol am sawl rheswm. Deuthum i sylweddoli nad oeddwn i'n awdur 'toreithiog', hynny yw, bod y glorian yn gwegian ar ochr economi yn hytrach na geiriogrwydd. Yr oeddwn yn pwysu a mesur yn ofalus effaith geiriau a hyd brawddegau cyn eu hysgrifennu, ac yn treulio llawer o amser yn pendroni dros ddarnau byrion. Yn hynny o beth, yng nghynildeb y geiriau, gallwn weld dylanwad ochr farddonol fy nhaith greadigol. Ar un agwedd gallai'r nofel gymryd amser maith i'w hysgrifennu, ond ar agwedd arall ychydig iawn o ailddrafftio y byddai angen i mi ei wneud. Yr unig newid a wnes i'r bennod gyntaf honno, ar wahân i ailenwi ambell gymeriad, oedd ei gosod ynghanol y nofel, ac nid ar y dechrau, fel y bwriedais yn wreiddiol.

Yr oedd y bennod gyntaf honno hefyd yn allweddol am mai dyma'r tro cyntaf imi arbrofi â thafodiaith Maldwyn mewn deialog. Roedd hynny'n bwysig i mi, am mai dyna fy acen i fy hun. Yr oeddwn eisoes yn gyfarwydd ag *Ysgrife'r Randibw* (1983) gan Corrisa Jô's, casgliad o erthyglau cymeriad ffug a fu'n cyfrannu'n fisol at y *Blewyn Glas*, papur bro Dyffryn Dyfi, rhwng 1978 a 1982. Yn 1996, cyhoeddodd Tegwyn Pughe Jones gywydd²⁹ yn nhafodiaith Maldwyn, a rhoddodd Iola Jô's ambell dinc ohoni yn ei nofel amaethyddol *Dal dy Dir* (2004). Er gwaethaf ambell gyhoeddiad fel hyn, prin yw'r defnydd a wneir o acen fwyn Maldwyn yn ein llenyddiaeth – nid oes sôn amdani yng nghyfrolau Islwyn Ffowc Elis, er enghraifft – ac roedd hynny hefyd yn anogaeth imi ei defnyddio.

Cyd-ddigwyddiad pleserus oedd canfod yn 2011 mai testun cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Rhys Thomas James, Llanbedr Pont Steffan, y flwyddyn honno oedd pennod gyntaf nofel. Dyma fentro rhoi cynnig arni gyda'r bennod yr oeddwn newydd ei hysgrifennu. Deuthum yn ail agos, a bu sylwadau'r beirniaid yn amhrisiadwy ac yn hwb i'm hyder:

Patrwm o bennod gyntaf. Cymeriadu cryf, cefndir cynnil, darlunio celfydd ac adeiladwaith ardderchog tuag at y glec arswydus sy'n cloi'r bennod. Mae'r iaith

²⁹ Tegwyn Pughe Jones, 'Cwyn amaethwr', yn Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cywyddau Cyhoeddus 2* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1996), tt.117-18.

lafar yn nhafodiaith y canolbarth yn naturiol a chywir a hyd y bennod yn berffaith. Mae angen cwblhau'r nofel hon ar frys.³⁰

Yn ystod fy nghwrs Ysgrifennu Creadigol gyda'r Dr John Rowlands ar gyfer fy ngradd Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn hanner cyntaf yr 1980au, a minnau'n gogrdroi gyda'r gwaith cwrs, ac yn brawychu wrth feddwl am yr her o ysgrifennu nofel fer, ei eiriau i mi oedd: "Cofiwch fod pob nofel yn dechrau gyda'r frawddeg gyntaf. Sgwennwch rywbeth, unrhyw beth, ac mi ddaw'r gweddill." Gwir y geiriau. Wedi cwblhau un bennod, roeddwn yn fwy hyderus i ysgrifennu rhagor, a'r cogiau creadigol yn dechrau llacio.

1.7 Esgor ar Martha

Mae Siân Owen yn ei thraethawd PhD yn dweud mai'r 'cymeriadau a ddaeth flaenaf yn y broses o ysgrifennu *Mân Esgyrn*'.³¹ Dywedodd P. D. James mai'r lleoliad sy'n dod gyntaf yn ei hachos hi: 'After the setting comes the characters, and only then do I give thought to...the mechanics of the plot'.³² Yn fy achos i, y stori a'r plot a oedd yn cael sylw yn y lle cyntaf, a dim ond wedi imi gael y rheini yn weddol agos i'w lle y gallwn droi at lunio cymeriadau.

Merch fyddai prif gymeriad fy nofel ddirgelwch, ond gwyddwn nad ditectif yn yr heddlu mohoni. Un rheswm am hynny oedd y byddai'n rhaid gwneud hyd yn oed ragor o waith ymchwil. Pe bawn yn rhoi lle canolog i'r heddlu, roedd yn bwysig, yn fy marn i, fod dulliau ymchwilio a gweithdrefnau'r heddlu yn taro deuddeg yn y nofel, ac nid oedd yr amser na'r adnoddau o'm plaid i fedru cyflawni hynny. Y rheswm pennaf, fodd bynnag, oedd fy mod am i'r prif gymeriad fod yn berson y gallai darllenwyr uniaethu â hi ar sawl lefel. Golygai hynny ei gwneud yn berson cyffredin, sy'n bwrw ymlaen â'i bywyd beunyddiol. Hoffwn y syniad fod rhywbeth yn digwydd iddi, a'r digwyddiad hwnnw'n ei harwain i fod yn dditectif anfwriadol. Dyma fel y soniais gyntaf amdani yn fy nodiadau ac am ei rôl yn y nofel:

³⁰ Beirniadaeth Eurig Salisbury a Caryl Parry Jones ym meddiant yr awdur, 2011.

³¹ Siân Owen, 'Mân Esgyrn: Yr Awdur a'r Nofel – Dwy Daith yn Un?' (traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Bangor, 2010), t. 16.

³² Dyfynnwyd yn Geraghty, *The five minute writer*, t. 70

Bydd y prif gymeriad (merch) yn cael ei thynnu rhywfodd (llythyrau, allwedd ddirgel, papur mewn cyfrol etc) i sylwi'n fanylach ar y llofruddiaethau ... a thrwy hynny'n ei chael ei hun mewn perygl am ei heinioes.³³

Mae'r cwestiwn canlynol yno hefyd:

Ydi hi'n cael ei thargedu'n benodol, ynte chwilfrydig ydi hi a hynny'n arwain at drwbwl?³⁴

Yr oedd y prif gymeriad, maes o law, yn gyfuniad o'r ddau!

Mewn cyfarfod â'm cyfarwyddwr ymchwil, a minnau'n crybwyll fy syniadau cyntaf am y prif gymeriad, cododd nifer o gwestiynau amdani. Beth oedd ei gwaith? A oedd hi'n gaeth i oriau swyddfa? Sut y byddai'n cael yr amser i ddatrys y dirgelwch? A oedd ganddi sgiliau arbennig i ddatrys symbolau? Arweiniodd hyn imi ystyried y prif gymeriad o ddifrif, a ganwyd Martha.

Martha Maud Brennan – Cymraes o ochr ei mam, Gwyddeles o ochr ei thad. 45 oed. Geni 1967. Dyddiad pen-blwydd. Wedi colli ei rhieni (ganed ei mam yn 1947 – 20 oed yn cael Martha) yn ifanc (faint oedd ei hoed?) ac wedi dod i fyw at ei thaid yng Nghymru, wedyn mynd i weithio yn Llundain, wedyn nôl i Gymru ar ôl i'w thaid farw. Gwaith – cyfieithydd. Arfer bod yn briod efo Marc³⁵ Jarman. Priodas wedi chwalu ac wedi cymryd ei henw morwynol wedyn.

Gwyntyllwyd y syniad y gallai Martha fod yn gynllunydd gwisgoedd, oherwydd gallai ei gwybodaeth am hynny fod o gymorth i ddatrys y symbolau yn gysylltiedig â'r dirgelwch. Am ryw hyd, dyna oedd ei gwaith, ond gan mai'r cyngor fel rheol yw cadw at yr hyn y mae rhywun fwyaf cyfarwydd ag ef, penderfynais mai cyfieithydd, fel fi, fyddai Martha, ond cyfieithydd ar ei liwt ei hun.

1.8 Camu i'r ochr

Drwy gydol y broses o esgor ar Martha yr oeddwn yn dal i ymgodymu â rhai o broblemau'r plot. Er bod gennyf bellach arwres, a chyfrinach a gâi ei chadw gan bedwar cymeriad, nid oeddwn wedi crisialu yn fy meddwl pwy fyddai'n cyflawni

³³ Nodiadau personol yr awdur.

³⁴ Ibid.

³⁵ Newidiwyd ei enw i 'Neil' yn ddiweddarach.

anfadaith y nofel, a beth fyddai'r cymhelliant i wneud hynny. Dirywiodd y canu brud yn y blynyddoedd ar ôl gorseddu Harri Tudur, sy'n awgrymu nad oedd diben iddo bellach am fod y broffwydoliaeth wedi'i chyflawni.³⁶ A oedd rhywun am gael tystiolaeth na chyflawnwyd hynny wedi'r cyfan? Ai'r cymhelliant fyddai ennyn diddordeb o'r newydd yn yr hen broffwydoliaeth, a thanio'r Cymry i'w gwireddu, megis y taniwyd Cymru yn nyddiau Owain Glyndŵr? Yn yr unfed ganrif ar bymtheg, bu cryn gasglu ar yr hen broffwydoliaethau gan y rhai a obeithiai adfer y ffydd Gatholig. Ai hynny fyddai'r cymhelliant? Wrth ymchwilio ar y we i hanes Harri Tudur a Rhisiart III, deuthum ar draws gwefan *The Richard III Society*.

Erbyn heddiw, mae'r wefan honno'n un swmpus ac yn llawn gwybodaeth ddifyr am y prosiect a arweiniodd at ganfod esgyrn Rhisiart III yn 2012, profi DNA'r esgyrn hynny ac ail-greu penglog Rhisiart. Mae'r Gymdeithas hithau wedi cael sylw enfawr ledled y byd. Pan welais y wefan gyntaf, yn 2010/2011, roedd yn llawer mwy moel a sylfaenol ac yn dra gwahanol i'r hyn ydyw heddiw, ond roedd nod y Gymdeithas yn glir hyd yn oed bryd hynny. Roedd am wrthdroi'r portread poblogaidd o Rhisiart III fel dyn cefngrwm, cas ac uchelgeisiol a laddodd nifer o'r rhai a safai ar ei ffordd i'r orsedd, gan gynnwys y Tywysogion yn y Tŵr a'i wraig ei hun. Wrth ymwrthod â'r portread hwnnw roedd y Gymdeithas am herio'r darlun gwrthgyferbyniol o Harri Tudur fel 'dyn da'. Roedd yn honni bod hanes, neu'n fwy penodol 'sbin' y Tuduriaid, wedi gwneud cam â Rhisiart III. Yng ngeiriau ei haelodau, mae'n well gan y gymdeithas hon fod hanes yn seiliedig ar ffeithiau yn hytrach nag ar bropaganda.

We want to strip away the spin, the unfair innuendo, Tudor artistic shaping and the lazy acquiescence of later ages, and get at the truth.³⁷

Pan ddarllenais hyn, gwyddwn y byddai cymdeithas debyg i hon yn berffaith at bwrpas y nofel. Roedd ganddi gymhelliant i ganfod y 'gwir', ac roedd yn cynnig parhad anuniongyrchol a chyfoes yn y gwrthdaro rhwng Harri Tudur a Rhisiart III. Pe byddai cymdeithas o'r fath yn canfod y gwir am gyfnewid babi Margaret Beaufort yn 1457, ac nad oedd y dyn a esgynnodd i orsedd Lloegr yn sgil tranc Rhisiart III yn ŵr o dras

³⁶ Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2005), tt. 357-67.

³⁷ 'The Richard III Society', <<http://www.richardiii.net/aboutus.php>>; cyrchwyd Hydref 2010 a Mawrth 2016.

brenhinol, byddai hynny'n fêl ar ei bysedd. Yng ngeiriau ei noddwr presennol, Ei Uchelder Brenhinol, Richard, Dug Caerloyw:

... the purpose—and indeed the strength—of the Richard III Society derives from the belief that the truth is more powerful than lies; a faith that even after all these centuries the truth is important.³⁸

Roedd y pwys a roddai'r Gymdeithas ar wirionedd yn asio â'm hawydd innau i annog y darllenydd i ofyn y cwestiwn 'Beth yw'r gwirionedd, a phwy sy'n penderfynu arno?' Adleisir hyn ym myfyrdodau Martha wrth i'r nofel dynnu tua'i therfyn:

...roedd y ffin rhwng gwir a gau, fel y gwyddai Martha'n dda, yn gallu bod yn denau iawn hyd yn oed ar ôl ychydig wythnosau, heb sôn am bum canrif a rhagor. (V: t.168)

Roedd bodolaeth y Gymdeithas honno yn boddio fy awch i fy hun i geisio cymylu'r ffin rhwng gwirionedd a ffuglen. Bron na ellid dweud bod geiriau Martha am freuder y ffin rhwng y gwir a'r gau yn adlewyrchu ethos y nofel!

1.9 Ar fy mhedwar

Soniais eisoes imi benderfynu y byddai'r gyfrinach yn cael ei chadw gan bedwar, ond roedd hynny, ynddo'i hun yn codi pedwar cwestiwn, yr ymdrinnir â hwy isod.

i. Sut nad oedd y pedwar wedi tynnu sylw atynt eu hunain cyn hyn?

Un o'r syniadau a gefais i ateb y cwestiwn cyntaf oedd y gallai'r pedwar fod yn rhan o sect gyfrin, ond eu bod wedi ffurfio brawdoliaeth gyfrin o fewn honno. Fy ngreddf oedd y Seiri Rhyddion, ond diystyrtais y rheini'n fuan oherwydd teimlwn eu bod yn rhy gyfarwydd a chyffredin ac na fyddai eu cynnwys yn y nofel yn ychwanegu dim newydd na gwahanol ati. Wrth ymchwilio i'r Seiri Rhyddion, deuthum ar draws Urdd y Wawr Euraidd a'r Rhosgroesiaid, ac roedd gan y naill urdd a'r llall agweddau a ymdebygai i ddefodau'r Seiri Rhyddion, yn enwedig o ran eu natur gyfrin.

³⁸ 'The Richard III Society', <<http://www.richardiii.net/aboutus.php>>; cyrchwyd Hydref 2010 a Mawrth 2016.

Cymdeithas a astudiaï'r ocwlt a metaffiseg oedd y Wawr Euraidd, a dderbyniai ferched yn ogystal â dynion. Yr oedd ei haelodau'n cynnwys, am gyfnod, lenorion megis Arthur Machen, Maud Gonne a W. B. Yeats. Câl ei haelodau llysenwau, er mwyn gwahanu'r hunaniaeth ysbrydol oddi wrth yr hunaniaeth ddaearol, ac roedd y llysenwau hynny yn cynrychioli rhyw wireb neu ddyhead uchelgeisiol, yn aml iawn, yn yr iaith Ladin. Llysenw W. B. Yeats, er enghraifft, oedd *Demon est Deus inversus*, 'Gwrthwyneb Duw yw'r diafol'. Cyfeiriant at ei gilydd fel *soror*, 'chwaer', neu *frater*, 'brawd'.³⁹

Yr oedd y Wawr Euraidd yn lled-seiliedig ar gymdeithas gyfrin arall, y Rhosgroesiaid. Mae gwreiddiau'r sect hon yn annelwig, gyda rhai yn olrhain ei tharddiad i ddechrau'r bymthegfed ganrif yn yr Almaen a chymeriad honedig o'r enw Christian Rosenkreuz. Bryd hynny, yn ôl y sôn, wyth aelod yn unig oedd gan y Gymdeithas hon, a phob un yn feddyg ac yn ddibriod. Byddai'n rhaid i'r wyth dyngu llw i ymgeleddu cleifion yn ddi-dâl, i gynnal brawdoliaeth gyfrin ac i ganfod rhywun yn ei le cyn iddo farw.

Gallwn weld posibiladau yn y ddwy sect, ond tra gellid honni bod y Rhosgroesiaid yn bod adeg geni Harri Tudur, nid felly'r Wawr Euraidd. Cymdeithas a flodeuai yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif oedd honno. Roedd y glorian felly'n pwyso'n drymach ar ochr y Rhosgroesiaid.

Tarddai enw'r gymdeithas yn uniongyrchol o'i dau brif symbol, rhosyn coch a chroes, ond roedd ganddi symbolau cyfrinachol hefyd a oedd, fel y Wawr Euraidd hithau, yn gysylltiedig â'r Cabbala Hermetig, sy'n ymwneud â natur dwyfoldeb. Rhwng hyn a'r symbolau, gallwn weld posibiladau cryf i ychwanegu at naws gyfrin y nofel. Nid yr un sect oedd y Rhosgroesiaid ym mhob man; yr oedd gan ardaloedd gwahanol arferion gwahanol. Gan wybod hyn, gwelais gyfle, maes o law, i uno arferion dwy gymdeithas, a chyflwynais gymeriadau yn y nofel a oedd yn arddel arferion Urdd y Wawr Euraidd o fedyddio eu haelodau â llysenwau.

“Pan oedden ni'n cael ein hurddo i'r Rhosgroesiaid, roedden ni'n cael enwau newydd. Yr un enwau â'r rhai oedd yn aelodau ymhell cyn ein hamser ni. Fydden ni byth yn cyfarch ein gilydd wrth ein henwau bedydd. Fi ydi'r Brawd CS, *Causa scientiae*, 'er mwyn gwybodaeth'; James Wright oedd TL, y 'golau yn

³⁹ 'Magical motto', <http://en.wikipedia.org/wiki/Magical_motto>; cyrchwyd Hydref 2010.

y tywyllwch'; y Brawd VLM, *Veritas lux mea*, oedd Blair Hamilton, 'y gwirionedd yw fy ngoleuni'..."

"... a Taid oedd *Vires veritas!*"

"Ie, dyna chi. Y Brawd VV, 'mewn gwirionedd mae grym'." (V: t. 142)

At hynny, yr oedd y Rhosgroesiaid, oherwydd y pwyslais a roddai'r frawdoliaeth wreiddiol ar feddygon ac ar seryddiaeth, yn gweddu i'r dim i gymeriad yr oeddwn eisoes wedi penderfynu y byddai ganddo ran allweddol yn y nofel, Lewys Caerllion. Hawdd dychymygu y gallai yntau fod yn aelod ohonyn nhw.

Brawdoliaeth o fewn y Rhosgroesiaid, felly, oedd yn gwarchod y gyfrinach. Ond ymhle? Roedd angen man cyfarfod ar y sect, rhyw fath o deml. Adeilad o ryw fath oedd gennyf mewn golwg yn wreiddiol, yn rhywle ym Maldwyn. Bu raid imi aros tan ddechrau 2012 cyn i'r teimlad annelwig hwn grisialu'n syniad.

ii. *Ymhle y byddai'r pedwar yn cyfarfod?*

Ar 20 Chwefror 2012, roeddwn yn gwyllo rhaglen deledu *Darn Bach o Hanes* ar S4C. Ar y rhaglen, roedd Dewi Prysor yn ymweld â Dinbych-y-pysgod ar drywydd cyfres o dwneli o'r Oesoedd Canol o dan y dref. Aeth i fferyllfa Boots, lle'r oedd drws yng nghefn y siop, a chawsom ein tywys ar hyd y twneli hynny i lawr at yr harbwr. Tynnodd sylw at blac y tu allan i'r siop sy'n honni bod Harri Tudur a Siaspar, ei ewythr, wedi dianc i Ffrainc drwy'r twneli hyn. Tybiwyd bod y twneli ar un adeg yn rhan o seleri adeilad a oedd yn eiddo i Thomas White (m.1482), marsiandŵr o'r dref, a gynorthwyodd Harri Tudur i ddianc o Gymru yn 14 oed ar ôl buddugoliaeth lluoedd Efrog ym mrwydr Tewkesbury yn 1471.

Pan welais y rhaglen hon, gwyddwn ar unwaith mai yn y twneli hynny y byddai'r frawdoliaeth yn cyfarfod. Yn y fan honno y cedwid y gyfrinach. Yr oedd y twneli'n ffaith, ac yn ychwanegiad perffaith at y rhannau gwir o'r nofel, ac o'u cyplysu â natur ddirgel a chyfrin y Rhosgroesiaid, roedd yma gyfle heb ei ail. Yr oedd y cysylltiad â Harri Tudur yn well fyth, ac at hynny roedd Dinbych-y-pysgod lai na deng milltir o Benfro.

iii. *Pwy fyddai'r pedwar aelod gwreiddiol?*

Ar wahân i Lewys Caerllion a Siasbar Tudur, nid oeddwn hyd yma wedi cael gweledigaeth ynghylch dau aelod arall y frawdoliaeth wreiddiol a gadwodd y gyfrinach am gyfnewid y babi ym Mhenfro. Bûm yn ystyried eu gwneud yn gymeriadau ffuglennol, ond roedd fy ngreddf yn dweud fel arall, yn enwedig gan mai cymeriadau o gig a gwaed oedd Lewys a Siasbar. Arweiniodd rhaglen Dewi Prysor fi at drydydd aelod, a Thomas White oedd hwnnw. Fel Siasbar Tudur, ni chafodd yntau fawr o ran yn y nofel, mwy na'i enwi i roi dilysrwydd i'r dweud ac i osod y nofel yn ei chyfnod. Nid felly'r pedwerydd aelod. Cafodd Robin bennod gyfan iddo'i hun.

Yr oeddwn wedi cyfarfod Robin Ddu o Fôn eisoes yn ystod fy ngwaith ymchwil ar Ddafydd Llwyd o Fathafarn a Harri Tudur, ond dim ond yn hwyr yn y dydd y daeth yn bedwerydd aelod a gafodd wybod am y gyfrinach yn 1457. Bardd a brudiwr oedd Robin Ddu ap Siencyn Bledrydd, a oedd yn cydoesi â Dafydd Llwyd o Fathafarn ac yn pledio achos y Tuduriaid. Yn ôl Enid Roberts,⁴⁰ yr oedd Robin Ddu wedi proffwydo wrth Syr William Gruffudd, Siambren Gwynedd, y byddai Iarll Ritsmwnd yn esgyn i orsedd Lloegr ryw ddydd. Pan fu farw'r Iarll ym mis Tachwedd 1456, carcharwyd Robin Ddu am ei gelwydd, ond mynnai Robin fod ei weddw fach ifanc yn feichiog, ac er mwyn cadarnhau hynny, anfonwyd ef i Benfro.

Anffodus iddyn nhw golli Iarll Ritsmwnd hefyd, bendith ar ei ben o, ond diolch byth ei fod o wedi hwpo'i wialen yn yr eneth fach oedd yn wraig iddo fo cyn darfod.

"Beth wyt ti'n ei feddwl rŵan, Wiliam ap Gruffydd, f'Arglwydd Siambren? Y?" gwaeddodd dros y lle. "Ha! Mi gollaist dy wennol, ond mi gafodd gyw. Mae 'na siawns am frenin o linach y Tuduriaid wedi'r cyfan. A phwy oedd wedi dweud hynna wrthot ti? Y?" (V: t.139)

Ystyr 'gwennol' yn y canu brud oedd Owain Tudur, yntau o Fôn, a briododd Catherine o Valois, gweddw Harri V. Pan ddienyddiwyd Owain Tudur yn Henffordd ar ôl brwydr Mortimer's Cross, y 'wennol' wedi hynny yw Edmwnd Tudur, ei fab. Pan fu farw Edmwnd, cymhwysid y llysenw i Harri Tudur, gan mai ef bellach oedd yn cario gobeithion y Cymry am wireddu'r hen broffwydoliaeth. Weithiau, cyfeirir ato hefyd fel

⁴⁰ Roberts, *Dafydd Llwyd o Fathafarn*, tt. 18-19.

‘cyw’r wennol’. Ar farwolaeth ei dad, etifeddodd Harri Tudur ei deitl, ac ef felly oedd yr Iarll Ritsmwnd a orseddwyd yn 1485. Yr oedd yr hen Robin Ddu yn llygad ei le.

iv. Sut y byddai’r gyfrinach yn cael ei throsglwyddo?

Gwyddwn fod ateb y cwestiwn hwn yn hollbwysig, oherwydd byddai’n allweddol i glymu rhannau cyfoes y nofel wrth y rhannau o’r gorffennol, ac fel nifer o’r cwestiynau eraill y bu’n rhaid imi ymgodymu â nhw, roedd sawl elfen yn codi’i phen: beth yw ffurf y gyfrinach, a sut mae hi’n cael ei throsglwyddo? Yn fy nodiadau o’r cyfnod hwn, mae darn byr sy’n dangos trywydd fy meddyliau:

Mae’r darn yn wrthrych. Pa ffurf sydd iddo?

- bach
- ddim yn glir beth ydyw
- pos i’w ddatrys i gyrraedd y gwrthrych ei hun?
- darn 1 yn ffitio darn 2, 3, 4?⁴¹

Yn y diwedd, penderfynais y byddai’r gyfrinach yn cael ei chadw ar femrwn mewn bocs a’r bocs hwnnw ynghudd yn y twneli. Pan ysgrifennais y bennod hon i ddechrau, roedd angen darn penodol gan bob aelod i agor y bocs. Euthum cyn belled â gwneud braslun o’r bocs i wneud yn siŵr y byddai’r dull hwn yn gweithio. Bûm yn pendroni cymaint am y bocs, nes imi gael breuddwyd amdano un noson ym mis Medi 2012. Erbyn hynny, am fod y cwestiynau ynglŷn â’r plot yn tueddu i ddatrys eu hunain yn yr oriau mân, roeddwn wedi dechrau cadw un o’r llyfrau nodiadau wrth erchwyn y gwely. Fore drannoeth, roedd yr atgof am y freuddwyd a gefais am y bocs mor glir, nes imi allu ei chofnodi’n fanwl. Yn union fel y nofel y gweithiwn arni, roedd elfen o dwyll yn y freuddwyd hithau hefyd. O ran y bocs a gadwai’r gyfrinach, bu’n rhaid ailfeddwl y cwbl yn y diwedd am resymau ymarferol, oherwydd roedd angen i’r Rhosgroesiaid allu agor y bocs heb gymorth unrhyw aelod arall o’r frawdoliaeth.

Wrth imi ysgrifennu’r nofel, daeth yn glir imi na fyddai’r gyfrinach ei hun yn cael ei throsglwyddo. Gwarchod y bocs a’r memrwn fyddai’r frawdoliaeth heb wybod ei gynnwys.

⁴¹ Nodiadau personol yr awdur.

“Pan ges i fy newis yn un o’r pedwar, roedd yn rhaid imi dyngu llw na faswn i’n darllen y memrwn. Roedd y lleill wedi tyngu’r un llw hefyd.” (V: t.133)

Byddai aelodau newydd yn ymuno â’r frawdoliaeth, ac fel y Seiri Rhyddion, byddai’n rhaid iddynt gael eu cyflwyno gan aelod arall. Tan fis Medi 2012, un gyfrinach yr oeddwn wedi bwriadu ei chynnwys yn y nofel, ond roedd y newydd a dorrodd bryd hynny am esgyrn brenhinol mewn maes parcio yn gyfle rhy dda i’w golli.

1.10 Yn ôl ar y ffordd

Ers y bennod gyntaf honno a ysgrifennais am y bwgan brain, ac yn ystod y gwaith ymchwil i’r frawdoliaeth a’r broses o geisio crisialu’r plot, yr oeddwn hefyd wedi ysgrifennu nifer o benodau eraill. Tueddwn i ysgrifennu’r golygfeydd a oedd yn fy mhen ar y pryd, yn hytrach na dilyn trefn gronolegol y nofel. Bellach, roedd cymeriadau eraill wedi ymuno â Martha, yn enwedig ei ffrindiau amlycaf, Heulwen, Lowri ac Emma. Gan mai ditectif anfwriadol oedd Martha, yr oedd yn bwysig i mi fod ei bywyd yn un gweddol gyffredin. Roedd ei dangos yng nghwmni ei ffrindiau yn gyfle i greu cymeriad crwn, ac roedd hefyd yn gyfle i gyflwyno amrywiaeth yng nghywair y nofel, drwy lunio golygfeydd ysgafnach na’r rhelyw. Cefais bleser mawr yn llunio’r parti ieir ym mhennod 5, y briodas ym mhennod 8 a’r swpera yn y Wern ym mhennod 12. Roedd ysgrifennu penodau o’r fath yn rhoi hoe i minnau o’r gwaith ‘trwm’ a oedd yn gysylltiedig â’r plot, er nad oedd hwnnw fyth ymhell iawn ychwaith gan fod yntau yn codi’i ben hyd yn oed yn y rhannau ysgafnaf. Maes o law, daeth Heulwen, a’i gŵr, Eifion, trigolion y Wern, yn allweddol yn is-blot y stori.

Er fy mod yn ôl ar y ffordd, nid oedd honno heb ei rhwystrau. Cymerais ddau gyfnod o seibiant o’r prosiect, y naill am naw mis yn 2011 oherwydd galwadau teuluol a’r llall am bedwar mis rhwng Hydref 2013 a Chwefror 2014 oherwydd fy mod yn newid swydd. Lle’r oeddwn gynt yn gweithio tridiau’r wythnos ac yn treulio’r ddeuddydd arall ar y prosiect, roeddwn bellach yn gyflogedig yn llawn-amser, ac roedd yr amser i weithio ar y prosiect felly’n brinnach.

Os oedd cyfnodau pan oedd cwpan y dychymyg yn llawn, bu cyfnodau hefyd pan fyddai’n wag, a’r ysgrifennu’n fwrn. Cyngor fy nghyfarwyddwr ymchwil ar yr adegau

hyn oedd parhau i ysgrifennu, pa un a oeddwn yn gweithio ar y nofel neu'n creu gweithiau eraill. Drwy'r prosiect ar ei hyd yr oeddwn hefyd yn llunio cerddi amrywiol, rhai ar gyfer y *Talwrn* ar Radio Cymru, eraill ar gyfer talyrnau lleol, achlysuron teuluol, ac eisteddfodau. Roedd hynny yn hogi'r arfau cynildeb. Ond gan fod y grefft o ysgrifennu barddoniaeth yn wahanol i'r grefft o ysgrifennu rhyddiaith, teimlwn fy mod, wrth farddoni, yn cau'r drôr rhyddiaith ac yn agor drôr creadigrwydd o fath arall, ac roedd hynny'n amharu ar fy nhrywydd ymenyddol rhyddieithol. Dyma ailgydio, felly, mewn ysgrifennu ambell stori fer. Heblaw cynnal yr ysgrifennu, bu'r storïau hynny'n gyfrwng i feithrin crefft ac arbrofi â hiwmor, deialog, tro yn y gynffon, a thwyll, a chan fod iddynt gysylltiad agos â'r prosiect, fe'u cynhwysir yn yr Atodiad i'r traethawd hwn.

O ran arbrofi, bu i'r nofelau a ddarllenwn yn fy amser hamdden ran bwysig yn hynny o beth. Wrth i'r prosiect fynd rhagddo, deuthum i sylweddoli bod newid cynnil yn y ffordd yr oeddwn yn gwerthfawrogi'r nofelau hynny; roeddwn bellach yn sylwi fwyfwy ar eu crefft, ac roeddwn yn fwy ymwybodol ohonof fi fy hun wrth ddarllen, a'r effaith a gâi'r nofelau arnaf. Er enghraifft, wrth gymharu storïau arswyd ar gyfer y llofruddiaethau y bwriadwn eu cynnwys yn *Veritas*, deallais, wrth ddarllen nofel fer Stephen King, '1922', a gyhoeddwyd yn *Full Dark, No Stars* (2010), fod pentyrru disgrifiadau gwaedlyd ac erchyll, yn hytrach nag ennyn ofn a thensiwn, yn fy ngwneud yn imiwn iddynt. Ffieidd-dra a diflastod a deimlwn. I'r gwrthwyneb, yn stori fer enwog Edgar Allan Poe, 'Tell-Tale Heart'(1843), er bod yma lofruddiaeth, y tensiwn sy'n cael y sylw blaenaf, ac mae hwnnw'n cynyddu'n feistrolgar wrth i'r stori fynd rhagddi. Wrth ddarllen nofel James Herbert, *The Secret of Crickley Hall* (2006), roedd fy nghalon yn curo pymtheg y dwsin. Roeddwn yn byw'r ofn a deimlai ei chymeriadau, ac roedd yr ofn hwnnw'n gafael fel nad oedd modd rhoi'r nofel o'r neilltu. Bron fel y bydd arlunydd yn creu brasluniau bychain o'r elfennau unigol mewn darlun mwy o faint, arbrofais innau â thensiwn yn rhai o'm storïau byrion, a cheisiais ei adlewyrchu yn *Veritas*.

1.11 Cyfriniaeth

Teimlwn yn gryf fod angen defnyddio symbolau cyfrin yn y nofel i gyd-fynd â'r penderfyniad mai brawdoliaeth gyfrin a fyddai'n gwarchod y gyfrinach. Yr hyn a oedd

gennyf mewn golwg ar y pryd oedd techneg debyg i'r posau a gynhwysodd Dan Brown a Daniel Davies (*Tair Rheol Anhrefn*, 2011) yn eu nofelau hwy. Byddai'n dechneg gyfleus i dywys Martha tuag at y gwirionedd, a'r darllenydd at y datgeliadau ar ddiwedd y nofel.

Yn ogystal â symbolau sy'n gysylltiedig â'r Rhosgroesiaid eu hunain, megis Llechen Emrallt Hermes, yr esbonnir rywfaint ar ei hystyr gan Seimon yn y nofel,⁴² ymchwiliats hefyd i sgwariau hud, a phosau mewn blychau a oedd yn defnyddio geiriau yn ogystal â rhifau. A brawdoliaeth o bedwar yn y pair gennyf ers misoedd erbyn hynny, cyffrous iawn oedd darllen mewn cyfrol ddadlennol gan Brenda Mallon, *The Mystic Symbols*,⁴³ fod pedwar yn rhif cyfriniol yn nhraddodiad y Rhosgroesiaid, a'i fod yn gysylltiedig â phŵer y pedair elfen, daear, aer, dŵr, a tân. Bron na theimlwn erbyn hynny fod rhyw ysbryd rhyfedd ar waith yn fy nhywys drwy ddrysfa'r nofel hon! Yn sicr, yr oeddwn innau, fel Martha, ar ryw drywydd yr oedd yn rhaid cyrraedd ei ben draw, doed a ddêl.

Yr oeddwn yn awyddus i gyflwyno symbolau cyfrin a fyddai'n taro deuddeg mewn nofel Gymraeg a Chymreig. Wrth ymchwilio i lythrennau rwnig (*runes*), cofiais am yr arysgrifau Ogam yn Eglwys Nanhyfer, ond er ymchwilio i'r rheini hefyd, nid oedd dim yn tycio. Ychydig flynyddoedd ynghynt, roeddwn wedi bod ar un o deithiau blynyddol Ysgol Farddol Caerfyrddin, y tro hwnnw ar drywydd Iolo Morganwg, ac wrth ymhél fel hyn â llythrennau a symbolau, dyma gofio am wyddor ffug Iolo a Choelbren y Beirdd. Ar ryw ystyr, yr oeddwn wedi troi cylch cyflawn yn hyn o beth, oherwydd roeddwn eisoes wedi ystyried, a diystyru, nod cyfrin Iolo Morganwg, arwyddair yr Orsedd, yng nghyd-destun un o'r llofruddiaethau na ddaeth i fod. Ond erbyn hyn, a minnau'n chwilio am naws Gymreig i'r symbolau, gallwn weld y byddai gwyddor Iolo Morganwg yn gweddu'n berffaith. Heblaw hynny, yr oedd cyfeirio at Iolo, yr arch-dwyllwr, yn fy moddhau'n fawr mewn nofel o dwyll a dirgelwch.

Ymddangosodd y cyfeiriadau hynny at wyddor Iolo Morganwg ar ymylon llythyr yr oedd taid Martha wedi'i adael iddi ar ei farwolaeth. Cyfeiriodd hynny Martha yn ddiweddarach at y nod cyfrin ar gadair farddol deuluol:

⁴² *Veritas*, tt. 129-30.

⁴³ Brenda Mallon, *The Mystic Symbols* (London: Godsfield Press, 2007), t. 259.

Mwythodd fraich sidanaidd y gadair dderw yn y gegin, a chicio'i hun nad oedd wedi gweld pethau'n glir cyn hyn. Byseddodd y llythrennau nadd yn y derw golau yn dyner. Trawsfynydd 1895. Ar frig cefn y gadair, ynghanol y llawryf deiliog, roedd tair llinell ar siâp triogl. Cariad, cyfiawnder a gwirionedd. Y Nod Cyfrin. Cyffrôdd Martha'n lân. (V: t.94)

Yn hyn o beth, roedd fy mhrofiadau dipyn yn nes adref. Fel Martha, a'r llythyrau a ysgrifennai ei thaid a hithau at ei gilydd mewn cod, yr oeddwn innau'n arfer gwneud yr un peth, nid gyda'm taid ond gyda'm ffrindiau, gan efelychu, yn ddiarwybod imi ar y pryd, ddylanwad nofelau Enid Blyton arnaf. Am gyfnod, yn enwedig yn y 1970au, roedd *Antur*, cylchgrawn yr Ysgol Sul i blant, yn cyrraedd ein tŷ ni bob mis, ac roedd ynddo lythyrau lle'r oedd lluniau yn dynodi geiriau. I ddeall y llythyr, rhaid oedd dehongli'r lluniau. Dyna'r dasg a wynebai'r dyn yn y maes awyr ym mhennod 16, a gafodd neges a gynhwysai 'llun crochan, cylch coch, cragen fylchog, symbol y blaned Mercher a lleuad gornog'.⁴⁴ Rhaid cyrraedd pennod 27 cyn y datgelir ystyr y neges.

Eto, fel Martha, ganol y 1990au gadawyd eitemau i minnau mewn ewyllys. Eitemau gan hen fodryb oedd y rhain, ac yn eu plith roedd cadair farddol ei thad, bocs gwnio a desg. Gallwn eu gweld o'm blaen wrth ysgrifennu amdanynt. Gallwn fwytho braich y gadair yn union fel Martha, a'i thynnu'n ddarnau – yn fy meddwl – fel Martha. Roedd peiriant sbŵl i sbŵl Grundig yn fy nghartref hefyd, ac fel Martha, roedd gennyf frith gof o'm tad yn ei ddefnyddio i'm recordio'n adrodd. Teimlwn fod defnyddio profiadau personol fel hyn yn rhoi dilysrwydd i'r stori, ac yn gwneud Martha'n llawnach person. Yn ôl Julia Bell:

You need to have empathy for your characters, so in some way they have to be like you in order for you to identify with them.⁴⁵

Ond, er i Martha gael rhai o'm profiadau i, nid ymgawdoliad ohonof i mohoni!

⁴⁴ *Veritas*, t. 58.

⁴⁵ Julia Bell, 'Where You're Coming From', yn Bell a Magrs (gol.), *The Creative Writing Coursebook*, t. 91.

1.12 Rhwng cwsg ac effro

I mi'n bersonol, rhan ryfeddaf y broses greadigol oedd y modd y deuai'n rhan o'm bywyd beunyddiol pan nad oeddwn yn gweithio arni. Lawer gwaith y cefais fy hun yn gyrru i rywle, ac yn methu'n lân a chofio sut y cyrhaeddais yno, na pha leoedd yr euthum drwyddyn nhw ar fy nhaith, am fy mod yn meddwl am y plot efallai neu'n treialu deialog benodol yn uchel yn y car, neu'n chwarae â geiriau yn fy mhen. Bob cyfle a gawn, er mwyn cael llonydd a thawelwch, treuliwn gyfnodau estynedig yn fy hen gartref yn ardal Llanwrin. Yno, pan fyddai'r peiriant creadigol ar stop, byddwn yn mynd â Rwdlan, yr ast fach, am dro i'r cefn gwlad o'm cwmpas, ac roedd rhythm y cerdded yn aml iawn, ond nid bob tro, yn llwyddo i lacio'r cogiau. Roedd rhan o'm taith yn dirwyn drwy goedwig drwchus, ac unig, ac yn ei phen draw, roedd darn o raff hir yn crogi wrth gangen. Gweddillion hen siglen oedd y rhaff, ac roedd yno ers blynyddoedd. Doedd gwybod ei bod yno'n menu dim ar yr ias y byddwn yn ei chael bob tro, yr un ias ag a deimla Martha ym mhennod 21, pan ddaw wyneb yn wyneb â'r union raff honno. Yn achos Martha, roedd y rhaff wedi'i chlymu am gorff cath.

O'i blaen, roedd rhaff drwchus ac un pen iddi wedi'i lapio o amgylch cangen. Gwegiai honno dan y pwysau. Roedd pen arall y rhaff wedi'i glymu'n dynn am bawennau ôl cath. Llusgai blaen ei chlustiau ar y llystyfiant a'r deiliach gwlyb. Roedd hollt o'i choesau ôl hyd at ei gwddf, ac roedd ei hymysgaroedd yn hongian. Teimlodd Martha'r croen gŵydd yn cripiant drwy'i chorff a'i hanadl yn gras a bratiog. (V: tt. 71-72)

Nid yw'r meddwl a'r dychymyg, wrth gwrs, yn cael eu gadael yn y stydi gyda'r gliniadur a'r llyfrau a'r papur. Yn hynotach fyth, roedden nhw'n dal i weithio pan oeddwn yn cysgu.

Soniais eisoes yn adran 1.9 (iv) imi gael breuddwyd a oedd â chysylltiad uniongyrchol â bocs a oedd yn rhan o'r plot. Ddechrau Mawrth 2014, roeddwn wrthi'n ysgrifennu'r bennod olaf, er bod gweddill y nofel ymhell o fod wedi'i chwblhau. Fel y soniais eisoes,⁴⁶ roeddwn yn gwybod ar y dechrau'n deg, fwy neu lai, sut y byddai'r nofel yn gorffen. Margaret oedd y broblem ar y pryd. Gwyddwn y byddai'n synhwyro rhyw anesmwythyd, rhyw fwllch rhyngddi hi a'i babi, er na wyddai pam. Sut y gallwn i gyfleu'r teimladau hynny? Mae'n rhaid fy mod wedi pendroni cymaint dros y cwestiwn

⁴⁶ Adran 1.3.

hwn nes iddo gyrraedd fy isymwybod, oherwydd rywbyrd yn y cyfnod hwnnw breuddwydiais fy mod yn ceisio cydio mewn rhywbeth – nid wyf yn cofio beth yn union – a bod y peth hwnnw'n diflannu bob cynnig cyn gynted ag y byddwn yn rhoi fy nwylo amdano. Daeth elfennau o'r freuddwyd honno yn freuddwyd i Margaret hefyd:

Doedd dim i wahaniaethu rhyngddynt, ond gwyddai Margaret yn iawn pa un yr oedd arni hi ei eisiau. Estynnodd amdano a'i godi'n dyner yn ei breichiau. Wrth iddi ei gofleidio, agorodd ei lygaid, a gwelodd Margaret y dieithrwch ynddynt. Dyna ryfedd iddi godi'r un anghywir, a hithau mor siŵr. Rhoddodd ef yn ôl ar y llawr, er mwyn codi'r llall, ond cyn gynted ag y rhoddodd ei dwylo amdano, diflannodd. Gwelodd ef eto, ychydig yn nes draw, a llamodd ei chalon. Gwnaeth yn siŵr y tro hwn ei bod yn gafael ynddo'n ofalus. Gwelodd ei dwy law yn fawr, fawr yn symud yn union yr un pryd yn araf ofalus, i lawr ac i lawr ac o dan y bwndel gwyn, dim ond i afael mewn dim oll. Doedd hi ddim yn deall. Roedd yr un yr oedd arni hi ei eisiau, ei angen, yno, ac eto fedrai hi ddim cyffwrdd ag o. Ceisiodd eto, ac eto ac eto. (V: t.173)

1.13 *Des causes des monstres*

Tan wanwyn 2014, roeddwn yn gweithio ar y dybiaeth mai plentyn marwanedig a gafodd Margaret Beaufort. Gwylio pumed bennod y gyfres ddrama *Musketeers* ar BBC1 yr oeddwn, ac yn y bennod honno roedd gan deulu brenhinol fab, a hwnnw wedi'i anffurfio.⁴⁷ Oherwydd hynny gwrthodai'r teulu brenhinol ei gydnabod, a gorfodwyd iddo dreulio'i fywyd o'r golwg mewn bwthyn ymhell o'r llys brenhinol. Syrthiodd mewn cariad â merch ifanc, a magu'r hyder un diwrnod, ar ôl cryn berswâd, i fynd am dro i bentref cyfagos gyda hi. Pan welodd y trigolion ef, ymosodwyd arno, a'i ladd, am eu bod yn meddwl ei fod yn ddiabol. Cyhuddwyd y ferch ifanc hithau o gael cyfathrach â'r diafol.

Holais fy hun tybed a oedd modd dychmygu bod y babi a anwyd ym Mhenfro wedi'i anffurfio mewn rhyw fodd. A fyddai hynny'n rheswm dilys dros gyfnewid y babi? Byddai'n sicr yn gyfle i ychwanegu at naws iasoer rhannau o'r nofel. I gyfiawnhau hyn, ac i fodloni'r nod a osodais i mi fy hun o sicrhau, hyd y gellid, fod yr agweddau hanesyddol yn taro deuddeg, byddai'n rhaid i'r digwyddiad fod yn briodol o ddau

⁴⁷ 'The Exiles', *The Musketeers*, BBC1, cyfres 1, pennod 6, darlledwyd 2 Mawrth 2014.

safbwynt: y posibilrwydd y byddai'r babi wedi'i anffurfio, ac agweddau'r cyfnod tuag at blentyn o'r fath.

Wrth ystyried hyn, cofiais imi ddarllen hanesyn bach ar y we yn ystod fy ngwaith ymchwil cynnar ar linach Harri Tudur, a'i ddisytyru ar y pryd. Dyma fynd yn ôl i ymchwilio ymhellach. Er y cyfreithlonwyd y berthynas yn ddiweddarach, nid oes cofnod bod Catherine o Valois, gweddw ifanc Harri V, wedi priodi Owain Tudur. Mae awgrym cryf iddi gael perthynas ag Edmwnd Beaufort, cefnder ei diweddar ŵr ac mae rhai yn honni y gallai fod yn cario plentyn Edmwnd Beaufort pan briododd ag Owain.⁴⁸ Roedd Edmwnd Beaufort yn ewythr i Margaret Beaufort. Os gwir yr honiad, ni fyddai Edmwnd, ail fab Catherine o Valois, a thad Harri Tudur, yn haniu o Duduriaid Penmynydd, Môn. Yn hytrach, un o deulu'r Beaufort fyddai, a aeth rhagddo i briodi'i gyfnither, Margaret Beaufort. Canfu astudiaeth a wnaed yn Bradford rhwng 2007 a 2011 fod babanod a enir i gefnder a chyfnither ddwywaith yn fwy tebygol o gael eu geni â nam corfforol.⁴⁹ Yr oedd hanes fel petai'n rhoi grym i'm dychymyg ynghylch cyflwr y babi ym Mhenfro.

Yr Oesoedd Canol ym Mharis yw cefndir nofel Victor Hugo, *Notre-Dame de Paris* (1831), sy'n fwy cyfarwydd yn Saesneg fel *The Hunchback of Notre Dame*, ac fel y tywysog gwrthodedig yn y rhaglen deledu y cyfeiriwyd ati uchod, y mae Quasimodo yntau yn dioddef gwawd a sen, a phur anaml y mae'n mentro allan. Ond a oedd tystiolaeth dros agweddau o'r fath?

Yn ôl D. B. Wilson, ymddangosodd nifer o bamffledi rhwng 1560 a 1580 yn datgan bod angenfilod yn rhybudd yn erbyn pechod unigol neu dorfol.⁵⁰ Roedd llawer o gredoau'r cyfnod yn hyn o beth yn seiliedig ar Arwyddion y Diwedd yn ail lyfr Esdras yn yr Apocryffa. Un o'r arwyddion hynny yw y byddai 'gwragedd misglwyfus yn esgor ar angenfilod'.⁵¹ Yn 1573, cyhoeddwyd *Des Monstres et prodigies* gan Ambroise Paré,

⁴⁸ John Ashdown-Hill, *Royal Marriage Secrets*, (Stroud: The History Press, 2013), tt. 70-3.

⁴⁹ Sarah Bosley, 'Marriage between first cousins doubles risk of birth defects, say researchers', *The Guardian*, 4 Gorffennaf 2013, <<https://www.theguardian.com/science/2013/jul/04/marriage-first-cousins-birth-defects>>; cyrchwyd Mai 2014.

⁵⁰ D. B. Wilson, *Signs and Portents: Monstrous Births from the Middle Ages to the Enlightenment* (London: Routledge 1993), t. 36.

⁵¹ *Y Beibl Cymraeg Newydd, yn cynnwys yr Apocryffa* (Swindon: Cymdeithas y Beibl, 1988), II Esdras, pennod 5, adnod 8.

llawfeddyg milwrol o Ffrainc. Dyma un o'r cyfrolau cyntaf i geisio esbonio namau corfforol ar fabanod. Ei ddiffiniad o 'angenfilod', yn ôl ei ragair yw:

Monsters are things that appear outside the course of Nature (and are usually signs of some forthcoming misfortune), such as a child who is born with one arm, another who will have two heads, and additional members over and above the ordinary.⁵²

Adlewyrchir y gred hon fod rhywbeth o'i le ar y byd neu fod rhywbeth brawychus yn mynd i ddigwydd pan fydd mam yn rhoi genedigaeth i blentyn â nam corfforol yn nheimpladau Lewys. Teimla nad oes ganddo ddewis ond cael gwared ar y babi, oherwydd bod y canlyniadau o beidio â gwneud hynny'n debygol o fod yn drychinebus.

Cipio'r plentyn. Dyna'r unig ffordd o achub eneidiau'r ddau, ac achub y dref hefyd rhag difodiant. Doedd neb eisiau gweld pla arall. (V: t.69)

Ym mhennod gyntaf *Des Monstres et prodigies*, 'On the causes of monsters', mae Paré yn rhestru 13 'rheswm' dros namau corfforol, sy'n amrywio o ddieter Duw i'r dychymyg, ac o'r ffordd y mae'r fam yn eistedd i gyfrwystra cardotwyr annuwiol. Y trydydd rheswm ar ddeg yw gwaith y diafol.⁵³ Adlewyrchir hynny hefyd ym meddyliau Lewys:

Gwaith Satan oedd hwn. Plentyn Satan oedd y babi. Felly, i'w genhedlu, rhaid bod ei fam wedi cyplu efo'r diafol ei hun. (V: t.68)

Beth fyddai canlyniad credoau o'r fath?

In late mediaeval England, accusations of witchcraft and magic evil-doing were part and parcel of the intense rivalries between the great noble houses. Lady Alice Kyteler was tried in 1324 by both ecclesiastical and civil authorities for compact with the devil...⁵⁴

Achos y Fonesig Kyteler oedd yr achos cyntaf ar glawr lle'r honnwyd bod 'gwrach' wedi cael rhyw gyda diafol, ac fe'i dedfrydwyd i'w llosgi ar y stanc. Er na wnaeth yr

⁵² Ambroise Paré, *On Monsters and Marvels*, cyfieithwyd gan Janis L. Pallister (Chicago; London: University of Chicago Press, 1982), t. 3.

⁵³ *Ibid.*, tt. 3-4.

⁵⁴ Bengt Ankarloo, Stuart Clark a William Monter, *The Period of the Witch Trials* (London: Athlone Press, 2002), tt. 78.

achos godi'r wlad yn erbyn gwrachod, am flynyddoedd lawer wedi hynny roedd sibrydion maleisus a honiadau am gyfathrach gyda'r diafol yn codi'u pennau'n rheolaidd yn erbyn gwrachod honedig eraill.⁵⁵ Roedd merched yn cael eu hystyried yn llawer mwy tebygol na dynion o gael eu perswadio i wneud gwaith y diafol, ond er bod llosgi 'gwrachod' ar y stanc yn gyffredin iawn yn Ewrop yn yr Oesoedd Canol, pur anaml y byddai hynny'n digwydd yma; crogi oedd y gosb arferol ym Mhrydain.⁵⁶

...whilst in Europe, between the fourteenth and seventeenth centuries, many thousands, if not millions of so-called witches were tortured and burned, in England there were at most five hundred such executions...and these by the marginally more humane method of hanging.⁵⁷

Gwelwn hynny ym meddyliau Lewys ym mhennod 20, wrth iddo gyfiawnhau cipio'r babi:

Pe bai o'n rhoi'r babi yn ei ôl, a'r hanes yn dod yn hysbys, byddai anhrefn llwyr yn y dref, a byddai hi'n cael ei chrogi. Roedd stori wedi cyrraedd ar y llongau o Ffrainc bod degau ar ddegau o wrachod yn cael eu llosgi ar y stanc. Hanner cyfle a byddai'r bobol yn ei llosgi hi a'i babi yn yr un modd... (V: tt.68-9)

1.14 Presennol y nofel

A minnau wedi canolbwyntio cymaint ar yr agweddau hanesyddol, sylweddolais ddechrau 2013 nad oeddwn wedi meddwl yn iawn am amser y nofel ar ei hyd, er fy mod eisoes wedi ysgrifennu nifer o benodau erbyn hynny. Roedd yr ymchwil wedi'i gwneud, a'r plot yn siapio, ond nid oedd yn glir yn fy mhen ar y pryd, wrth sôn am bresennol y nofel, pryd oedd y presennol hwnnw. Pa flwyddyn oedd hi pan gyfarfu Martha â Josh? Pryd y priododd Emma? Pryd y digwyddodd y llofruddiaethau? Doedd gen i ddim syniad.

Wrth gael gwared â chalendarau'r hen flwyddyn, dyma gael fflach o ysbrydoliaeth. Yr oedd 2012 yn flwyddyn arwyddocaol ar sawl ystyr.

⁵⁵ Luke Mastin, 'Famous Witches - Alice Kyteler (1280 - c.1325)', <http://www.witchcraftandwitches.com/witches_kyteler.html>; cyrchwyd Mawrth 2014.

⁵⁶ Allan Todd, *Crime, Punishment & Protest* (Cambridge: Cambridge University Press, 2002), t. 70.

⁵⁷ Anthony Harris, *Witch-hunt: The Great Essex Witch Scare of 1582* (Romford: Ian Henry Publications, 2001), tt. 8-9.

i. Jiwbilî

Ym mis Mehefin 2012, roedd y Frenhines yn dathlu 60 mlynedd ar orsedd Prydain. Yng nghyd-destun y nofel gallwn weld posibiliadau i gynnwys cyfeiriadau at y Jiwbilî, yn enwedig gan fod y nofel yn ymwneud â chyfrinach frenhinol. Mae'r Frenhines Elizabeth II yn ddisgynnydd uniongyrchol i Harri Tudur, drwy ei ferch Margaret. Yn fuan ar ôl y dathliadau, aethom ni, fel teulu, am dro ar hyd Llwybr Mawddach, yr hen lein drên o Ddolgellau i'r Bermo. Mae'r llwybr yn dirwyn heibio i dafarn enwog George III, ac roedd ei bondo, bryd hynny, yn dal i wegian gan faneri Jac yr Undeb. Cofiais am y daith gerdded honno ac fe'i cynhwysais yn y nofel (pennod 13) er mwyn dod i adnabod Martha yn well ac i gael awgrym o wir ddaliadau Josh, a daliadau gwrthgyferbyniol Martha.

ii. Ysgerbydau

Ym mis Medi 2012, gwta dri mis ar ôl y Jiwbilî, ac ychydig dros bum canrif ers Brwydr Bosworth ym mis Awst 1485, pan gipiodd Harri Tudur goron Lloegr, cyhoeddwyd i'r byd fod esgyrn wedi'u canfod o dan faes parcio yng Nghaerlŷr, ar safle mynachlog Urdd y Brodyr Llwydion. Roedd posibilrwydd cryf mai esgyrn Rhisiart III oedden nhw, a chadarnhawyd hynny ar 4 Chwefror 2013. Y gymdeithas a fu'n gymaint rhan o'r holl broses oedd Cymdeithas Rhisiart III, yr union gymdeithas y penderfynais, yn ôl yn 2010, y byddai'n rhan o'r nofel. Doedd dim awgrym bryd hynny y byddai'r gymdeithas hon yn dod mor adnabyddus, nac awgrym ychwaith am ei hymchwiliadau. Allwn i, yn bersonol, ddim credu 'nghlustiau! Nid dim ond defnyddio hanes yn y nofel yr oeddwn: roedd hanes fel petai'n cydweithio â mi i'w chreu!

Effeithiodd y newydd hwn yn sylweddol ar ddatblygiad y nofel. Teimlwn, efallai oherwydd y rhamanteiddio a fu yn y wasg a'r cyfryngau, fod darganfod esgyrn Rhisiart III o dan lain parcio yn dwyn y llythren 'R', a hynny gyda braidd dim gwaith cloddio, ychydig bach yn rhy gyfleus. Ond yn y teimlad hwnnw o gyfleustra, roedd cnewyllyn syniad arall ar gyfer y nofel, sef bod dwy chyfrinach. Y naill wrth gwrs oedd yr un a fwriadwyd gennyf eisoes, sef cyfnewid y babi ym Mhenfro, ond y llall oedd map, un gwerthfawr iawn, a oedd yn dangos union leoliad esgyrn Rhisiart III.

Yn y map y byddai diddordeb Cymdeithas Rhisiart III, am na wyddent am y gyfrinach arall. Tybed, felly, beth oedd mor bwysig am yr ail gyfrinach? Cofiais fod Robin Ddu yng Nghastell Penfro pan anwyd Harri Tudur ym mis Ionawr 1457. Yn ôl Robin, nid Harri oedd yr enw a roddwyd ar y baban newydd yn y castell, ond Owain. Ei fam, yn ddiweddarach, a barodd ei newid i Harri.⁵⁸ Gallwn weld gwead y nofel yn tynhau. Pwy oedd y cyw cog a wnaeth ei nyth yng nghôl Margaret Beaufort? Erbyn hyn, roeddwn yn ôl lle dechreuais, gydag Owain Glyndŵr, a chan wybod na wyddai neb i sicrwydd faint o blant a oedd ganddo, creais wyres ifanc iddo ym Mhenfro.

Nid ymysg gwehilion cymdeithas y dylai hi fod, a phe byddai'r rhod wedi troi o blaid ei theulu fe allai hon fod wedi cael ei llys ei hun a'i merched siambr ei hun, wedi cael y bwyd a'r gwin gorau, a'i dilladu â sidan a brodwaith a les. Roedd y stori'n dew o hyd am ymgyrch ei thad-cu, a phe byddai hwnnw wedi llwyddo, a phrifysgolion wedi'u codi yng Nghymru, fe allai fod wedi cael addysg hyd yn oed, pwy a wŷr. (V: t.77)

Ei phlentyn hi a orseddwyd yn lle Harri Tudur.

iii. *Colli April*

Fis yn ddiweddarach, ym mis Hydref 2012, torrodd newydd brawychus a siglodd seiliau Machynlleth ac ysgwyd cymunedau ymhell y tu hwnt i Gymru. Dyma'r adeg y diflannodd merch fach bump oed, April Jones, o'i chartref ar ystâd Bryn y Gog, Machynlleth. Ychydig ddyddiau wedyn, cyhoeddwyd fod Mark Bridger wedi'i gyhuddo o'i llofruddiaeth, ac yn ddiweddarach cafwyd ef yn euog a'i ddedfrydu i garchar am oes er na chanfuwyd corff erioed. Yr oedd hyn oll ar fy meddwl, a minnau â chysylltiad mor agos â'r ardal, a chafodd ddylanwad ar y nofel mewn dwy ffordd uniongyrchol.

Yn gyntaf deuthum i sylweddoli nad pethau sy'n digwydd mewn dinasoedd mawrion yn unig yw anfadwaith fel hyn. Fel y tystiwyd mor ddychrynlyd, fe allai ddigwydd yn unrhyw le, ar unrhyw bryd. Mewn nofel fel *Veritas* ac ynddi nifer o lofruddiaethau roedd sylweddoli hynny'n bwysig, ac yn rhoi dilysrwydd i'r digwyddiadau. Wrth anelu at ddarbwylllo'r darlennydd, roedd dealltwriaeth fod y pethau hyn yn digwydd ac yn

⁵⁸ Roberts, *Dafydd Llwyd o Fathafarn*, t. 19.

gallu digwydd, hyd yn oed mewn rhannau cymharol ddiarffordd o Faldwyn, yn allweddol. Adleisir hynny yn y delyneg a luniais yn ystod y cyfnod, sef ‘Hydref 2012’, sy’n ymdrin â pharhad cymuned o genhedlaeth i genhedlaeth.⁵⁹ Mae’r gymuned honno’n ‘derbyn y drefn’, yn troi at fflam kannwyll i’w chynnal pan ddaw’r ‘hirlwm yn slei bach i’r clos’ gan wybod yn y pen draw y daw’n wanwyn eto a’r hen drefn yn parhau fel cynt. Ond nid felly’r tro hwn. Y mae’r ‘pellter rhwng Ebrill a ni’ yn bellach nag y bu erioed oherwydd anfadaith Mark Bridger.

Yn ail, yn y dyddiau cyntaf ar ôl diflaniad y ferch fach ac enwi’r llofrudd honedig, yr oeddwn i, fel miloedd o rai eraill ledled y wlad, yn dilyn y newyddion ar y teledu, yn y papurau newydd ac ar y we. Teipiais enw Mark Bridger i chwilotwr Google i geisio darganfod mwy amdano. Pwy oedd o? Oedd o’n lleol neu ai dyn dŵad oedd o? Faint oedd ei oed? Os oedd o’n lleol, a oeddwn i yn yr ysgol efo fo? Maes o law, troswyd y chwilota hwn i’r bennod am Martha, yn y dyddiau ar ôl priodas ei ffrind, yn chwilota am James Wright.

Roedd Martha, fel sawl ditectif amatur arall ledled y wlad, wedi teipio mwy nag un cyfuniad o’i enw yn Google... (V: t.35)

Pan na fydd dim newydd i’w gyhoeddi, mae’r cyfryngau yn tueddu i fynd ar drywydd cysylltiadau cyffredinol er mwyn llenwi bwlch, megis ffrindiau, teulu, hen gariadon ac yn y blaen, a digwyddodd hynny yn achos Mark Bridger hefyd.⁶⁰ Ceisiais adlewyrchu hyn yn y nofel, er mwyn cyflwyno ymdriniaeth y wasg â llofruddiaeth ddychmygol James Wright yn y ffordd fwyaf ddidwyll bosibl.

“He lived a nomadic lifestyle,” meddai Sky am James Wright...yn ôl un o’r tabloids cafodd berthynas â Diane Smithson o Henffordd yn y 1990au – “Jimmy was a wonderful man...a very gentle lover”. (V: t.35)

⁵⁹ Gweler yr Atodiad i’r traethawd hwn.

⁶⁰ Gweler, er enghraifft, Martin Evans a Rosa Silverman, ‘How Mark Bridger shunned his middle class upbringing for a life of lies and violence’, *The Telegraph*, 30 Mai 2013.

<<http://www.telegraph.co.uk/news/uknews/crime/10085907/How-Mark-Bridger-shunned-his-middle-class-upbringing-for-a-life-of-lies-and-violence.html>>; cyrchwyd Chwefror 2016.

iv. *Melino'r gwynt*

Yr un adeg, yr oedd rhannau o Bowys dan fygythiad tra gwahanol fel y crisialwyd gan newyddiadurwyr *Taro Naw* nos Fawrth, 23 Hydref 2012. Bryd hynny, roedd cynlluniau ar droed i godi ffermydd gwynt yn y canolbarth, ac roedd honiad fod y cynlluniau yn darnio cymunedau'r sir, gan fod rhai yn frwd yn erbyn y ffermydd gwynt ac eraill yr un mor frwd o'u plaid. Yn ôl gwaith ymchwil rhaglen S4C, cwmnïau masnachol oedd yn gyfrifol am y ffermydd gwynt mwyaf, ond roedd sawl datblygiad llai gan ffermwyr lleol hefyd. Ar y rhaglen cafwyd sgwrs â dau frawd lleol a oedd â melin wynt ar y fferm yn aros iddi gael ei chysylltu â'r Grid Cenedlaethol. Yr oeddynt o'r farn bod y felin wynt yn ffordd o ategu incwm y fferm, ond roedden nhw hefyd yn sylweddoli bod teimladau cryf yn erbyn y cynlluniau, a bod rhai yn awyddus i berswadio ffermwyr i beidio â chael eu temtio. Yn ôl un o'r brodyr, cafodd ei rif ffôn symudol ei gyhoeddi ar Facebook, gyda neges yn annog pobl i'w ffonio i ddweud pethau cas wrtho.

Roedd y posibilrwydd o gyfeirio at ffermydd gwynt yn y nofel wedi fy nharo eisoes, ond wedi i mi weld y rhaglen hon, sylweddolais y gallai'r hanes fod yn ddefnyddiol fel is-blot i'r stori. Roedd mantais hyn yn ddeublyg: ar y naill law, roedd yn gwreiddio'r nofel hyd yn oed yn ddyfnach yn nhir a daear Maldwyn, ac ar y llaw arall, roedd yn cyfrannu at y nod o wneud y nofel yn gredadwy. Cyflwynir is-blot y ffermydd gwynt ym mhennod 12, lle gwelwn Martha yn swpera yn y Wern gyda Heulwen a Lowri. Yn ystod y swper, mae Heulwen yn diflannu i ateb galwad ffôn, a phan ddaw'n ôl at ei ffrindiau, mae'n amlwg i Martha fod rhywbeth mawr o'i le.

“Ti 'di mynd yn fflat iawn mwya sydyn. Be sy'?”

“Isio Josh a'i bwmp mae hi!” heriodd Lowri.

“O... dim byd mawr. Jest yr hen alwade ffôn 'ma.”

“Marchnata, debyg?” holodd Lowri. “Dw inne'n ciêl lot o'r rheina hefyd. Niwsans.”

“Dim jest y galwade. Mae 'na bethe 'di ciêl eu deud hefyd. Ar Facebook.”

“Heuls, ti ddim yn neud sens. Pa bethe?”

“Deud bo' ni ddim yn haeddu ciêl byw fan'ma... deud ein bod ni'n deulu o fradwyr.
(V: t.38)

Yna, datgelir fod Heulwen newydd osod melin wynt ar ei fferm, ac yn ystod y sgwrs rhwng y tair ffrind o gwmpas bwrdd y Wern cawn adlewyrchiad o'r gwrthdaro lleol ynghylch y melinau gwynt. Mae Lowri yn frwd yn eu herbyn, ond mae Heulwen yn

gweld bod mantais o gael un felin ar ei fferm hi, ac yn methu gweld unrhyw gysylltiad rhwng hynny a chynlluniau'r cwmnïau mawr.

“Dwyt ti ddim yn gweld be mae'r cwmnïe mawr 'ma'n trio'i neud, yn nag wyt? Iwsio Cymru maen nhw at eu dibenion eu hunen. Dyden nhw'n malio 'run botwm corn am ein tir ni, dim ond eu bod nhw'n ciêl be maen nhw isio. O ie, a leinio'u pocedi eu hunen yn y fargen.”

“Ond dwi ddim yn rhan o hynna!” protestiodd Heulwen. “Y cyfan dwi 'di'i neud ydi rhoi un felin ar y mynydd. Sgenna i'm byd i neud efo'r cwmnïe mawr 'ma! Mi fydd hi'n flynyddoedd cyn y gwela i unrhyw elw ar yr hyn ryden ni wedi'i wario.” (V: t.39)

1.15 Mapio

A minnau bellach wedi penderfynu mai presennol y nofel fyddai'r flwyddyn 2012, achubais hen galendr rhag y domen ailgylchu. Cofnodais yn fanwl ynddo ddigwyddiadau dychmygol y nofel, o'r dyddiad y cyfarfu Martha â Josh i'r ymweliad tyngedfennol hwnnw â Dinbych-y-pysgod. Yr oedd y calendr yn bwysig hefyd ar gyfer pennod 6, lle mae Geraint y ditectif yn cael sgwrs â'r patholegydd. Yn ôl fy ngwaith ymchwil i'r hyn sy'n digwydd i gyrff ar ôl marwolaeth, mae *rigor mortis* yn gadael y corff ar ôl 48 awr, felly roedd angen gwneud yn siŵr fod y dyddiadau'n ffitio rhwng ymweliad James Wright â Martha adeg y parti ieir, canfod ei gorff a'r briodas. Bu'r calendr yn eitem allweddol yn ystod y gwaith ysgrifennu a ddilynodd, a chefais fy hun yn cyfeirio ato'n gyson.

1.16 Lleoli'r nofel

Roedd cartrefu Martha yn fy mro enedigol yn benderfyniad naturiol, am mai dyna'r ardal yr oeddwn fwyaf cyfarwydd â hi. Yn llygad fy meddwl yng Nghamlan Uchaf, Mallwyd, hen gartref fy nain a'm taid, yr oedd Martha'n byw. Gallwn ei gweld yno, o flaen yr un Aga yn yr un gegin, yn pasio'r un seler dywyll ar ei ffordd i'r cyntedd ffrynt. Mae'r hen ddreser bîn fawr, a safai ar wal hiraf y gegin, y ddreser yr oedd nain Martha mor ofalus ohoni, bellach yn fy nghartref i. Yn *Veritas*, nid Camlan yw enw'r tŷ, ond y Neuadd Lwyd. Dychmygol yw'r cartrefi eraill yn y nofel, ar wahân i Fathafarn. Roeddwn yn awyddus i beidio â defnyddio cartrefi penodol, rhag i unrhyw gysylltiad

gael ei greu rhwng y bobl a allai fod yn byw ynddynt. Mae Camlan wedi newid dwylo sawl gwaith erbyn hyn, ac wedi newid ei wedd fewnol yn sylweddol. Cael ei grybwyll mewn cyd-destun hanesyddol y mae Mathafarn, ac nid oes yr un o gymeriadau'r nofel yn byw yno na'r un o'i hanturiaethau'n digwydd yno.

Mater arall oedd lleoliadau. Yr oedd yn bwysig i mi fod y nofel yn digwydd mewn trefi a phentrefi go iawn, ac y cedwid at eu henwau priodol. Mae rhannau o *Inferno* (2013), gan Dan Brown, wedi eu lleoli yn ninas Fenis, ac roeddwn innau yn Fenis pan ddarllenais hi. Cefais wefr arbennig o weld atyniadau enwog Fenis dros fy hun yn ystod y dydd, a'u gweld fin nos drwy lygaid dychymyg awdur nofelau ffuglen.

Ffuglen yw'r nofel, ond mae, serch hynny, yn cynnwys nifer o ffeithiau sydd wedi eu cofnodi, ac roeddwn wedi ceisio sicrhau, hyd y gallwn, fod yr agweddau hanesyddol yn taro deuddeg. Yn y cyd-destun hwnnw, byddai dyfeisio ardaloedd dychmygol neu ail-enwi ardaloedd presennol yn groes i'r graen. Bu trafodaeth ddiddorol rhyngof a'm cyfarwyddwr ymchwil ynghylch y gwrthdaro posibl rhwng rhyddid creadigol a chyfrifoldeb creadigol. A fyddai goblygiadau cyfreithiol pe darlunnid adeilad neu leoliad mewn goleuni negyddol? Yn ei nofelau ef, mae Dan Brown nid yn unig yn enwi lleoedd a sefydliadau penodol, ond yn lleoli rhai o ddigwyddiadau erchyll ei nofelau yn y sefydliadau hynny. Yn y Louvre, Paris y canfyddir corff Saunière. Ar ddechrau'r nofel *Angels and Demons* (2000) mae nodyn gan yr awdur yn datgan bod yr holl gyfeiriadau at weithiau celf, beddrodau, twneli a phensaernïaeth yn Rhufain yn gwbl gywir, ynghyd â'u lleoliad. Mae'r saethu a'r gwarchae a'r dial yn nofel Fflur Dafydd, *Y Llyfrgell* (2009), yn digwydd yn ein Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. I'r gwrthwyneb, mae P.D. James yn nodi ar ddechrau *The Lighthouse* (2005) mai ffrwyth ei dychymyg hi'n unig yw Combe Island, lleoliad y nofel. Yn nofelau Colin Dexter, cedwir Inspector Morse yn brysur iawn yn datrys holl lofruddiaethau Rhydychen a'i phrifysgol, ond enwau ffug sydd ar y rhan fwyaf o'r colegau.

Hawliodd Cymdeithas Rhisiart III, ac, i raddau llai, y Rhosgroesiaid, ychydig yn fwy o sylw yn y cyd-destun hwn. A oedd modd imi eu henwi, a'u defnyddio at bwrpasau'r nofel, heb fod yn agored i oblygiadau cyfreithiol? Bûm yn ofalus ynghylch hyn. Teimlwn, gan mai cymeriadau ffug yw Josh a Seimon, ac nad oes yn y nofel ond eu gair

hwy fod gan yr ymchwiler am y map unrhyw gysylltiad â'r cymdeithasau hyn, ei bod yn glir felly nad oes sail i unrhyw bortread negyddol ohonynt a awgrymir. Yn hyn o beth, cyfeiriais at y defnydd a wnaeth Geraint Vaughan Jones o MI5 ac MI6 yn ei nofel, *Zen* (2004). Fel yntau, bernais mai da o beth fyddai cynnwys ymwadiad ar ddechrau'r nofel yn datgan yn glir bod unrhyw gyfeiriad at bobl, lleoedd a chymdeithasau go iawn yn digwydd mewn sefyllfaoedd dychmygol.

Gan fod y manau a grybwyllir yn *Veritas* yn fannau go iawn, roedd yn bwysig i mi, er mwyn sicrhau dilysrwydd y nofel, fy mod yn ymgyfarwyddo â'r manau hynny. Roeddwn eisoes wedi bod yng Nghastell Penfro ar ddechrau'r prosiect, ac wedi codi pamffledi a phrynu llyfrau tywys a llyfrau gwybodaeth yn y siop. Yn yr un modd, bûm yn Eglwys Gadeiriol St Paul yn Llundain, er mwyn gweld carreg goffa Christopher Wren yn y crypt a'r cylch trawiadol sy'n coffáu ei waith o dan grymddo godidog yr eglwys. Disgrifir hyn ym mhennod 18, lle mae Martha yn chwilio am ystyr y gair 'dryw'.

Pan benderfynais mai yn y twneli o dan Ddinbych-y-pysgod y byddai'r Rhosgroesiaid yn cyfarfod, dyma ymweld â'r dref ym mis Mai 2012. Nid oeddwn am fynd i lawr y twneli, a beth bynnag nid oeddynt ar agor i'r cyhoedd. Roedd yr hyn a welais ohonynt ar y rhaglen *Darn Bach o Hanes* yn ddigon. Gallai fy nychymyg wneud y gweddill. Cerddais o gwmpas y dref a'r traeth, gan sylwi ar y wal garreg enfawr, y môr a'i gychod, a'r tai hynafol a lliwgar. Yn Eglwys y Santes Fair, dysgais am Robert Recorde a hanes ei gysylltiad teuluol â Machynlleth. Fel ym Mhenfro, codais bamffledi a phrynais lyfrau gwybodaeth am yr eglwys, ond y tro hwn tynnais luniau manwl hefyd o'i thu mewn, er na wyddwn, ar y pryd, pa ran a chwaraeai'r eglwys yn fy nofel. Sylwais ar ddrws bach gerllaw beddrod Thomas White a chofeb Robert Recorde, a phenderfynais mai drwy'r drws hwnnw y byddai'r fynedfa i'r twnel, ac yn fuan ar ôl hynny ysgrifennais bennod 4 pan gyflwynaf TL am y tro cyntaf. Aeth misoedd heibio cyn imi ysgrifennu pennod 37. Yn y bennod honno, mae Martha a Josh yn mynd i'r eglwys ar drywydd Seimon, a bu'r lluniau a dynnais yn amhrisiadwy pan ddaeth yn fater o ddisgrifio'r eglwys.

Yn wahanol i lawer o rai eraill, roedd hi'n eglwys olau, braf, ac erbyn deall, roedden nhw wedi mynd i mewn, nid drwy'r brif fynedfa, ond drwy'r fynedfa ogleddol, gan olygu eu bod yn edrych ar letraws ar yr eglwys. Roedd nifer o rannau amlwg iddi – dwy ystlys, corff a changell a chapeli bychain – ac ym mhob rhan, esgynnai'r nenfwd yn fwâu godidog. I'r dde o'r lle y safent, roedd bedyddfaen ysblennydd ar lwyfan pren, a rhyw bamffledi a llyfrau y tu ôl iddo, ac i'r chwith, ym mhen pellaf yr ystlys, y tu ôl i sgrin rwylllog, roedd encil bychan dan fwa o sgwariau glas. (V: t.123)

Rhan o'm pwrpas wrth ymgynefino â'r manau sy'n rhan o'r nofel, oedd y gobaith y byddai'r darlennydd yntau yn gallu eu gweld yn llygad ei feddwl, neu efallai'n ymweld â nhw ac yn cael yr un wefr ag a deimlais innau o fod yn Fenis yn darllen amdani yn *Inferno*. Hyderwn hefyd y byddai dealltwriaeth yn ymhlyg yn hynny mai ffuglen yw'r nofel, ac na fyddai unrhyw un yn mynd ati i bwyso meini mewn wal yn y gobaith o ganfod croes ysblennydd a mynedfa i dwnnel!

2 CYMERIADAU

2.1 Adnabyddiaeth raddol

Ar wahân i Margaret a Martha, tyfu'n naturiol o'r stori a wnaeth y cymeriadau. Y stori oedd yn cyflwyno'r cymeriadau i mi, ond fi fy hun oedd yn rheoli'r cymeriadau hynny, ac ymhle yn y stori y bydden nhw'n ymddangos. Ar ôl penderfynu ar y frawdoliaeth, roedd hynny wedyn yn cynnig nifer o gymeriadau posibl, er nad ymddangosodd pob un yn y nofel. Wedi penderfynu ar Gymdeithas Rhisiart III, a'r cymhellant i ganfod y gyfrinach, roedd angen dihiryn arnaf a fyddai'n cyflawni anfadwaith y nofel. Arweiniodd hynny fi at Josh.

Rydym yn cyfarfod â Josh yn y drydedd bennod, pan ddaw i helpu Martha wedi iddi gael pynctsiar. Aiff deg pennod arall heibio cyn y cawn cwrdd ag ef wedyn, ac yn y cyfnod hwnnw rydym yn uniaethu â Martha yn ei hawydd i weld Josh eto. Roeddwn i'n awyddus iawn i gyflwyno Josh fel person hoffus, a cheisio denu'r darllynydd i syrthio mewn cariad ag ef, ac i ymddiried ynddo, fel y gwnaeth Martha maes o law. Roedd Josh hefyd yn gyfle i gyflwyno carwriaeth yn y nofel, a thrwy hynny, ddatgelu rhagor am gymeriad Martha. Gobeithiwn y byddai'r siom a gawsai Martha pan welodd wir gymeriad Josh yn cael ei adlewyrchu hefyd yn nheimpladau'r darllynydd.

Doeddwn i ddim am ddweud gormod am Martha ar un gwynt. Yr oedd yn bwysig i mi fod ei hanes ac agweddau ar ei chymeriad yn cael eu datgelu'n raddol bach yn ystod y stori. Yn hyn o beth, roeddwn yn ei hystyried fel petawn yn cyfarfod â pherson newydd am y tro cyntaf, ac wrth dreulio cyfnod gyda'r person hwnnw, yn dod i'w adnabod yn well. Chaiff neb adnabyddiaeth ar berson yn y cyfarfyddiad cyntaf, a hyd yn oed ar ôl bod yng nghwmni'r person hwnnw am gyfnod hir, mae agweddau ar ei gefndir yn parhau'n annelwig. Felly hefyd Martha. Gwyddom, er enghraifft, iddi gael ei magu gan ei thaid a'i nain, ond ni chawn wybod pam.

Roedd yno luniau o'i rhieni hefyd, ond doedd hi ddim eisiau edrych yn hir iawn ar y rheini, rhag iddyn nhw gorddi teimpladau y bu'n brwydro â nhw gyhyd.
(V: t.52)

Wrth ddatgelu stori'r cymeriadau yn raddol bach fel hyn, roedd yn fodd hefyd o guddio stori ambell gymeriad, heb fod y broses o guddio yn rhy amlwg. Mae'r ychydig a gawn o gefndir Josh, er enghraifft, yn cael ei ddatgelu ym mhenodau 3 ac 13.

Hyderus, dewr a thriw yw'r portread o Martha yn y nofel. Mae iddi hefyd ei gofidiau a'i hofnau, fel pob un ohonom. Mae'r profion yn y feddygfa yn amhleserus ganddi, caiff ei dychryn gan hunllefau, gan y teimlad fod rhywun wedi bod drwy'i phethau, a chan y gath waedlyd a'r ddynes yn y wisg wen. Ar y llaw arall, gall fyw yn y Neuadd Lwyd ar ei phen ei hun, mae'n barod i darfu ar araith y gwas priodas er mwyn achub brecwast priodas ei ffrind, mae'n gallu herio Josh yn wyneb gwn, ac mae hyd yn oed yn dychwelyd i'r adfail ym mherfeddion nos i ymorol am Seimon ar ôl ei phrofiadau erchyll.

Roedd yn bwysig i mi fod gwahaniaeth cynnil yng nghymeriad Martha erbyn diwedd y nofel. Byddai ei phrofiadau wedi cael effaith arni. Ym mhennod 48, pan gyfarfyddwn â hi ar ôl y profiadau hynny, mae wedi colli ychydig o'i bywiogrwydd blaenorol, ac mae arddull y bennod yn drymach er mwyn adlewyrchu hynny. Yno, fe'i cawn â chroen gŵydd yn cripiant drosti, ac yn tynnu ei chardigan yn dynnach amdani.

Yn raddol bach, roedd hi'n dechrau dygymod â bod wrthi'i hun eto, er na allai ddiffodd y golau wrth erchwyn ei gwely am bris yn y byd. Roedd Lasi'n help garw...Edrychai Martha ymlaen yn fawr at fynd â hi am dro, ond câi'r Ffridd aros ychydig yn hwy. (V: t.167)

Nid yw, fodd bynnag, wedi colli dim o'i chwilfrydedd blaenorol, a cheisiais gyfleu, drwy gyfrwng brawddeg olaf y bennod honno, y deuai Martha drwyddi'n iawn.

Mae llawer o bobl y deun i gyfarfod â nhw bob dydd nad ydynt yn chwarae rhan lawn yn ein bywydau; braidd gyffwrdd â nhw a wnawn ni. Tynnu sgwrs ar daith trê, er enghraifft, a byth yn gweld ein gilydd wedyn, ond drwy'r ffaith inni gyfarfod mae ein diwrnod eisoes yn fwy lliwgar. Felly hefyd yn *Veritas*. Mae nifer o gymeriadau ynddi nad ydym yn cwrdd â nhw fwy nag unwaith. Mae Geraint, y ditectif, yn un o'r rheini, a Robin, Meri a Sianco. Mae iddynt bwrpas pendant yn y nofel, serch hynny, a'r olygfa o Meri a Sianco, yn enwedig, yn lliwio'r cyfnod y'i gosodwyd ynddo.

Yn y siop, wrth ymadael â Chastell Penfro yn dilyn fy ymweliad ymchwiliadol â'r lle yn 2010, prynais gyfrol fechan am Margaret Beaufort.⁶¹ Ar glawr y gyfrol atgynhyrchir y portread ohoni sy'n crogi ym mhorthdy Coleg yr Iesu, Caergrawnt. Ynddo, portreadir hi mewn ystum o weddi, ac yn ôl ei gwisg mae'n debycach i leian na mam brenin Lloegr. Yn y gyfres deledu, *The White Queen*, a oedd yn seiliedig ar nofelau hanesyddol Philippa Gregory, cafodd ei phortredu'n wraig yr oedd defosiwn yn obsesiwn iddi, a gynllwyniai'n ddi-baid i orseddu ei mab.⁶² Pan welais y gyfres roedd y portead negyddol hwnnw'n wrthun imi, ond ar yr un pryd, deallwn mai argraffiadau ohoni'n hŷn oedd y rheini. Roedd Margaret Beaufort yn berson deallus a dysgedig. Roedd hi'n wniadwraig fedrus, ac roedd traddodiad o addysgu merched i ysgrifennu yn nheulu'r Beaufortiaid, peth anarferol iawn yn y cyfnod. Wrth ddarllen ei hanes, a dychmygu'r gwewyr yr aeth drwyddo wrth esgor ar Harri Tudur yn dair ar ddeg oed, ni allwn lai na chymdymdeimlo â hi, ac roeddwn yn awyddus i gyfleu hynny yn y nofel. Doedd ganddi neb yn gefn iddi ac roedd hi mewn gwendid. Pa ryfedd iddi ymestyn fwyfwy at ei Duw?

Un diwrnod da, roedd hi wedi ceisio sefyll, ond roedd ei choesau'n rhy wan i'w chynnal a'i phen yn troi. Ni fedrai ddarllen odid ddim, ac roedd hynny'n peri loes iddi. Doedd dim gobaith ymarfer ysgrifennu na gwnïo. Crynai ei llaw fel hen wraig dim ond iddi gydio mewn llwy. Ni symudai fawr, ond gweddïai'n gyson. O leiaf gallai wneud hynny'n gymharol ddiymdrech. Wrth weddïo gallai estyn at rywbeth y tu hwnt i'w ffiniau hi. Wrth weddïo gallai beidio â meddwl am bethau. A phan fyddai'r cof yn bygwth ei threchu, estynnai am ei llaswyr ac âi drwy ei phaderau. (V: t.121)

2.2 Dilladu gair a llun

Yn y broses o ysgrifennu, deuthum i sylweddoli fy mod yn gwrando mwy ar sgysiauw pobl ac ar y storïau rydym yn eu hadrodd wrth ein gilydd. Ar ôl addasu rhai o'r sgysiauw a glywn o'm cwmpas, fe'u cynhwysais yn y nofel, er mwyn rhoi hygredded i'r traethu ac i wneud y cymeriadau'n fwy crwn. Roedd atgofion Martha am ei hwythnosau cyntaf yn y coleg yn Aberystwyth, a'r dieithryn a gynigiodd lifft iddi, yn addasiad o stori a glywais ffrind yn ei hadrodd wrth ffrind arall. Yr un modd, un o'r hanesion a adroddodd Emma wrth Martha ar ei dychweliad o'i mis mêl, a oedd yn sgwrs a glywodd Beca, fy

⁶¹ Peter Snelson, *Lady Margaret Beaufort* (Cambridge: Cambridge Christian Heritage, 1999).

⁶² *The White Queen*, cyfres o ddeg pennod a ddarledwyd ar BBC1 rhwng Mehefin ac Awst 2013.

merch mewn caffi yn Llundain. Yn angladd fy nhad yng nghyfraith ym mis Medi 2014, mewn sgwrs â pherthynas i'r teulu, soniodd fod ei thad yn un o'r rhai a fu'n datrys codau yn Bletchley Park. Cadwodd y cyfan yn gyfrinach, hyd yn oed oddi wrth ei wraig a'i blant, tan ganol y 1980au. Gwelais innau gyfle i gynnwys hynny yn y nofel. Roedd gosod Edward, taid Martha, yn Bletchley Park adeg yr Ail Ryfel Byd yn esbonio'i hoffter o godau ac yn esbonio hefyd sut y cyfarfu â Seimon.⁶³

Yma ac acw, defnyddiais ddillad i ddarlunio'r cymeriad, ac weithiau i gyfleu cyfnod y stori dan sylw heb orfod dweud hynny'n blaen. Ym mhennod 27, er enghraifft, disgrifir Lewys mewn gŵn brown, cap melfed du, a gwallt syth at ei war. Roedd bod yn forwyn briodas yn gyfle i Martha 'gefnu ar ei jîns'; roedd Seimon, y Rhosgroesiad, mewn siwt liain olau yn grychau i gyd a chariai fag, tebyg i fag ysgol, ar draws ei gorff.

Cawn gipolwg ar fywyd y criw o ffrindiau sydd gan Martha yn ôl y math o anifail anwes a fu ganddynt, yn y glasnau y maent yn eu bathu i'w gilydd a'r gêm y maent yn ei chwarae yn ystod y parti ieir. Ym mhennod 31, roedd cyflwyno'r glasnau Beni Twshan yn ychwanegu at y portread o'r math o gymdeithas a oedd yn byw ac yn gweithio yng nghyffiniau'r harbwr. Tybiais y byddai creu glasnau yn arferiad cyffredin mewn galwedigaeth fel pysgota.

Ymrithio'n raddol bach wrth i'r nofel ddatblygu yr oedd y cymeriadau. Byddwn yn ychwanegu at eu cefndir gam wrth gam, er nad yw'r cyfan o'r cefndir hwnnw wedi'i ddadlennu yn y nofel. Mae rhagor eto i'w ddweud am flynyddoedd cynnar Martha, er enghraifft, ac mae gan y ddynes yn y wisg wen hithau gefndir. Prif ddiben y dechneg hon yn wreiddiol oedd ennyn chwilfrydedd a gadael darllenwyr y nofel yn awchu i gael gwybod rhagor, ond wrth i'r nofel dynnu tua'i therfyn, roedd gennyf deimlad nad oedd Martha eto wedi gorffen â mi.

⁶³ *Veritas*, t. 146

3 ARDDULL

3.1 Patrwm y penodau

Cyn imi ysgrifennu'r nofel hon, y prif brofiad o ysgrifennu rhyddiaith a oedd gennyf oedd ysgrifennu storïau byrion. Mae'n dra phosibl fod a wnelo hynny, i raddau, â'm hargyhoeddiad ar ddechrau'r prosiect y byddai hyd y penodau'n weddol fyr, ar y cyfan. Ond roeddwn hefyd newydd ddarllen *The Dictator* (2010), gan Tom Cain, sy'n union gan pennod. Gwnaeth byrder y penodau argraff arnaf, ac wrth ailddarllen y nofel gwelais sut yr oedd hynny'n gymorth i symud y nofel yn ei blaen. Yn *Veritas*, mae'r penodau o gyfnod y Tuduriaid, er enghraifft, yn fyr iawn, ond cydbwysir hynny gan benodau hwy lle mae'r stori yn hawlio hynny. Teimlwn fod yr amrywiaeth hon yn helpu i gynnal llif a symudiad y nofel. Roedd Dafydd Morgan Lewis yn ei adolygiad o'r nofel, fel y'i cyhoeddwyd ym mis Awst 2015, o'r farn bod y penodau byr sydd ynddi yn 'gryfder'.⁶⁴

At hynny, fe geisiais orffen y rhan fwyaf o'r penodau â brawddeg fer, annisgwyl weithiau, a fyddai'n annog y sawl a'i darllenai i barhau i droi'r tudalennau. Ceir enghraifft o hynny ym mhennod 19 lle cawn ein tywys am dro gan Sam a'i gi oedrannus, Pep. Pennod ysgafn, hyfryd, yng nghefn gwlad Maldwyn yw hon ar yr olwg gyntaf, heb awgrym o'r erchylltra y daw Sam wyneb yn wyneb ag ef ar ddiwedd y bennod, sy'n cloi gyda dwy frawddeg fer, stacato:

Syllai dwy soced waedlyd arno yntau. Chwydodd. (V: t.67)

Roeddwn yn awyddus i gynnal momentwm y nofel, ac un ffordd o wneud hynny oedd creu cyferbyniad rhwng pennod a phennod. Dilynir y bennod gyntaf am Margaret yng nghastell Penfro gan ddwy bennod am Martha yn cwrdd â Josh, ac yna bennod am TL, ac yna bennod ysgafn am barti ieir yn nghartref Martha. Ar wahân i'r penodau am Martha nid yw'n glir ar y dechrau ym mha gyfnod y mae'r lleill, na phwy yw'r cymeriadau a grybwyllir ynddynt. Rhaid darllen ymlaen i ganfod hynny.

⁶⁴ Dafydd Morgan Lewis, 'Gwobr Goffa Daniel Owen – Adolygiad', *Golwg*, 27/48 (13 Awst 2015), t. 20.

Dyweddodd Elfyn Pritchard, yn ei adolygiad ar-lein o *Veritas* ar gyfer Gwales, y byddai 'pennawd i bob pennod, fel y gwnaed i'r mwyafrif, neu ddyddiad hyd yn oed, wedi bod o gymorth'.⁶⁵ Yr oedd peidio â rhoi dyddiad ar frig y penodau wrth bendilio o un o'r llall yn gwbl fwriadol, er mwyn cadw'r darlennydd i ddyfalu ac i barhau i ddarllen. Gwelir y dechneg hon ar ei gorau yn nofel gymhleth Donato Carrisi, *The Lost Girls of Rome* (2012), lle mae'r adran gyntaf, er enghraifft, yn cynnwys golygfeydd sy'n ymwneud â gwahanol gymeriadau digyswllt yn ystod yr un diwrnod. Mae'n symud drwy wahanol gyfnodau, o ddiwrnod ynghynt i bum mlynedd ynghynt ac o flwyddyn ynghynt i dridiau ynghynt. Mae ei phum can tudalen yn gafael, ac nid yw'n gollwng y gafael hwnnw hyd nes cyrhaeddir y ddwy bennod olaf. Ar yr un pryd, rhaid bod yn effro i'r digwyddiadau sydd ynddi er mwyn deall yr hyn sy'n digwydd nesaf. Dyna'r effaith y ceisiais innau anelu ati. Nid dim ond annog darllen, ond darllen meddylgar. Yn un arall o nofelau Carrisi, *The Whisperer* (2010), mae'r gorffennol yn cael ei gyfleu gan benodau cyfan lle mae'r teipograffi cyffredin wedi'i newid yn deipograffi italig. Felly hefyd yn *Veritas*.⁶⁶

Ar bapur, roedd y penodau hynny a ysgrifennwyd mewn italig yn gweithio, am fod y newid cyfnod yn weladwy. Roedd hi'n fater gwahanol pan recordiais y nofel ar gyfer Llyfrau Llafar yn ystod hydref 2015.⁶⁷ Gan nad oedd modd cyfleu'r newid cyfnod yn weladwy, bu'n rhaid dibynnu ar amrywiaeth cywair ac arddull, ac osgo'r llais. Yn y cyd-destun hwnnw, felly, fe fyddai pennawd neu ddyddiad wedi bod o gymorth.

Yn nyddiau cynnar y nofel, ac yn wir tan yr wythnosau olaf, yr oedd yn fwriad gennyf lunio cwpled cynganeddol yn bennawd ar bob pennod. Byddai i'r cwpledi ystyr yng nghyd-destun y bennod dan sylw, a byddent hefyd, o'u rhoi at ei gilydd ar ôl cyrraedd diwedd y nofel, yn creu cywydd a fyddai'n cau pen y mwdwl ar y cyfan. Mae Umberto Eco yn *The Name of the Rose* (1983) yn rhoi crynodebau bychain o gynnwys y penodau ar gopa pob un ac mae Karen Maitland hithau yn defnyddio techneg debyg yn *The Falcons of Fire and Ice* (2012). Felly hefyd Gwen Pritchard Jones yn *Dygwyl Eneidiau* (2006), sy'n cynnwys englynion a rhigymau traddodiadol a dyfyniadau eraill o'r cyfnod

⁶⁵ Elfyn Pritchard, adolygiad o *Veritas* oddi ar <www.gwales.com> trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru; cyrchwyd Mawrth 2016.

⁶⁶ Yn y fersiwn PhD. Defnyddiwyd math arall o deipograffi yn y fersiwn gyhoeddedig; gweler adran 4.2.

⁶⁷ Llyfrau Llafar Cymru, tâp rhif 2073

ar frig penodau. Teimlwn fod y dechneg hon yn ychwanegu at naws hynafol nofelau sy'n ymwneud â chyfnodau hanesyddol o'r gorffennol pell, a dyna pam yr ystyriais ei defnyddio yn *Veritas*. Byddai llunio cwpled cynganeddol, yn hytrach na chrynodeb ar ffurf rhyddiaith, yn ychwanegu at naws Gymreig y nofel. Ond lle bo'r nofelau a enwir uchod yn aros yn llwyr o fewn eu cyfnod, pendilio o un cyfnod i un arall y mae *Veritas*, a phenderfynais yn hwyr yn y broses y byddai cwpledi ar frig pob pennod yn amharu ar lif y stori, ac na fyddent yn ychwanegu odid ddim ati.

3.2 Ieithwedd

Wedi gwneud y penderfyniad i ddefnyddio tafodiaith Dyffryn Dyfi yn y nofel, a'r ymateb cadarnhaol i hynny gan fy nghyfarwyddwr ymchwil a beirniaid Eisteddfod Llanbedr Pont Steffan (gweler adran 1.6), y cwestiwn nesaf oedd sut orau i gofnodi'r dafodiaith honno.

Yn *Ysgrife'r Randibw* (1983), defnyddir yr acen grom yn ddiwahân i ddynodi'r dafodiaith, 'gwêllt' ('gwallt'), 'bêch' ('bach'), 'nêcie' ('nage'). I'r gwrthwyneb, yn *Dal dy Dir* (2004), ni ddefnyddir acen o gwbl: 'bech' ('bach'); 'drew' (draw), 'neddo' ('naddo'), 'negoes' ('nagoes'). I'm clust i, mae'r 'e' Faldwynaid yn sain gwbl gwahanol i'r 'e' sy'n cario acen grom, ac eto teimlwn fod angen acen o ryw fath. Roedd dyfais ddiddorol yng nghywydd Tegwyn Pughe Jones.⁶⁸ Dynoda ef y sain Faldwynaid â hirnod syth (*macron*), er enghraifft, 'ffē' ('ffa'), 'anifēl' ('anifail'), 'gwêllt' ('gwallt'). Roeddwn yn gweld hynny'n beth dieithr ar bapur, ac yn acen anghyfarwydd. Nid yw'r 'a' mewn geiriau fel 'plât' yn troi'n sain 'e' gyffredin. I'm clust i, mae'n swnio'n debycach i ddeusain, rhywbeth yn debyg i 'ee'. Arbrofais, felly, â'r didolnod, gan mai swyddogaeth yr acen honno yw gwahanu ansawdd sain llafariad unigol, er nad oeddwn yn gwbl fodlon â hynny ychwaith.

Pan ddaeth yn fater o gymhennu'r proflenni i'w cyhoeddi yn dilyn llwyddiant y nofel yng nghystadleuaeth Gwobr Goffa Daniel Owen 2015 (gweler adran 4), roedd y defnydd o'r didolnod yn taro golygyddion y cyhoeddwr yn chwithig, ac roeddynt o'r farn y byddai'n edrych yn ddieithr i'r rhan fwyaf o ddarllenwyr. Gallwn innau weld

⁶⁸ Tegwyn Pughe Jones, 'Cŵyn amaethwr' yn ap Dafydd (gol.), *Cywyddau Cyhoeddus 2*, tt.117-18.

hynny, ond gallwn weld hefyd na fyddai'r hirnod syth yn addas ychwaith oherwydd ei ddieithrwech. Dyma ddychwelyd at yr acem grom. Felly, dynodir yr 'e' Faldwynnaidd ag acen grom lle mae'n digwydd o flaen l, n, r, c, m, p, t; ar ôl i; ac ar y goben mewn geiriau fel 'nêddo' a 'nêge'.

Yn adran 1.6, soniais fy mod wedi anfon y bennod gyntaf a ysgrifennais i gystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Llanbedr Pont Steffan. Ar y copi o'r feirniadaeth sydd yn fy meddiant mae hefyd ddarn byr am yr ymgeiswyr eraill, o dan eu ffugenwau. Roedd un ymgeisydd wedi ysgrifennu pennod gyntaf ei nofel (yr hyn y gofynnid amdano ar gyfer y gystadleuaeth) yn llwyr yn nhafodiaith Cwm Tawe, a barn y beirniaid oedd, er mor hyfryd y dafodiaith honno, eu bod yn 'amheus o addasrwydd ysgrifennu llyfr cyfan mewn tafodiaith yn enwedig un mor spesifig ei hardal. Rhaid canolbwyntio cymaint ar y sillafu fel bod rhywun yn colli gfael ar y plot dro ar ôl tro.'⁶⁹ Roedd hynny'n rhywbeth yr oeddwn yn awyddus iawn i'w osgoi, rhag i'r dafodiaith fynd yn dreth neu, gwaeth fyth, droi'n gomig yn null erthyglau'r hen Gorrissa Jôs, ac felly'n gwbl groes i naws y nofel. Felly, brigo yma ac acw yn unig y mae yn *Veritas*.

Heblaw tafodiaith Maldwyn, yr oedd yn bwysig i mi fod tafodieithoedd eraill i'w clywed yn y nofel, ac ambell frawddeg Saesneg, er mwyn adlewyrchu lliw ein bywydau a'n sgysiau beunyddiol ac yn rhannol er mwyn portreadu cymeriad. Person di-Gymraeg yw Phil, ac awgrymir hefyd fod Josh, er cystal ei Gymraeg, yn fwy cyffyrddus yn yr iaith fain. Mae'r patholegydd, ym mhennod 6, a James Wright, ym mhennod 5, yn ddeheuwyd, ond mae mân wahaniaethau yn y ffordd y mae'r ddau'n siarad; mae ieithwedd y naill, er ei bod mewn cyd-destun proffesiynol, yn anffurfiol, ac awgrymir bod y patholegydd yn gymharol ifanc:

“Mae'r lein goch yn mynd reit rownd y gwddw, yn dyw hi? 'Se fe wedi crogi'i hunan 'sen i'n dishgwl gweld bwch yn y lein 'na.”
Dyna ddiwedd ar ddamcaniaeth Ken felly, meddyliodd Geraint.
“Hefyd, doedd y peth gafodd ei iwso i'w dagu fe ddim yn llyfn. Galla i weld ôl gwedd yn y croen. Rhaff, falle?” (V: t.22)

Mae James Wright yn hŷn ac yn siarad yn fwy ffurfiol a gofalus:

⁶⁹ Beirniadaeth Eurig Salisbury a Caryl Parry Jones ym meddiant yr awdur, 2011.

“James Wright ydw i, ac roeddwn i’n adnabod eich tad-cu,” gwenodd yn fain.
“Rwy’n siŵr eich bod chi’n gweld bwloch mawr ar ei ôl. Roedd e’n ŵr
bonheddig.” (V: t.16)

Yr oedd yn bwysig hefyd fod pobl sy’n gyfoed â’i gilydd yn arddel yr un arddull. Mae ieithwedd Seimon y Rhosgroesiad, fel James Wright, yn ffurfiol ei naws, er mai ffurfioldeb gogleddol ydyw yn ei achos ef, a chawn yr un ffurfioldeb yn llythyr taid Martha, yntau o’r un genhedlaeth.

Gan fy mod yn gosod rhannau o’r nofel yn yr Oesoedd Canol, roedd hynny’n gyfle i gyflwyno darnau mwy clasurol yn wrthgyferbyniad i’r darnau ysgafnach ac anffurfiol. Mae’r ddwy bennod gyntaf yn enghraifft o’r gwrthgyferbyniad hwnnw. Yn y gyntaf cawn ddisgrifiad llenyddol ei naws o deimladau Margaret yng nghastell Penfro, sy’n cynnwys troadau ymadrodd ffurfiol, er enghraifft, ‘Ofer y bu hynny oblegid...’ Yna, ar ddechrau’r ail bennod, cawn ein hysgwyd, yn greulon bron, gan ebychiad Martha, ‘Blydi hel!’ Digwydd yr un gwrthgyferbyniad rhwng penodau 10 ac 11. Ym mhennod 10, gwelwn y byd drwy lygaid Margaret sy’n dadebru rhywfaint ar ôl ei gwaeledd:

Y tro diwethaf, gwelsai gap gwyn ymhell, bell o’i blaen, yn bobian yn yr aer, yn wylan wen ar don lwyd, i fyny ac i lawr, yn ôl ac ymlaen. Roedd y pendilio diddiwedd yn codi cyfog arni. Caeodd ei llygaid a gadael i glogyn du ei hamgylchynu a’i gwthio i lawr hyd furiau difaterwch, i lawr, lawr i bydew llonyddwch, Morffews y meddwl, lle’r oedd pob dim yn ddim, a dim yn bopeth.
(V: t.33)

Yn y bennod ddilynol, symudwn yn sydyn i’r presennol ac mae’r ieithwedd yn fwy anffurfiol ac yn cynnwys cyfeiriadau modern:

Allai Martha ddim peidio â meddwl am ei hymwelydd noson y parti ieir, a oedd bellach yn gelain mewn corffdy yn rhywle. Drannoeth y briodas, bob cyfle a gâi, bu’n gwyllo Sky News ac yn chwilio’r we am y newyddion diweddaraf am y farwolaeth. (V: t.34)

Heblaw darlunio cyfnod yr oedd hyn hefyd yn fodd i sicrhau amrywiaeth a chynnal diddordeb darllenwyr.

Er nad nofel hanesyddol yw *Veritas* fe geisiais sicrhau, hyd y gallwn, fod yr agweddau hanesyddol yn weddol agos i’w lle. Yr oedd yn bwysig, er enghraifft, fod Lewys yn defnyddio’r cyfarchiad priodol wrth ymweld â Margaret Beaufort. Iarlles Richmond

oedd hi yn sgil ei phriodas ag Edmwnd Tudur, ond yn 1457 pan anwyd Harri Tudur, ei theitl swyddogol oedd 'The Dowager Countess of Richmond', Iarlles Weddw Ritsmwnd. Felly, fel iarllles y meddylia Lewys amdani ond fel Arglwyddes y mae'n ei chyfarch.

“Wele, f’ Arglwyddes, dy fab Owain.” (V: t.121)

Serch hynny, ni fwriedais erioed geisio bod yn ffyddlon i ieithwedd yr Oesoedd Canol. ‘Hawdd’, meddai Gwen P. Griffith, ‘yw syrthio i fagl wrth geisio portreadu oes drwy iaith’.⁷⁰ Felly, awgrymu'r cyfnod yn unig a wneir, ac at ddiben y nofel hon, roedd yn ddigon i ddangos y gwahaniaeth rhwng y golygfeydd o'r gorffennol a'r presennol heb esbonio hynny drwy roi dyddiad ar frig y penodau, a heb amharu ar lif y stori drwy gyflwyno ieithwedd a fyddai'n ddieithr i fwyafrif ei darllenwyr.

Wrth reswm, byddai ieithwedd yr Oesoedd Canol yn amrywio llawer, yn union fel y dyddiau hyn. Byddai gwahaniaeth amlwg rhwng bonedd a gwrêng. Gwyddwn yn reddfol y byddai'n beth rhyfedd i Sianco'r pysgotwr lefaru yn yr un cywair â'r Iarlles, Margaret Beaufort, ond sut gallwn i ddangos hynny a pharhau'n driw i'r cyfnod? Doedd dim modd imi wybod sut y byddai Sianco'n siarad a byddai unrhyw ymgais i bortreadu hynny'n taro'n chwithig. Amheuw, beth bynnag, a fyddai hynny'n gwneud gwahaniaeth. Wedi'r cyfan, dweud stori yr oeddwn, nid portreadu cyfnod drwy lygaid hanesydd.

Nid yw'r darlennydd cyffredin yn disgwyl gorfod wynebu arddull a geirfa'r cyfnod a bortreedir; mae fel petai'n fodlon cyfaddef ei anallu i ddeall a dehongli'r cyfryw, ac eto yn disgwyl i'r awdur awgrymu hwnt ac yma beth fuasai natur yr eirfa honno pe defnyddiesid hi.⁷¹

Felly, iaith lafar Sir Benfro sydd gan Sianco, ac mae'r cyfnod yn cael ei bortreadu yn y disgrifiad o brysurdeb yr harbwr, a thrwy gyfrwng y ddeialog rhyngddo a Meri'r butain yn hytrach na thrwy gyfrwng yr ieithwedd ei hun.

⁷⁰ Gwen Pritchard Griffith, 'Nofel hanes a rhagymadrodd' (traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Bangor, 2006), t. 96. Mae'r traethawd hwn yn cynnwys y nofel *Dygwyl Eneidiau* a enillodd Wobr Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Abertawe 2006, ac a gyhoeddwyd yr un flwyddyn gan Wasg Gwynedd o dan yr enw Gwen Pritchard Jones.

⁷¹ Dafydd Ifans, 'Nofelau Hanesyddol fel Llenyddiaeth', yn J. E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol IX* (Dinbych: Gwasg Gee, 1976), tt. 308-309.

4 PEN Y DAITH

4.1 Y camau olaf

Ym mis Medi 2014, addunedais i mi fy hun y byddwn yn anelu at gwblhau'r nofel erbyn diwedd Tachwedd. Roedd rheswm penodol am hynny. Ar ddechrau'r prosiect, un o'r nodau a osodais oedd ysgrifennu nofel y byddai darllenwyr yn cael blas arni, ac roeddwn yn awyddus i brofi a oeddwn wedi llwyddo yn hynny o beth. Y flwyddyn ganlynol, ym mis Awst 2015, cynhelid yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod, ac roedd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno nofel hir i gystadleuaeth Gwobr Goffa Daniel Owen ar 1 Rhagfyr 2014. Pe llwyddwn i orffen y nofel erbyn hynny, a'i chyflwyno, byddai'n gyfle imi gael beirniadaeth ddiuedd, o dan ffugenw, ac awgrym a oedd y nofel yn cyrraedd y nod penodol hwn. Fan lleiaf, byddai'r dyddiad targed yn hwb i'r ysgrifennu.

Fel y soniais yn adran 1.10, cawsai'r penodau a ysgrifennais hyd yma eu creu yn ôl y golygfeydd a ddeuai'n fwy naturiol imi ar y pryd o safbwynt creadigrwydd. Y dychymyg oedd yn rheoli'r ysgrifennu yn hytrach nag unrhyw gynllun pendant. Golygai hynny nad oedd trefn gronolegol i'r nofel ac roedd bylchau mawr rhwng pennod a phennod. Ddechrau mis Hydref 2014, er mwyn cael trefn ar bethau, lluniais grynodedb byr o'r nofel fesul pennod. Gallwn weld yn glir wedyn beth oedd wedi'i wneud, beth oedd eto i'w wneud, a beth oedd angen ei newid. Ar ôl creu penodau newydd, neu symud penodau, byddwn yn diweddarau'r crynodeb, a bu hynny'n allweddol i symud y nofel yn ei blaen. Cafodd ambell bennod ei symud nifer o weithiau, er mwyn sicrhau amrywiaeth ac i gynnal diddordeb yn y stori. Yr oedd yn bwysig i mi, er enghraifft, fod pennod 32 yn dilyn y twyll y cyfeirir ato ym mhennod 31, ac yn arwain at yr olygfa am Josh a Martha ym mhennod 33 ac yn awgrymu gwir natur cymeriad Josh. Erbyn diwedd mis Tachwedd, cawsai'r crynodeb ei ddiweddarau ddeuddeg o weithiau.

Yn y cyfnod hwn hefyd bu'r calendr bach a oedd gennyf o'r flwyddyn 2012, y cyfeiriais ato yn adran 1.15, yr un mor allweddol â'r crynodeb. Roeddwn eisoes wedi nodi cerrig milltir y nofel ynddo a chyfeiriais ato droeon. Yr oedd yn bwysig fod y nofel yn gweithio'n amseryddol a'm bod yn gwybod at ba adeg a dyddiad a digwyddiad y

cyfeiriwn wrth gynnwys ymadroddion megis ‘chwe wythnos yn ôl’, ‘noson o Fai’, a’r amser y gwelwyd car James Wright yn y garej yng Nghaerfyrddin.

Gan fod y gwaith caib a rhaw eisoes wedi’i wneud o ran yr ymchwil a’r broses ymenyddol, cwblhau’r gwaith ysgrifennu yn unig oedd yn weddill. Gyda chymorth fy nodiadau, fy nghrynodeb a’ m calendr ysgrifennais draean y nofel yn y deufis rhwng diwedd Medi 2014 a dyddiad cau cystadleuaeth Gwbr Goffa Daniel Owen ar 1 Rhagfyr. Ychydig a feddyliais y byddwn yn cael galwad ffôn gan Drefnydd yr Eisteddfod ddechrau Ebrill 2015 yn fy hysbysu fod *Petalau*, fel y’i gelwid bryd hynny, wedi dod i’r brig.

4.2 Cyhoeddi

A’r nofel bellach wedi ennill un o brif wobrau’r Eisteddfod Genedlaethol, y cam nesaf oedd ei chyhoeddi erbyn dechrau Awst 2015, a hynny o fewn amserlen dynn. Ynghanol y cyffro a’r balcher o ennill roedd gennyf deimladau cymysg o safbwynt y prosiect. Ar y naill law, roedd y cyfle i gyhoeddi yn fwy nag y gallwn fod wedi’i rag-weld pan gyflwynais y nofel i gael beirniadaeth. Golygai hynny y gallwn bellach gywain barn amrywiaeth ehangach o bobl, a oedd yn beth cadarnhaol iawn o safbwynt mesur i ba raddau y cyrhaeddais y nodau a osodais i mi fy hun. Ar y llaw arall, gwyddwn fod cyhoeddwr ambell dro yn awgrymu newidiadau sylweddol i gynnyrch cyn ei gyhoeddi. I ba raddau, felly, y byddai gennyf yr un rheolaeth dros ffurf a chynnwys fy nofel? A oedd awenau fy mhrosiect PhD mewn perygl o gael eu cymryd oddi arnaf yn ystod y broses gyhoeddi?

Rhwng dechrau mis Mai a chanol mis Gorffennaf, bu sawl cyfarfod adeiladol rhyngof a staff y Lolfa. Pwysleisiodd y golygydd creadigol a’r golygydd copi nad oedd y beirniaid wedi argymhell unrhyw newid i’r nofel. Nid oeddynt hwythau ychwaith yn rhag-weld y byddai angen newid braidd ddim ar y cynnwys gwreiddiol. Sylwadau cadarnhaol, felly, ac roeddwn innau’n teimlo’n llawer hapusach.

Ar wahân i’r manion teipograffig arferol, o’r prif bethau yr oeddynt yn awyddus i’w newid roedd dau ohonynt yn ymwneud â diwyg. Un o’r rheini oedd sut orau i ddangos

tafodiaith Maldwyn mewn print, fel y soniais eisoes yn adran 3.2. Y llall oedd y penodau italig a ddefnyddiais er mwyn dangos y newid yng nghyfnod y nofel. Gwnaeth y golygydd creadigol bwynt diddorol am y rheini, sef bod darnau hir o deipograffi italig yn gallu peri anhawster penodol i ddarllenwyr sydd â dyslecsia. Ar gyfer y fersiwn gyhoeddedig, felly, cytunais i newid y darnau italig yn fath arall o deipograffi, ar yr amod nad oedd golwg ‘fodern’ iddo. Bu cryn arbrofi gyda hyn, ond pan welais y penodau ‘italig’ ar eu ffurf derfynol, a’r teipograffi hynafol yr olwg a ddefnyddiwyd ar eu cyfer, cefais fy mhlesio’n arw.

Yn bersonol, pan gyflwynais y nofel ar gyfer y gystadleuaeth, teimlwn fod y disgrifiad o’r briodas ym mhennod 8 yn wan, yn enwedig araith Rhodri, y gwas priodas. Gwyddwn yn reddfoll, ar ôl ei hailddarllen gogyfer â’r broses gyhoeddi, nad oedd yn gweithio. Ategwyd hynny gan y golygydd creadigol. Nid oedd gwir bwrpas i’r araith, ond eto roedd y bennod yn bwysig i osod Martha yn ei chynffwrdd. Penderfynais newid rhan sylweddol o’r araith er mwyn dangos cryfder cymeriad Martha, ei hagosatrwydd at ei ffrindiau, a’i gofal ohonynt.

Yn ystod y broses gyhoeddi, daeth i’r amlwg imi gadw fy nhrwyn mor glòs at y cynnyrch, fel na sylwais ar rywbeth a oedd yn amlwg i’r golygyddion o’r dechrau’n deg. Roedd gormod o’r cymeriadau yn dechrau â’r llythyren ‘M’: Margaret, Martha, Mwffin (y ci), Marc (cyn-wr Martha), Magi (un o ffrindiau Martha), Meri (y butain), a minnau hefyd, awdur y nofel. Ni allwn gredu fy mod heb sylwi! Felly, er mwyn lliniaru hynny, ailfeddyddiwyd Mwffin yn Pep, Marc yn Neil, a Magi yn Cêt.

Y newid pennaf, ac amlycaf, fodd bynnag fu newid teitl y nofel. *Petalau* oedd ei theitl gwreiddiol. Teimlai’r cyhoeddwr yn gryf nad oedd y teitl *Petalau* yn gweddu i’r *genre* nofelau dirgelwch. Teimlent ei bod yn bwysig bod teitl yn cyfleu naws a chynnwys llyfr, ac nad oedd ‘petalau’ yn gwneud hynny, gan ei fod yn deitl rhy feddal i’r math o nofel oedd hi. Roeddwn innau, yn fwriadol, wedi dewis teitl ‘meddal’ yn rhannol er mwyn chwarae â disgwyliadau’r darllenydd, i geisio creu – a dyfynnu geiriau Aled Islwyn yn ei adolygiad ohoni yn ddiweddarach – ‘stori gyda dwrn dur o fewn ei maneg

feddal', ond yn bennaf am fod gennyf resymau dilys, a phenodol iawn.⁷² 'Petalau' oedd y llinyn a oedd yn lapio'r cyfan yn dynn.

Roedd 'petalau', er enghraifft, yn rhan o'r dyfyniad o awdl Einion Evans a ddewisais yn epigraff ar gyfer y nofel:

Yn y tawelwch bydd i'r petalau
Eu llond o siarad lle nid oes eiriau.⁷³

Roedd 'petalau' yn gyfeiriad at rosynnau Rhisiart III a lluoedd Efrog, a Harri Tudur a lluoedd Lancastr; roedd rhosyn yn rhan amlwg o brif symbol y Rhosgroesiaid, ac i gael mynediad i'r twnnel drwy'r adwy ddychmygol yn wal Eglwys y Santes Fair, Dinbych-y-pysgod, roedd angen pwyso saith petal yn eu trefn. Heblaw hynny, roedd yn y nofel gyfeiriadau cynnil at rosynnau. Yn eglwys Llanwrin yr oedd priodas Emma, a chyfeirir at y ffenestr liw sydd yno ac arni arwyddlun y 'rhos ar yr haul', a oedd yn arwyddlun a fabwysiadodd Edward VI ar ôl Brwydr Mortimer's Cross. Honno oedd y frwydr a arweiniodd at ddienyddio Owain, taid Harri Tudur. Yn nes ymlaen, cyfeirir at Robert Recorde; roedd ei fam, Rose, yn hanu o Fachynlleth. Yn y twneli, cyfeiriodd Seimon at W. B. Yeats, a ysgrifennodd gyfres o gerddi o dan y teitl 'The Rose'.⁷⁴ Cymharodd Seimon y broses o ddysgu i betalau rhosyn yn agor yn eu tro, a dyna'r broses yr oedd Martha a'r darlennydd yn mynd drwyddi i gael at y gwir. Yr oedd y petalau'n 'siarad'.

Yn ôl y cyhoeddwyr, roedd yn bwysig i'r diwydiant llyfrau, gan gynnwys y siopau a'r Cyngor Llyfrau, gael teitl a gydiai'n fasnachol, ac roeddent yn gryf o'r farn y byddai'r teitl, fel yr oedd, yn effeithio ar werthiant y gyfrol. Eu bwriad hwy, wrth newid y teitl, oedd cynyddu apêl y nofel fwy fyth a darparu clawr a oedd yn gwneud cyfiawnder â'r testun. Digon teg. Roeddwn innau, wrth gwrs, am sicrhau gwerthiant uchel, ond teimlwn fod y rhesymau llenyddol a oedd gennyf dros gadw'r teitl yr un mor gryf.

Hon oedd fy nofel wreiddiol gyntaf, ac o'r herwydd nid oedd gennyf brofiadau blaenorol yn gefn imi am y farchnad lyfrau. Plygais, yn y diwedd, ac ar ôl trafodaethau lu, i ddealltwriaeth lawer helaethach y cyhoeddwyr, a chynigiais ddau deitl posibl

⁷² Aled Islwyn, 'Tonfeddi bywyd yn y wlad a'r ddinas', *Barn*, Medi 2015, t. 29.

⁷³ Einion Evans, 'Ynys', yn T.M. Bassett (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Ynys Môn 1983* (Llandysul: Gwasg Gomer ar ran Llys yr Eisteddfod Genedlaethol 1983), t. 10.

⁷⁴ 'The Rose', yn W.B. Yeats, *Poems* (London: Unwin, 1901), t. 111-48.

newydd, sef 'Veritas' ac 'O'r Pridd'. O'r ddau, 'Veritas' oedd fy ffefryn, oherwydd ei fod yn rhan o ffugenw taid Martha, *vires veritas*, ac oherwydd y gallai gyfeirio, nid dim ond at y gwirionedd y ceisiai Martha ei ganfod, ond hefyd at dasg a osodais i'r darllynydd o ganfod y gwirionedd y tu hwnt i'r gwirionedd y chwilir amdano.

Bu'r broses gyhoeddi yn fuddiol ar sawl ystyr. O'm hochr i, bu'n gyfle imi newid ambell beth a oedd yn fy mhryderu. O ochr y cyhoeddwyr, tynnwyd fy sylw at fân bethau nad oeddwn wedi eu gweld, er enghraifft, nifer y cymeriadau yr oedd eu henwau yn dechrau ag 'M'. Nid oedd y pethau hyn yn effeithio ar y plot na'r stori, nac ar ei dweud, ac fe ellid yn hawdd bod wedi'i chyhoeddi heb eu newid, ond roedd eu newid yn ychwanegu at ddilysrwydd y byd dychmygol yr oeddwn wedi'i greu. Do, bu'n rhaid cyfaddawdu gydag ambell beth, yn enwedig y teitl, ond roeddwn i fy hun yn fodlon â'r cyfaddawd a wnaed, fel yr esbonnir uchod.

5 DERBYNIAD

5.1 Gwerthiant

Y nodau a osodais i mi fy hun ar ddechrau'r prosiect PhD oedd ceisio creu stori dda ac iddi blot cryf, stori y byddwn i fy hun, fel darllenydd, yn ei mwynhau. Byddai naws Gymreig iddi a rhannau ohoni'n seiliedig ar hanes. Hyd nes imi anfon y nofel i'r Eisteddfod Genedlaethol, nid oedd neb, ddim hyd yn oed fy nghyfarwyddwr ymchwil, wedi'i darllen ar ei hyd ar wahân i mi fy hun. Sut oedd gwybod felly i ba raddau y bodlonais y nodau hynny? Roedd cyhoeddi'r nofel yn gyfle heb ei ail i fesur a oedd y nofel yn sefyll neu'n syrthio o ran y nodau hynny.

Ar 4 Awst 2015, cyhoeddwyd mai *Veritas* oedd yn fuddugol yng nghystadlaeth Gwobr Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Maldwyn a'r Gororau. Yr oedd ar werth o'r diwrnod hwnnw ymlaen.

Erbyn diwedd Medi, dim ond 23 copi o'r argraffiad cyntaf o 2,700 a oedd yn weddill. Nos Wener, 6 Tachwedd 2015, lanswyd ail argraffiad o'r nofel yng Nghaerdydd. Yr oedd yn ail i'r *Cyfansoddiadau* ar restr gwerthwyr gorau Gwales ym mis Awst 2015, ac yn dal ei thir yn y tri uchaf ym mis Medi. Ar 10 Hydref roedd ar frig rhestr Amazon o'r e-lyfrau Cymraeg sy'n gwerthu orau, ac roedd yn gyson yn neg uchaf y rhestr honno am weddill y flwyddyn. Roedd *Veritas* yn drydydd yn neg uchaf 2015 ar siartiau gwerthiant siop Palas Print yng Nghaernarfon. Ym mis Chwefror 2016, darlledwyd crynodeb dyddiol o *Veritas* gan Siân James ar Radio Cymru, a bu hynny'n hwb pellach i'r gwerthiant.⁷⁵ Adeg ysgrifennu'r traethawd hwn, mis Ebrill 2016, roedd yn dal i werthu ar brint ac fel e-lyfr, ond heb yr un bwrlwm cychwynnol, wrth reswm.

Hyd yn oed a chymryd bod nofelau arobryn yr Eisteddfod Genedlaethol, ar y cyfan, yn gwerthu'n dda (cyfartaledd y cyfnod rhwng 2009/10 a 2013/14 ar gyfer y nofelau a enillodd Gwobr Goffa Daniel Owen oedd 2500, a'r Fedal Ryddiaith ychydig yn llai na hynny),⁷⁶ mae gwerthiant *Veritas* wedi bod yn arbennig. Pe dibynnid ar y ffigurau gwerthiant yn unig, gellid tybio ei bod yn nofel hynod boblogaidd, sy'n awgrymu bod y

⁷⁵ 'Llyfr bob Wythnos', *Bore Cothi*, Radio Cymru, 1–5 Chwefror 2016.

⁷⁶ Ffigurau Cyngor Llyfrau Cymru, ym meddiant yr awdur.

nod a osodais i mi fy hun o ysgrifennu stori y byddai darllenwyr yn cael blas arni wedi'i gyrraedd.

Ond nid yw'r ffigurau gwerthiant bob tro yn arwydd o safon nofel a barn pobl amdani; gall marchnata da hybu gwerthiant. Buddiol, felly, fel llinyn i fesur pa mor llwyddiannus y bu'r nofel, yn enwedig o ran y nodau a osodais i mi fy hun fyddai archwilio sylwadau'r tri a oedd yn beirniadu cystadleuaeth Gwobr Goffa Daniel Owen, y derbyniad a gafodd y nofel yn y wasg a'r cyfryngau, a sylwadau personol a gefais amdani.⁷⁷

5.2 Sylwadau

Roedd y tri beirniad yn hael eu canmoliaeth i'r nofel, er bod Dewi Prysor yn ffafrio gwaith nofelydd arall am y wobr.⁷⁸ Yn ôl Angharad Price, roedd hon yn 'nofel ddirgelwch ddarllenadwy, dda',⁷⁹ ac roedd Robat Arwyn a Dewi Prysor yn ei chymharu â gwaith Dan Brown, *The Da Vinci Code* (2003). Teimlai Robat Arwyn fod y nofel wedi gwneud iddo anghofio ei fod yn feirniad mewn cystadleuaeth, gan ei chymharu hefyd â nofelau antur T. Llew Jones. Yr oedd o'r farn bod 'llinyn storïol cryf' yn y nofel 'i hawlio'r sylw a chynnal diddordeb'.⁸⁰

Yr oedd gennyf ddiddordeb penodol, yng nghyd-destun y drafodaeth a gefais â mi fy hun a'r cyhoeddwyr ynghylch cofnodi'r dafodiaith (gweler adran 3.2), ac i ba raddau y gellid 'clywed' yr acen wrth ddarllen. Yn ei feirniadaeth, roedd Dewi Prysor yn croesawu 'acen fwyn Sir Drefaldwyn',⁸¹ a gallai Dylan Iorwerth, yn ôl yr hyn a ddywedodd yn ei golofn Gymraeg, ei chlywed yn glir:

⁷⁷ 'Beirniadaeth Gwobr Goffa Daniel Owen', yn J. Elwyn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Maldwyn a'r Gororau 2015* (Llandysul: Gwasg Gomer ar ran Llys yr Eisteddfod Genedlaethol, 2015), tt. 109-18.

⁷⁸ Cyhoeddwyd y nofel honno ym mis Ebrill 2016; gweler Dyfed Edwards, *Iddew* (Caernarfon: Gwasg y Bwthyn, 2016).

⁷⁹ 'Beirniadaeth Gwobr Goffa Daniel Owen' yn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Maldwyn a'r Gororau 2015*, t. 114

⁸⁰ Ibid. t.111

⁸¹ Ibid. t.118

...mae clywed tafodiaith Dyffryn Dyfi yn y sgwrsio yn bleser prin, nid dim ond ambell i air ond y rhythmau siarad a'r drefn eiriau sydd...yn gweddu i ddelwedd 'fwyn' y bobol a'r golygfeydd.⁸²

Roedd Angharad Price wedi hoffi'r elfen dafodieithol yn fawr, a chan gyfeirio at yr amrywiaeth o dafodieithoedd yn y nofel dywedodd y byddai wedi hoffi gweld y 'naws *leol* yn cael ei chryfhau'.⁸³ I'r gwrthwyneb, roedd Elfyn Pritchard wedi cael 'anhawster gyda'r dafodiaith...neu'n hytrach y modd y cofnodwyd hi'. Credai mai iaith i'w siarad nid iaith i'w hysgrifennu yw tafodiaith, ac mai 'awgrym yn unig sydd ei angen wrth ei chofnodi'.⁸⁴ Yr oedd yn adleisio fy mhenbleth i fy hun ynghylch sut i gofnodi'r dafodiaith. 'Os mai "bech" a ddywedir ac nid "bach", ai fel "bech" y dylid ei gofnodi, ynteu a fyddai gwybod mai "iaith Maldwyn" a siaredir gan y cymeriad yn ddigon?'⁸⁵ Roedd Dafydd Morgan Lewis yn gwerthfawrogi'r defnydd o'r dafodiaith, ond hefyd yn deall yr anhawster a wynebwn wrth geisio'i chofnodi: '...fe fyddai brodorion y Sir yn ymfalchïo ymhellach yn y defnydd a wneir yn y nofel o dafodiaith Maldwyn, er nad dyna'r hawsaf o dafodieithoedd Cymru i'w chofnodi ar bapur'.⁸⁶

Yr oeddwn, yn fwriadol, wedi peidio â gorlwytho'r nofel â thafodiaith, rhag i'w darllen fynd yn dreth, ac roedd Dafydd Morgan Lewis yn canmol hynny:

Nid yw Mari Lisa, diolch am hynny, yn mynd dros ben llestri wrth ei defnyddio chwaith. Mae ambell awgrym cynnil yn ddigon.⁸⁷

Yr oedd canmoliaeth i ddeialog y nofel yn gyffredinol, a dywedodd Dewi Prysor ei bod yn 'ddifyr, ffres a naturiol dros ben'.⁸⁸

Roedd yr arddull hefyd yn plesio, ac yn ôl Elfyn Pritchard, doedd hi ddim 'yn tynnu sylw ati'i hun'.⁸⁹ Ategwyd hynny gan Aled Islwyn:

⁸² Dylan Iorwerth, 'Y Golofn Gymraeg', *Western Mail*, 6 Awst 2015, t. 27.

⁸³ 'Beirniadaeth Gwobr Goffa Daniel Owen' yn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Maldwyn a'r Gororau 2015*, t. 114

⁸⁴ Pritchard, adolygiad o *Veritas* oddi ar <www.gwales.com>.

⁸⁵ Ibid.

⁸⁶ Dafydd Morgan Lewis, 'Gwobr Goffa Daniel Owen – Adolygiad', *Golwg* 27/48, (13 Awst 2015), t. 20

⁸⁷ Ibid.

⁸⁸ 'Beirniadaeth Gwobr Goffa Daniel Owen' yn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Maldwyn a'r Gororau 2015*, t. 118.

⁸⁹ Pritchard, adolygiad o *Veritas* oddi ar <www.gwales.com>.

O'i chychwyn, llifa'r arddull yn rhwydd. Nid yw'n ffurfiol nac yn ffansi, ac eto does dim byd ffwrdd â hi amdani ychwaith. Yna'n sydyn ar adegau tyngedfennol, bron na ellir teimlo meistrolaeth yr awdur ar gynildeb yn cymryd drosodd gan hoelio sylw'r darlennydd, rhag iddo golli dim ar densiwn ambell olygfa ddirdynol.⁹⁰

Teimlai Dylan Iorwerth fy mod wedi ysgrifennu *Veritas* mewn arddull debyg i Gareth F. Williams, enillydd Llyfr y Flwyddyn 2015, sef 'mewn ffordd sy'n gadael i'r stori wneud y gwaith'.⁹¹

Roedd Dewi Prysor a Robat Arwyn ill dau o'r farn fod y cymeriadau'n 'grwn'. Ychwanegodd Dewi Prysor eu bod yn 'gryf a diddorol'⁹² ac roedd Robat Arwyn yn teimlo eu bod yn gofiadwy.⁹³ Ond doedd Dafydd Morgan Lewis ddim 'yn rhy siŵr o hynny', er bod Martha a Josh 'yn sicr yn aros yn y cof', ac aeth rhagddo i ddweud bod llw o gymeriadau eraill ac nad oes 'galw ar i bob un ohonynt fod yn gofiadwy' am mai stori antur yw hi.⁹⁴ Fel y soniais yn adran 2.1, cwrdd 'wrth basio' a wnawn â chymeriadau llai y nofel, ac roedd pwrpas penodol i hynny. Soniodd Aled Islwyn am 'agosatrydd cynnes llawer o'r cymeriadau'.⁹⁵

Yr oedd y sylw a wnaed am yr agweddau hanesyddol yn gadarnhaol, ac yn cyfiawnhau'r gwaith ymchwil arnynt, er nad nofel hanesyddol mohoni. Yn ôl Dafydd Morgan Lewis:

Mae gafael yr awdur ar ffeithiau hanesyddol yn gwbl gadarn, ac mae hynny'n hanfodol i lwyddiant y nofel.⁹⁶

Aeth Aled Islwyn gam ymhellach:

Mae hi...yn nofel gyfoes sy'n cymryd rhai o benawdau newyddion y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf a'u troi'n ddŵr i'w melin ei hun. Yn y llinyn storiol sy'n rhedeg drwyddi, gwelir ôl ymchwil fanwl.⁹⁷

⁹⁰ Islwyn, *Barn*, Medi 2015, t. 29.

⁹¹ Iorwerth, *Western Mail*, 6 Awst 2015, t. 27.

⁹² 'Beirmiadaeth Gwobr Goffa Daniel Owen' yn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Maldwyn a'r Gororau 2015*, t. 118.

⁹³ *Ibid.* t.111

⁹⁴ Lewis, *Golwg* 27/48, (13 Awst 2015), t. 20.

⁹⁵ Islwyn, *Barn*, Medi 2015, t. 29.

⁹⁶ Lewis, *Golwg* 27/48, (13 Awst 2015), t. 20.

⁹⁷ Islwyn, *Barn*, Medi 2015, t. 29.

‘Nofel ryfeddol’ oedd disgrifiad yr Athro Gareth Ffowc Roberts ohoni ar ei gyfrif Twitter, ac ysgrifennodd ataf yn bersonol i ddweud iddo gael pleser o weld y cyfeiriadau at fywyd a gwaith Robert Recorde yn y nofel.

O ran plot y nofel, roedd Dewi Prysor yn ei feirniadaeth yn cyfeirio ati fel nofel ‘amlhaenog a chyffrous’ a nofel ‘ddiogel’.⁹⁸ Yr oedd sawl un yn teimlo, fel Robot Arwyn, fod gwendid yn y modd y ‘mae’r awdur yn datgelu’r gyfrinach ac yn cau pen y mwdwl wrth ddod at ddiwedd ei stori’.⁹⁹ Yr oedd Elfyn Pritchard hefyd yn un o’r rheini ac wedi cael ‘peth anhawster gyda’r datrysiad ar y diwedd’.¹⁰⁰ Felly hefyd Aled Islwyn, ond doedd hynny ddim, meddai ef, ‘yn mennu dim ar bleser y darllen’.¹⁰¹

Yr oeddwn wedi defnyddio penodau byrion i bwrpas, ac amrywio eu hyd o dro i dro, er mwyn cynnal momentwm y stori, ac roedd hynny’n ‘gryfder’ yn ôl Dafydd Morgan Lewis.¹⁰² Yn ôl Robot Arwyn, doedd y ‘nofel byth yn aros yn llonydd: roedd yn anodd ei rhoi i lawr, ac ar ddiwedd pob pennod ro’n i’n awchu i symud ’mlaen i’r nesa...’¹⁰³ Yr oedd hynny’n ‘gorfodi’r darllenydd i droi’r tudalennau a darllen ymlaen’, meddai Elfyn Pritchard.¹⁰⁴ Roedd Aled Islwyn yn awyddus i ‘droi’r tudalennau cyn gynted â phosibl, er mwyn gweld beth ddigwyddai nesaf’.¹⁰⁵ Yr oedd ‘methu â rhoi’r nofel i lawr’ yn fyrdwn cyson yn y sylwadau llafar a gefais, ac roedd ambell un wedi’i darllen ar un eisteddiad, neu wedi aros ar ddihun hyd yr oriau mân er mwyn cyrraedd y gair olaf un.

Mae’r awch a deimlai darllenydd i barhau i ddarllen yn awgrymu bod y stori’n un dda. Roedd Gwynfryn Hughes yn dweud mai dyma’r llyfr Cymraeg gorau iddo’i ddarllen ers sbel.¹⁰⁶ ‘Chwip o stori’, oedd barn Bethan Mair ar Twitter.¹⁰⁷ Fel y soniais yn adran 1,

⁹⁸ ‘Beirniadaeth Gwobr Goffa Daniel Owen’ yn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Maldwyn a’r Gororau 2015*, t. 118.

⁹⁹ Ibid. t. 111.

¹⁰⁰ Pritchard, adolygiad o *Veritas* oddi ar <www.gwales.com>.

¹⁰¹ Islwyn, *Barn*, Medi 2015, t. 30.

¹⁰² Lewis, *Golwg* 27/48, (13 Awst 2015), t. 20.

¹⁰³ ‘Beirniadaeth Gwobr Goffa Daniel Owen’ yn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Maldwyn a’r Gororau 2015*, t. 111.

¹⁰⁴ Pritchard, adolygiad o *Veritas* oddi ar <www.gwales.com>.

¹⁰⁵ Islwyn, *Barn*, Medi 2015, t. 30.

¹⁰⁶ Cyfrif Twitter Gwynfryn Hughes, 21 Ionawr 2016.

¹⁰⁷ Cyfrif Twitter Bethan Mair, 12 Awst 2015.

roedd hynny'n bwysig i mi. Roedd Elfyn Pritchard yn cytuno fod yma stori dda. Ategir hynny gan eiriau Dylan Iorwerth:

...mae'r stori ... gan Mari Lisa yn cydio'n dynn oherwydd ei bod hi'n cyflawni'r gamp anodd ofnadwy o ddweud stori dda yn syml.¹⁰⁸

Yn dawel fach, fy ngobaith os oedd y stori'n un dda, oedd y byddai'n denu darllenwyr newydd i'r *genre* yn Gymraeg. Credai Dylan Iorwerth y byddai'n llwyddo yn hynny o beth:

...efo'i chymysgedd o hen ddirgelwch a digwyddiadau modern...mi ddylai gyrraedd ymhellach na'r darllenwyr ffyddlon arferol.¹⁰⁹

Dywedodd Dyfed Edwards fod *The Da Vinci Code*, wedi 'annog llawer un nad oedd wedi darllen llyfr ers blynyddoedd i fynd ati eto, ac os bydd *Veritas* yn gwneud yr un peth, gwych'.¹¹⁰ Cefais negeseuon personol a oedd yn awgrymu bod y nofel yn apelio at ystod oedran eang. Yr oedd un wraig 92 oed 'wedi ei fwynhau'n arw', ac roedd aelod o Glwb Darllen Parc Sgeti, lle bŵm yn trafod y nofel ddiwedd 2015, wedi llwyddo i gael ei mab 14 oed nad oedd 'fyth yn darllen Cymraeg' i ddarllen *Veritas*, a chael blas arni. Roedd ambell un nad oeddent yn darllen nofelau dirgelwch neu drosedd fel arfer wedi'i darllen ac wedi'i mwynhau'n fawr. Yr oedd eraill, fel finnau, wrth eu boddau â nofelau dirgelwch yn gyffredinol, gan gynnwys nofelau Dan Brown, ac yn teimlo bod *Veritas* yn 'bopeth' yr oedden nhw'n eu hoffi mewn nofelau. Honnodd Llŷr Gilmour Jones ar Twitter fod *Veritas* yn 'gosod sylfaen ar gyfer genre newydd yn y Gymraeg'.¹¹¹

Gan ystyried fy sylwadau yn adran gyntaf y traethawd hwn, rwyf am gloi gyda sylw Elfyn Pritchard:

Pob clod i Mari Lisa am roi'r darlennydd yn gyntaf.¹¹²

¹⁰⁸ Iorwerth, *Western Mail*, 6 Awst 2015, t. 27.

¹⁰⁹ Ibid.

¹¹⁰ Dyfed Edwards, 'Veritas – annog darllenwyr', *Golwg*, 28/23 (18 Chwefror 2016), t. 21.

¹¹¹ Cyfrif Twitter Llŷr Gilmour Jones, 31 Rhagfyr 2015.

¹¹² Pritchard, adolygiad o *Veritas* oddi ar <www.gwales.com>.

6 CASGLIAD

Yn y traethawd hwn, dangosais mor bwysig oedd stori dda a phlot cryf i mi a'm dymuniad i ysgrifennu nofel y byddwn i, ac eraill, yn mwynhau ei darllen. Ni allwn fod wedi rhag-weld ar ddechrau'r prosiect y cyfle arbennig a ddeuai i'm rhan i brofi i ba raddau y cyrhaeddais fy nodau a thrwy hynny brofi fy thesis. Dangosodd y derbyniad a gafodd y nofel gyhoeddedig imi lwyddo, a bod galw am nofelau fel hyn yn ein llenyddiaeth. Dangosais fod lle hefyd i dafodiaith Maldwyn, a bod gwerthfawrogiad o hynny, er bod amrywiaeth barn o hyd ynghylch sut orau i'w chofnodi mewn print.

Mae *Veritas* yn adlewyrchu'r *genre* o nofelau yr wyf yn mwynhau eu darllen. Gan mai nofel ddirgelwch ydyw, y plot ddaeth flaenaf a dim ond wedyn y datblygodd y cymeriadau. Yn hynny o beth, bu'r gwaith ymenyddol mwyaf o ddigon ar ddatrys cymhlethodau'r plot. Er fy mod yn gwybod yn fras ymhle y dechreuai'r nofel ac ymhle y gorffennai, nid oedd gennyf gynllun manwl. Datblygodd hwnnw ochr yn ochr â'r gwaith ysgrifennu ei hun.

The ordering of events, the conflicts, motives, themes and resolutions may not yet be apparent in the draft stages. In this way the plot is part of the process of writing. It is something we find in the activity itself.¹¹³

Law yn llaw â hynny, gwnaed gwaith sylweddol ar brofi damcaniaethau ac ar osod y nofel ar seiliau hanesyddol cadarn. Er na chafodd y gwaith ymchwil cychwynnol a wnes ran fawr yn y nofel orffenedig, arweiniodd yn anuniongyrchol at y syniad ar ei chyfer. Roedd y gwaith ymchwil dilynol, a barhaodd o'r bron drwy'r holl broses o ysgrifennu'r nofel, yn hollbwysig. Er mai ysgrifennu nofel ddirgelwch oedd fy mwriad, yr oedd y gwaith ymchwil bron cymaint, os nad cymaint â phetawn yn ysgrifennu nofel hanesyddol. Ond roedd y defnydd a wnes o'r ymchwil honno'n wahanol. Portreadu'i gyfnod mor driw â phosibl y mae'r nofelydd hanesyddol, gan ddefnyddio disgrifiadau manwl gywir, megis yng ngwaith Hilary Mantel, *Wolf Hall* (2009). Yn fy achos i, a'r nofel ddirgelwch, ychydig o amlygrwydd a roddais i ffrwyth yr ymchwil hanesyddol yn y nofel ei hun, a hynny'n fwriadol. Ei swyddogaeth oedd ategu'r plot, rhoi hygredd

¹¹³ Ashley Stokes, 'Plotting a Novel', yn Bell a Magrs (gol.), *The Creative Writing Coursebook*, t. 207.

i'r stori a gwneud i'r darlennydd gwestiynu'r gwirionedd. Cymylu'r ffin rhwng y gwir a'r gau oedd fy nod yn *Veritas*.

Heblaw'r agweddau hanesyddol a ddeilliodd o'm gwaith ymchwil, daeth *Veritas* dan ddylanwad materion cyfoes a newyddion y dydd na ellid bod wedi'u rhag-weld yn nyddiau cynnar y creu. Yn hyn o beth, bu'r penderfyniad i wneud y prosiect yn rhan-amser yn fanteisiol, yn yr ystyr bod hynny wedi rhoi amser i'r nofel aeddfedu. Cafodd y ffactorau allanol hyn ddylanwad pwysig ar y nofel. Maent yn rhoi gwraidd iddi, ac yn bethau y gallai darllenwyr uniaethu â nhw. Yn anad dim, maent yn dangos bod creu *Veritas* dros gyfnod gweddol hir wedi esgor ar waith tra gwahanol i'r un y byddwn wedi'i greu pe byddwn wedi ymroi i ysgrifennu o dan amodau amser caeth, er enghraifft fel rhan o gynllun comisiwn gwasg gyhoeddi.

Soniais yn y traethawd hwn am fy ngwaith ymchwil i'n gorffennol a dylanwad digwyddiadau'r presennol ar y nofel. Ychydig a wyddwn pan gyflwynais hi i gystadleuaeth Gwobr Goffa Daniel Owen ym mis Tachwedd 2014 fod rhan fach ohoni hefyd o flaen ei hamser. Ddechrau Rhagfyr 2014, a'r nofel orffenedig erbyn hynny yn eistedd yn swyddfa'r Eisteddfod Genedlaethol, tynnodd fy nghyfarwyddwr ymchwil fy sylw at y pennawd newyddion canlynol ar wefan y BBC: 'Richard III's DNA throws up infidelity surprise'.¹¹⁴ Canfu'r gwyddonwyr a oedd yn astudio deunydd genetig o'r ysgerbwdd a ddaeth i'r fei yng Nghaerlŷr wybodaeth syfrdanol, a ysgwydodd y mymryn lleiaf ar goron ein brenhines bresennol. Gallent olrhain y DNA ar ochr mam Rhisiart III yn ddi-fwlch, ond nid felly ochr y tad. Golygai hynny fod amheuaeth, nid dim ond ynghylch hawl Rhisiart III i goron Lloegr, ond hefyd ynghylch hawl Harri Tudur i'r goron honno.¹¹⁵ Yn *Veritas* mae Lewys yn cyfnewid yr Harri Tudur a anwyd i Margaret Beaufort am fabi arall nad oedd â chysylltiad â theulu brenhinol Lloegr.

Ymchwilio i hanes, defnyddio hanes, dychmygu hanes a hanes hefyd ynof i.

Rhyfedd o fyd.

¹¹⁴ 'Richard III's DNA throws up infidelity surprise', <<http://www.bbc.co.uk/news/science-environment-30281333>>; cyrchwyd Rhagfyr 2014.

¹¹⁵ Yn ôl rheolau Lloegr ar gyfer etifeddu'r Goron.

ATODIAD

Yn yr atodiad hwn, cynhwysir rhai gweithiau a luniwyd yn ystod y prosiect, ac sydd â chysylltiad agos ag ef. Cyfeirir atynt yng nghorff y traethawd.

Mae yma un gerdd, a thair stori fer.

Hydref 2012

Rhyw blygu i natur, drachefn a thrachefn,
wna dyn yn ei hanfod, a derbyn y drefn.

Gwargrymu'n gymuned dan gorwynt ein gwae
gan weld, bob yn damaid, ein dyddiau'n byrhau;

a phan ddaw yr hirlwm yn slei bach i'r clos
i ddiffodd y ddaear, i'n deffro i'r nos,

cynheurn babwyren, a'n hyder yn llwyr
yn nawns ei chysgodion, yn nagrau ei chwyr,

gan wybod i sicrwydd yn rhuddin ein bod
y byddai meirioli, a glesni, yn dod.

O dymor i dymor, o'r hedyn i'r yd,
bu amser a'i linydd yn gyson o hyd.

Ond yna daeth 'leni, a'i Hydref yn gri.
Ymestyn mae'r pellter rhwng Ebrill a ni.

Y Ddol Rwsiaidd

“Mae pawb yn marw, tydyn nhw, Taid?” gofynnais efo doethineb plentyn, wrth fynd am dro efo fo i’r cae bach. Roedd o’n mynd yno’n wythnosol i fesur faint o law oedd wedi disgyn.

“Ydyn, ’mach i, mae pawb yn marw.”

Mae dolydd y wlad wedi cael peth wmbredd o law ers y diwrnod hwnnw. Pedair oed oeddwn i bryd hynny. Rhyfedd fel mae meddyliau fel yna’n crisialu wrth i rywun heneiddio, ac yn crisialu mewn parti pen-blwydd o bob man. Parti sidêt. Parti pnawn. Dwi ddim hyd yn oed yn adnabod y boi sy’n cael y parti. Mêt Tony-Dau-Ddrws-i-Lawr ydy o, a hwnnw wedi cael gwahoddiad *plus one*. Fi ydi’r *plus one*.

Roeddwn i’n gwybod yn syth bin wedi i mi gerdded i mewn mai un o’r partiön hynny fyddai hwn. Fe wyddoch beth rwy’n ei feddwl. Llyncu poer. Gwenu. Magu plwc.

“Helo. Parti da yn tydi?”

Grŵp clòs o wydrau gwin yn agor fel y Môr Coch.

“Ym... ydi. Ffrind, ie?”

“Wel, a deud y gwir dŵad efo...” ond cyn i mi orffen roedd y llanw wedi troi ac yn dechrau llifo tuag at ddwyfron helaeth Miss Dewch ac Mi Gewch. Clywed dyrnaid ar y dde yn lambastio mewnfudwyr.

“... *to Britain from loadsa places. And do they speak English? No.*”

Gwenu. Triö eto.

“Ond be am bobol sy’n dod o Loegr i Gymru?”

Tri phâr o lygaid yn rhythu arna i am eiliad fel taswn i newydd sathru ar faw ffres. Er na ddywedodd neb air mi wyddwn o’r gorau beth oedd yn mynd drwy’u meddyliau gan fod eu llygaid, yn yr eiliad hir honno, wedi taflu tair rhes o is-deitlau tuag ata i.

“Pwy mae hon yn ei feddwl ydi hi?”

“*Not another native language hugger!*”

“Beth yffach mae hi’n ei wisgo?!”

Cochi. Llowcio hanner glasied o win yn rhy gyflym o lawer. Peswch...a pheswch.

“O diar...Esgusodwch fi”.

Mi wnes i roi’r ffidil yn y to wedyn a ffeindio cornel.

Newydd sodro fy hun fan' ma yr oeddwn i pan ddaeth y cameo bach yna am fynd am dro efo Taid ar sgrin fy nghof i. Mae Taid bellach yn mesur y glaw ar ddolydd glasach ers tro.

Dydy pethe ddim yn argoeli'n rhy dda arna inne chwaith. Dyna'r argraff ges i gan y doctor yr wythnos dwythfa. Rown i'n teimlo'n eitha'. Hynny yw, heblaw am y clogyn o flinder sydd wastad drosta i'r dyddie' yma, na fedra i mo'i ddiog. Ond mae hynna'n dŵad efo oed tydi? Ac ie, ôlreit, mi allwn i neud mwy o ymarfer corff. Ond doedd 'na'm byd i boeni amdano. Neu dyna oeddwn i'n ei ddeud wrtha'i fy hun, pan gerddais i mewn i'r syrjeri. Roedd Ms Eithriadol Bwysig yn edrych yn ddigon trwysur fel arfer.

“Dydi Doctor Wpadfa ddim yma heddiw. Rhaid i chi weld y *locum*,” medde hi fel taswn i'r niwsans mwya gerddodd y ddaear.

“Iawn,” meddwn i. “Pryd fydd Doctor Locwm ar gael?”

Dw i'n licio mynd i'r syrjeri. Mae'r lle'n llawn bron bob tro a hei lwc mi ga' i sgwrs efo rhywun, tase hynny ddim ond am golic neu bwysedd gwaed neu'r gowt. Ond doedd 'na mond un neu ddau yno'r diwrnod hwnnw - pawb â phethe' gwell i'w gwneud debyg – ac mi ges i alwad reit handi.

Wedi i mi ddweud sut roeddwn i ac wedi iddo fynte fynd drwy'i bethe, mi aeth i edrych yn fwy o feddyg. Pan fydd doctor yn troi'n feddyg rydech chi'n gwybod yn syth fod yna broblem.

“Dwi'n eich anfon chi am brawf gwaed, Miss Williams,” medde fo gan edrych arna i dros bont ei sbectol a gwasgu'i wefusau at ei gilydd fel tase fo'n sugno lemwn. Dyna pryd y deallais fod Rhywbeth Mawr o'i le.

Rhyngoch chi a fi a'r cyrtens yma, mae yna ddwy ohonon ni. Y Fi, y corff allanol yma, yr wyneb llwyd a'r geg fain sy'n trio dweud y pethe iawn, gwenu ar y pethe iawn, smalio diddordeb yn y pethe iawn, a Hi y Tu Mewn. Dwi'n giamstar ar wneud fy hun mor ddi-liw â phosib, ffitio i fewn, toddi i'r amgylchedd - galwch chi o be liciwch chi. Mae Hi y Tu Mewn yn fwy lliwgar o dipyn, ac fel babi'n cicio a strancio yn torri'i bol isio dod allan ohona i. Ond cheith hi ddim. Un swnllyd ar y naw ydi hi, yn ateb yn ôl bob cynnig. Er, cofiwch chi, mi aeth hi'n dawel iawn ar ôl gweld y doctor. Mi aeth hi i'w chragen, yn meddwl yn siŵr fod pawb yn gwybod a phawb yn sbio arni. Dwi, y Fi Tu Allan, yn trio bod yr un fath ag arfer, yn smalio bod pob dim yn iawn, ond dwi'n cario rhywbeth trwm y tu mewn i mi, yn fy nhynnu i lawr ac i lawr. Tase'r carped

melyn yma dan fy nhraed yn dywod, dwi'n siŵr y byddwn yn cael fy nhynnu drwyddo, a'r twll yn cau ar fy ôl fel taswn i erioed wedi bod.

Dwi isio dweud wrth rywun. Mi fyswn i'n licio closio i fyny at y Geg ar y sofffa draw fan'cw. Trefnu fy wyneb yn fasg addas, sibrawd yn ei chlust a dweud,

“Dwi'm yn dda wyddoch chi. Rhywbeth Mawr yn bod arna i. Peidiwch â deud wrth neb.”

Byddai'r Geg yn cymryd arni gydymdeimlo, yn holi'r cwestiynau iawn, a finne'n gwybod bod y sêd yn boeth odani. Mi fyswn i'n ei gwyllo hi wedyn yn rhwydweithio, ei chefn tuag ata i, a'r ymateb ar wyneb ei chynulleidfa yn siarad cyfrolau. Pawb yn rhyw giledrych arna i'n slei, fel tase nhw'n disgwyl gweld cyrn yn tyfu ar fy mhen i. O leia mi fysen nhw'n sylwi arna i, ac yn fy nabod i, petai dim ond fel 'Honna yn y Gornel efo'r Salwch Mawr'. Ond ddyweda i ddim. Does yna neb fysa isio gwybod. Ddim go-iawn.

A deud y gwir, falle bod yna fwy na dwy ohonon ni. Efallai nad fi'r ydi'r Un Tu Allan wedi'r cyfan. Falle bod yna un arall yn haen o'm cwmpas i, sy'n fy ngwneud yn anweledig. Mi fyddai hynny'n gwneud synnwyr. Mae pawb yn mynd o amgylch eu busnes, ac yn rhoi rhyw hanner gwên wrth basio – yr un fath â'r dyn moel yna rŵan. Rhyw wên giarn, fel tase fo'n synhwyro rhywbeth, ac yn penderfynu y byddai'n saffach iddo wenu na pheidio – jyst rhag ofn. Neb yn fy ngweld i, ac yn saff i chi ddim yn gweld Hi y Tu Mewn chwaith.

Cefais fy ysgwyd o'm mwydro gan sŵn ffôn symudol rhywun yn canu'n uchel yn rhywle. Yn canu ac yn canu. Dim ond pan welais fwy nag un yn troi i sbïo'n gas arna i y sylweddolais mai fy ffôn i oedd o.

“Ie..O!...ym...da iawn. Thanciw. Ta-ta.”

Y syrjeri oedd yna. Roedd canlyniadau'r profion gwaed wedi dod 'nôl. Mae Hi y Tu Mewn yn dechrau cicio eto ac yn sgrechian nerth ei phen

“Anemia! Anemia sy arnat ti! Yr hen het i ti - yn meddwl bod Rhywbeth Mawr yn bod arnat ti! Tabledi haearn ac mi fyddi'n iawn. Tyrd yn dy flaen, dawnsia! Dweda wrth rywun!”

Ond wna i ddim. Does yna neb fydde am wybod. Ddim go-iawn.

Cynefin

Roedd o yno heddiw eto. Gallai weld ei ben yn towcio o dro i dro wrth y ffenestr, fel gwylan ar don. Yno y buodd o ddoe, ac echdoe. Dyn a wŷr beth oedd o'n ei wneud yno heddiw, eto fyth. Fuodd hi ddim ar gyfyl y lle ers blynyddoedd, a gwyddai nad oedd croeso iddi yno ychwaith. Roedd neges y clo clap yn ddigon clir.

Pan gafodd y ddau gyfle i ymddeol yn gynnar o fewn blwyddyn neu ddwy i'w gilydd, roedd hi wedi dychmygu y byddai gweddill eu bywydau, os iach a heini, yn cynnwys ambell daith dramor, ambell fordaith, a sawl trip byrrach i fannau mwy lleol. Byddai hyd yn oed wedi setlo am garafán fach, un statig efallai, yn rhywle ar yr arfordir. Roedd hi wedi darllen rywbyrd bod rhywun wedi prynu hen goetsh trê, un o'r rhai moethus yna fel yr *Orient Express*, ac wedi'i haddasu'n llety bach reit handi. Yn y darlun a oedd ganddi yn ei phen, byddai yno stôf goed bitw a chyrrens gingam, ac ar y bwrdd byddai pot jam o fwtsias y gog a blodau ymenyn a llygad y dydd y byddai wedi eu hel wrth fynd am dro. Byddai'n ffrio madarch gwyllt i frecwast.

Aethai saith mlynedd heibio ers hynny. Ar ei ymddeoliad mi gafodd o docyn rhodd canolfan arddio, a gyda hwnnw a'i bres ei hun, mi brynodd sied. Yr unig dripiâu a gafodd hi oedd gwibdeithiau blynyddol y dybliw-ai. Doedd dim symud arno fo os nad oedd y trip yn un i sioe arddio neu i ganolfan arddio neu i ardd agored. Erbyn hyn doedd hi ddim yn mynd.

Ar yr ardd yr oedd y bai. Roedd hi wedi cael llond bol ar yr ardd. Teimlai weithiau pe byddai ganddo feistres, y gallai ymdopi'n well â hynny. O leiaf byddai'n rhannu'i amser rhwng y ddwy ohonyn nhw, ond roedd o'n byw ac yn bod gyda'i drilliw ar ddeg, a'i aselias, a'i ddrops cochion. Yn y gwanwyn, roedd o'n hau, yn potio ac yn tocio. Yn yr haf roedd o'n plannu, yn chwynnu, yn twtio'r gwelyau, yn torri'r lawnt. Gwae yr undyn byw a fentraï droedio glesni moethus honno. Unwaith, ar ddiwrnod neilltuol o braf, roedd hi wedi gosod arni ddwy gadair streipiog, fel rhai glan môr. Un iddi hi ac un iddo fo. Tra oedd hi yn y gegin yn hwylio paned bach a thocyn o fara brith, clywodd y nadu mwyaf ofnadwy. Neidiodd yn ei dychryn a gollwg y cwpanau o'i dwylo. Pan gyrhaeddodd y drws, bu bron iddi lewygu yn y fan a'r lle. Dyna lle'r oedd o â bwyell fawr uwch ei ben yn ysgyrnygu arni, a'r cadeiriau candi fflos yn rhacs jibidêrs. Aethai hithau'n ôl i'r tŷ i glirio gweddillion y *Royal Albert*, rhan o set, a'r *Earl Grey*, heb laeth. Pan gymrodd gipolwg drwy'r ffenestr yn ddiweddarach, roedd wyth

twmpath, fel pridd twrch, lle bu ôl y cadeiriau, ac yntau ar ei liniau yn eu mwytho'n dyner. Ddywedwyd ddim byd.

Yn y gaeaf, byddai'n pori drwy gatalogau hadau ac yn gwneud rhestrau di-ri. Pe byddai rhaglen am arddio neu am blanhigion ar y teledu, yno y byddai yn ei slipars yn amenio neu'n diawlio, yn ôl i ba raddau y byddai'n cytuno â'r cyflwynydd. O gwmpas y Nadolig a'r Calan, byddai'n darllen am erddi pobl eraill ac yn Cynllunio. Ffrwyth y Cynllunio hwnnw oedd yn cyfrif bod hanner y lawnt, y bu mor ofalus ohoni, bellach yn geudwll.

Gwneud pwll pysgod yr oedd o. Cawsai hyd i faddon plastig, gwarantedig am ugain mlynedd, am hanner pris o ryw ganolfan leol. Bu'n tyllu ers tridiau, er mwyn cael twll digon dwfn i osod yr hylltod llwyd ynddo. Yn ôl y Cynllun, byddai'n gosod lilis yn y pwll, a phwmp dŵr. Nid pwmp a fyddai'n chwistrellu dŵr yn ffownten, o na. Rhywbeth coman oedd peth felly. Byddai'r pwmp hwn yn gyrru'r dŵr yn ffrwd fach ufudd hyd wely o gerrig mân wedi eu gosod yn drefnus mewn crochan a fyddai'n gorwedd wysg ar ei ochr ar fin y pwll. Byddai pysgod aur yn gwau drwy'r lilis.

Edrychodd draw i gyfeiriad y sied, ond doedd dim golwg ohono fo erbyn hyn. Roedd hi'n ystyried o dro i dro sut fywyd a gâi hi hebdo. Ysgaru fyddai llawer yn ei sefyllfa hi, debyg, ond doedd hynny ddim yn opsiwn. Roedd hi'n rhy hen i ryw nonsens felly, a byddai'n rhaid i un ohonyn nhw ddod o hyd i gartref arall. Wnâi o fyth adael ei ardd ac ni allai hithau feddwl am ymgartrefu yn rhywle arall. Felly, doedd dim dewis.

Gwenwyn ddaeth i'w meddwl gyntaf. Siawns nad oedd ganddo ddigon o chwynladdwyr a phlaladdwyr yn y sied. Cael gafael arnyn nhw oedd y broblem, gan fod yr unig allwedd ganddo fo. Gallai brynu cyflenwad newydd o'r ganolfan arddio, ond roedd rhaid iddi feddwl am y canlyniadau yn doedd? Byddai'r heddlu yn siŵr o'i hamau yn wyneb tystiolaeth ei bod wedi bod yn ymorol am yr union bethau a wenwynodd ei gŵr. Hyd yn oed pe llwyddai i gael yr allwedd i'r sied, sut y llwyddai i'w gael o i lyncu'r stwff yn y fath fodd fel na fyddai rhithyn o amheuaeth arni hi?

Wrth feddwl am wenwyn, cofiodd ei fod o'n cymryd *warfarin* at ryw broblem efo'i galon. Gwyddai mai gwenwyn llygod mawr oedd *warfarin* yn wreiddiol, ond ei fod yn effeithiol hefyd i atal y gwaed rhag ceulo. Edrychodd i gyfeiriad y cwpwrdd lle'r oedd meddyginiaethau'r ddau. Tybed beth fyddai'r canlyniadau pe byddai o'n llyncu llawer mwy na'i ddos? Am a wyddai hi, po fwyaf o'r cyffur y byddai'n ei gymryd y lleiaf o allu fyddai gan ei waed i geulo. Ymhlith y risgiau a restrwyd ar y

pamffled a ddaeth gyda'r tabledi roedd gwaedlif ar yr ymennydd, ond golygai hynny, pe byddai'n digwydd, y gallai fod yn gabatsien am weddill ei oes. Doedd hynny ddim yn opsiwn chwaith. Roedd hi wedi meddwl wedyn y gallai o 'ddigwydd' torri ei fys, neu ei arddwrn, rywust neu'i gilydd, ar ôl cymryd y gorddos. Roedd peiriannau torri porfa yn bethau peryg. Gwyddai am rywun a oedd wedi rhoi hanner bysedd ei draed i'r *Flymo*. Byddai'r gwaed yn llifo'n ddi-baid, debyg.

Trodd oddi wrth y ffenestr ac aeth i hwylio cinio. Tra gweithiai ei dwylo, gweithiai ei meddwl hefyd yr un mor ddiwyd. Ei wthio o dop y landin? Ei wthio i mewn i'r ceudwll yn yr ardd, a'i gladdu yno? Y broblem bennaf gyda'i holl syniadau oedd yr ansicrwydd. Roedd hi eisiau bod yn siŵr. Eisiau penderfynu. Eisiau gwybod i sicrwydd nad oedd troi'n ôl, na dod yn ôl. Eisiau bod yn rhydd o unrhyw amheuaeth.

Teimlodd ei hun yn gwrido fel petai wedi cael ei dal pan glywodd ei gerddediad yn y ports cefn. Roedd ganddo ddawn ryfedd i ddod i'r gegin ryw funud neu ddwy cyn bod cinio'n barod, ac eistedd yn ddisgwyllgar wrth y bwrdd yn sythu'i gyllell a'i fforc.

"Dwi am fynd i Pugh's fory," meddai wrthi rhwng cegeidiau. Canolfan arddio fawr ger Aberystwyth oedd Pugh's.

"Wyt ti awydd dŵad efo fi?" Doedd o ddim wedi trafferthu ei gwahodd ers tro, a bu bron iddi ei wrthod fel arfer, ond cawsai syniad sydyn.

"Mae'n argoeli am dywydd go-lew fory, be am neud diwrnod ohoni? Gallwn fynd i fyny Craig Glais ar y trê. Roedd ti'n arfer licio edrych drwy'r camera yna sy ar y top."

"Dow, wedi iti sôn, fydde dim ots gen i. Dim ond inni beidio â bod yn rhy hir yndê? Fyswn i ddim ishio i'r blode ddifetha yn y car."

"Dyna ni 'te. Mi wna i bicnic bach a fflag i ni'n dau. Gymri di chwaneg o fara menyyn?"

Allai hi ddim credu ei fod wedi cytuno. Roedd pethau'n llawer cliriach erbyn hyn.

Drannoeth, roedd hi'n crwydro siopau'r dre, wedi'i adael o yn Pugh's, ei seithfed nef. Roedd hi wedi penderfynu peidio ag aros yno gydag o, gan fod hynny'n beth mor anarferol iddi ei wneud, a doedd hi ddim am i neb allu pwyntio bys ati. Yn lle hynny, aeth am baned i'r Caban, gan dynnu sgwrs â'r hogyn y tu ôl y cownter. Oddi yno, aeth ymlaen i rai o'r siopau dillad, gan holi'r staff am ambell ddilledyn. Mewn siop arall, prynodd declyn diniwed, ond pwrpasol iawn at ei bwriadau hi. Pan dybiodd

fod digon wedi ei gweld ac yn debygol o'i chofio, prynodd hufen iâ iddi'i hun ac aeth draw i'r prom i'w fwyta, nid er mwyn ymhyfrydu yn yr olygfa, ond er mwyn astudio Craig Glais, a chynllwynio.

Mewn ambell fan, roedd Craig Glais yn beryglus, ac roedd dibyn serth o'r copa i lawr i'r môr. Byddai'n ddigon hawdd credu y câi rhywun bwl o'r bendro ar y copa, yn enwedig rhywun â chyflwr ar y galon. Dim ond iddo sefyll yn ddigon agos at yr ymyl, un hyrddiad bach a throed yn y lle iawn i'w faglu, a byddai drosodd. Allai hi ddim credu mor feiddgar yr oedd hi. Wedyn, rai misoedd wedyn, ond heb fod yn rhy hir chwaith, byddai'n dymchwel y sied, ac er hwylustod, byddai'n creu llwybrau concriid lle bu'r borderi, ac yn llenwi'r twll yn y lawnt. Yn goron ar y cyfan, byddai'n codi lolfa haul. Dychmygodd ei hun yn eistedd yno yn yr haf yn pori drwy gatalogau gwyliau. Yn y gaeaf, byddai'n treulio'i dyddiau dramor. Crensiodd weddill ei chorned, a llyfu'i bysedd.

Yn ddiweddarach, ar ôl cyrraedd copa Craig Glais, dewisodd lecyn delfrydol ar gyfer eu picnic, nid nepell o ymyl y dibyn, ond nid yn rhy agos ato ychwaith rhag iddi godi amheuon. Rhwng brechdan a phaned, meddai'n ddiniwed:

“Mae'n ben-blwydd arnat ti'n fuan tydi? Mi welais i hwn yn dre, a meddwl fyset ti'n licio fo.”

“Beinociwlars? Mae gen i rai adre...”

“Ond mae'r rheini'n hen ac mae pethau'n datblygu o hyd yn tydyn? Roedd hwn yn fargen 'sti. Hanner pris. Mêc da hefyd, meddai dyn y siop.”

“Diolch yn fawr,” meddai'n or-gwrtais a dechrau rhoi'r teclyn yn ôl yn y boc. “Paid â meddwl 'mod i'n anniolchgar, ond wir iti, fyse'n well gen i gael y pres.”

“Fel lici di,” atebodd hithau, “ond gan ein bod ni yma rŵan, neith o ddim drwg iti roi cynnig arno fo. Fydd neb callach. Galla i fynd ag o'n ôl i'r siop yn syth wedyn. Mae'r dderbynneb gen i'n saff.”

“Ôlreit,” meddai yntau, gan osod y strapen am ei wâr, codi'r sbienddrych at ei lygaid a chwarae gyda'r ffocws. Cododd hithau, gan ddechrau smalio edrych o'i chwmpas, ond gan gerdded yn nes at y dibyn fesul cam.

“Ew, un da ydy hwn,” meddai. “Dwi'n gallu gweld y bobol ar y prom yn blaen. Diawch, dwi hyd yn oed yn gallu gweld pa eis-crîm mae'n nhw ei brynu!”

Cododd hithau law at ei thalcen i warchod ei llygaid rhag yr haul, a gyda'r llaw arall pwyntiodd at fan ymhell i'r môr.

“Hei, tyrd draw fan’ma,” gwaeddodd arno. “Dwi’n siŵr ’mod i’n gallu gweld dolffin.”

Cododd yntau’n anfodlon, a cherdded draw ati. Roedd o’n agos, ond dim digon agos.

“Rhaid inni fynd yn y munud ’sti. Dwi ddim isio gadael y blode yna i wywo yn y car.”

Arglwydd mawr, roedd eisiau gras, ond thalai ddim iddi golli’i limpyn rŵan.

“Awn ni wedyn. Sbia draw fan ’cw, mae rhywbeth du yna yn does?”

“Wela i ddim byd,” atebodd yntau, a’r sbienddrych yn dynn wrth ei lygaid.

“Dwyt ti ddim yn edrych yn y lle iawn, mae’n rhaid. Sbia, draw fan ’cw mae o. Mae o’n symud. Yli, tyrd yn nes, mae’n ddigon saff.”

Fel y tybiwyd, un hyrddiad bach, a throed yn y lle iawn i faglu, ac roedd popeth drosodd. Am eiliad gwelodd y sioc yn gymysg â’r annealltwriaeth yn y llygaid, a’r dwylo’n crafangu i afael yn rhywbeth, unrhyw beth. Gwelodd y ddoli glwt o gorff yn bownsio yn erbyn darn o graig, ac yn bownsio eto, ac eto. Yna, pan dybiodd fod y cyfan ar ben, sgrechiodd.

Rai misoedd yn ddiweddarach, safai yn ffenestr y sied. O’i gwmpas roedd potiau pridd, chwynladdwyr, plaladdwyr, ac offer garddio. Crogai sbienddrych cymharol newydd yn hel llwch ar y bachyn uwch ei ben. Cydiodd mewn fforch chwynnu ac aeth allan.

Yr oedd yn falch iawn â’r modd y gwireddwyd ei Gynllun. Llifai ffrwd fain, befriog o’r crochan ar fin y pwll, a safodd yno’n fodlon ei fyd am funud yn gwyllo’r pysgod aur yn gwau’n ddiog rhwng cychod gwyrdd y lilis yng nghanol y dŵr. Roedd eu gwreiddiau o’r golwg mewn llestr pwrpasol ar wely’r pwll. Gwenodd. Pwy a feddyliai y byddai wrn yn gwneud cystal pot iddyn nhw, a llwch yn gwneud cystal gwrtaith? Doedd neb yn sôn am bethau felly ar y rhaglenni garddio. Plygodd i ddadwreiddio dant y llew o’r border bach.

Crafu

1: FI

Maen nhw'n dod. Sgrip, sgrap. Dwi'n tynnu'r gyfnas yn dynn, dynn amdana i, ond dwi'n dal i'w clywed nhw. Dwi'n gwasgu fy nwylo ar fy nghlustiau, ond mae'r sŵn yn uwch rŵan, fel pan oeddwn i'n rhoi cragen fawr wrth fy nghlust ers talwm ac yn cogio clywed y môr. "Tyrd yma," medde fo wrtha i, "sbia ar hon." Mi gydiodd David yn fy nwylo i'n dyner, dyner, a rhoi'r gragen ynddyn nhw. "Cer â hi adre efo ti, a dalia hi wrth dy glust." Siwt las oedd gynno fo, ac roedd o wedi rowlio ei drowsus at ganol ei grimog ac wedi diosg ei sgidie a'i sane. Biti na fasai'r gragen gen i rŵan i mi gael clywed y môr.

Dyna fo eto – sgrap, sgrip. Dwi'n troi at y wal, a'r papur rhosod, ond dwi ofn y byddan nhw'n neidio arna i o'r tu ôl. Felly, dwi'n cefnu ar y rhosod, ond ar yr un pryd dwi'n teimlo rhywbeth yn fy ngwasgu'n dynn, a'r arswyd yn crynhoi. Ydyn nhw wedi dod ac wedi gafeael amdana i eisoes? Dwi'n clustfeinio. Mae'n dawel, dawel, ac mae hynny'n waeth. Ydyn nhw'n dawel am eu bod nhw wedi mynd, neu am eu bod nhw'n miniogi'u dannedd? Dwi'n ceisio codi fy llaw i symud fy ngwallt o'm llygaid i weld yn well, a dwi'n deall rŵan mai'r gyfnas sydd wedi'i lapio'i hun amdana i wrth i mi droi. Dwi'n rhyddhau fy hun, ac yn cicio'r dillad gwely yn fynydd blêr i'r gwaelod. Dwi'n gorwedd yno ar fy nghefn, yn smwddio'r gyfnas odanaf â'm llaw dde, yna'r llaw chwith, yna'r ddwy efo'i gilydd, ac yna dwi'n ychwanegu fy nghoesau at y broses, fel siswrn, nage fel angel, a dwi'n teimlo'r chwerthin yn dechrau byrlymu, ond dwi'n cau fy ngheg rhag iddo ferwi drosodd. Mi fuon ni'n gwneud angylion ar y traeth, David a fi. Dwi'n anadlu'n drwm drwy fy nhrwyn fel bustach blwydd, a dwi'n teimlo'r poer yn oeri yn y crychau o gwmpas fy ngwefusau.

Mae'r sŵn yn ei ôl, yn gryfach rŵan. Maen nhw'n nesáu. Mae yna fariau ar erchwyn y gwely, ond wnawn nhw mo'u cadw nhw draw. Ar ôl cyrraedd adre mi roddais i'r gragen yn y drôr, o dan fy mhais orau. Mi af i'w nôl hi rŵan, i mi gael clywed y môr. Dwi'n sliddro fy mhen-ôl at waelod y gwely, at y bwlech rhwng y bariau a throed y gwely. Ssshhh. Dwi'n gosod fy nhraed ar y llawr, y bodiau i ddechrau, yna'r ddwy droed yn gyfan. Roedd fy nhraed yn noeth pan wnes i'r angel yn y swnd, a'r graean yn cosi fy modiau. Dwi'n rhoi fy mh wys ar y bariau oer i sadio fy hun ac i dynnu fy nghoban i lawr dros fy nghoesau. Dwi'n clustfeinio. Maen nhw yno o hyd,

ond ar gyrion pellaf fy nghlyw erbyn hyn. Mae'n siŵr eu bod nhw wedi sgrialu i'w tyllau pan godais i.

Yn y llwydolau, dwi'n tybio imi weld godre'r cyrtens yn symud mymryn a dwi'n mynd ar fy mhedwar i ymchwilio. Ar lefel y llawr, mae'r sŵn yn gryfach ac yn gliriach, fel petai'r hyn glywais i gynt yn ddim ond pitran patran glaw cyn y storm. Mae 'na hen ias yng ngwaelod fy nghefn ac mae'r les wen o amgylch llawes fy nghoban yn crynu. Dwi'n symud yn drwsogl draw at y ffenest, a'r goban yn bachu yn fy mhengliniau. Mae yna bapurach ar odre'r cyrtens, a phinnau yn eu dal yn eu lle, a dwi'n rhyfeddu at y fath wiriondeb. Dwi'n cydio ynddyn nhw ac mae pin yn mynd i 'mys i, a dwi'n gollwng gafael ac yn rhincian fy nannedd, ac yn cofleidio fy mys yn fy nwrn. Dwi'n ymddatod fy llaw'n ofalus ac yn sugno'r briw, ac mae blas gwaed ar fy nhafod. Roedd yr un blas yn fy ngheg pan oeddwn i efo David. Mae'n rhaid mai cnoi nhafod wnes i'r diwrnod hwnnw. Mae'r sŵn yn fy nghlustiau yn cyffroi, a dwi'n gwyo'n is fyth a'm clust ar y llawr, ac mae fel petai yno gannoedd, miloedd ohonyn nhw'n ferw wyllt. Dwi'n estyn am gornel y carped, ac yn gwthio fy ewinedd o dano, ac mae'n goblyn o job, ond dwi'n llwyddo i godi'r tamaid lleiaf. Er imi ailgynnig, alla i ddim codi rhagor ohono. Dwi'n eistedd yn ôl, yn laddar o chwys.

Dwi'n gwthio fy hun ar fy nhraed ac yn mynd i chwilio am rywbeth i'w wthio dan y carped. Dwi'n cyffwrdd top y jestadrôr, fel pluen, rhag iddyn nhw nghlywed i. Mae llafn o olau o'r stryd yn llathru hanner y derw, a'm bysedd fel bysedd y meirw o'm blaen. Mae fy ewinedd i'n sibrwd eu sgrechian ar y pren, ac mae mân bapurau yn y fan hon hefyd. Dwi'n gallu gweld pry cop ar rai ohonyn nhw, neu ai sgribls ydy o? Dwi'n edrych yn ôl tua'r gwely. Mae fy sbectol i fan'no, yn llygaid i gyd ar y cwpwrdd bach. Rhai duon oedd llygaid David, mor ddu fel na allwn i weld eu kannwyll. Dwi'n teimlo blew fy ngwar yn codi. Sgrip, sgrip, sgrap. Maen nhw'n agos iawn rŵan. Dwi'n agor y drôr uchaf yn ddistaw bach, ac mae'r sŵn yn dechrau pylu. Petawn i'n gallu dod o hyd i'r gragen, mi allwn eu tawelu. Does dim pais yn y drôr hwn, dim ond sgarffiau a rhagor o sgwariau papur. Dwi'n dewis sgarff a'i lapio unwaith, dwywaith, am fy ngwar rhag i mi gael annwyd. Ar y traeth, mi roddodd David ei siaced am fy ysgwyddau, a'i wres o yn dal ynddi.

Dwi'n agor yr ail ddrôr yn ofalus, ofalus oherwydd mae hwn yn hirach ac yn drymach. Mi dynnodd rhywun ddrôr allan yn wyllt rywdro, ac mi ddisgynnodd gan dorri asgwrn ym mys bach ei throed. Dwi'n tynnu cynnwys y drôr allan fesul un,

siwmperi a chardiganau a thopiau cotwm. Alla i ddim gweld pais yn y drôr hwn chwaith. Dwi'n gwybod i mi daenu pais dros y gragen. Fy mhais orau.

Un drôr sydd ar ôl, yr isaf a'r dyfnaf oll. Dwi braidd yn gallu clywed y sŵn rŵan, fel tasen nhw'n dal eu gwynt. Rhaid i mi blygu i agor hon. Dwi'n teimlo fy nghoban yn damp rhwng fy nghoesau. Roedd cefn fy ffrog yn wlyb ar ôl bod yn gwneud yr angel ac roedd y tamprwydd wedi treiddio i'm nicys i, a 'nghluniau i'n rhwbio'n anghysurus yn erbyn ei gilydd. Sylwodd David ddim. Tybed a fyddai o wedi cymryd ei gôt yn ôl tasa fo'n gwybod gymaint roeddwn i isio'i gwres hi?

Sgrip. Maen nhw'n dod. Dwi'n gafaél yn y bwlyn de â'm dwy law a thynnu, ac yna'n gwneud yr un modd â'r bwlyn chwith. Yna dwi'n cydio yng nghanol y drôr, a'i dynnu allan at ei hanner gan ei roi i orffwys ar ogwydd ar y llawr. Sgrip, SGRIP, sgrap. Dwi'n byseddu pob rhan o'r drôr. Be maen nhw wedi'i wneud â hi? SGRIP, sgrap. Ble mae'r bais a'r gragen? Dwi'n edrych dros fy ysgwydd, a dwi'n gweld cysgod wrth y wardrob, ac un arall wrth y drws, ac un arall dan y cyrtens, ac un arall, ac un arall. Mae pâr o lygaid yn sbio arna i o ben y cwpwrdd bach. SGRIP, SGRIP, SGRAP. Dwi'n gwthio 'nghefn yn dynn at y wal, ac yn tynnu fy nghoesau ataf ac yn claddu fy mhen yn fy mhengliniau. Dwi'n crio, a chrio. Sgrip. Sgrap. Dwi'n clywed eu hanadl nhw yn fy ngwallt. Maen nhw yma.

2: HI

Nefi wen. Dwi'n oedi rhag troi'r golau ymlaen. Dwi'n gwybod o'r gorau beth fydd yn fy nisgwyl, ond dwi am gadw popeth yn yr hanner gwyll am unwaith. Jest am unwaith. Dim ond imi gau fy llygaid mi eith popeth i'w le, ac mi alla i fynd yn ôl i 'ngwely, a chysgu, a dychwelyd yn hyderus yn y bore efo paned. Bryd hynny mi fydd yna awyr las a haul yn tywynnu, ac mi gaf i wên yn wobwr. Breuddwyd gwyrach.

Hen wrach ydi hithau yn sypyn o gysgod rhwng y cwpwrdd a'r ffenest. Fel echnos, a'r noson cyn hynny, a'r wythnos diwethaf; wythnosau bwygilydd o gysgodion. Mae'r cysgodion yn llenwi fy mhen, ac yn gwasgu'r heulwen allan bob yn dipyn. Ei chysgodion hi yden nhw, yn fy meddiannu i, yn sugno fy enaid, nes dwi'n amau a fu dim arall. Ai fi oeddwn i flwyddyn yn ôl? Be wnes i ddoe?

Am eiliad, dwi'n teimlo fel troi ar fy sawdl, tynnu'r drws yn glep ar fy ôl, a cherdded, a cherdded. Oni bai 'mod i'n gwybod y byddai ei nadu yn fy nghanlyn hyd

byth, mi allwn fynd. Mi fasa hynny'n braf. Am ryw reswm mae un o wersi Wyn Welsh yn hedfan i 'mhen i, a fynte'n sôn am ryw hogyn bach yn un o lyfrau Kate Robats yn gofyn 'Be fasa na tasa na ddim?' a'i fam yn ateb 'Mi fasa'n braf iawn.' Ddalltes mo hynna erioed, tan rŵan.

Dwi'n gallu teimlo ffrâm y drws yn un â'm hasgwrn cefn, a dwi'n falch o'i gadernid. Dwi'n byseddu fy ffordd i fyny'r wal at y swits ac yn crychu fy llygaid rhag y foddfa felen. Mae hi wedi bod wrthi eto, a dwi'n flin, er 'mod i'n gwybod yn iawn nad oes gen i hawl i fod yn flin. Dwi'n ei hanwybyddu hi, y cysgod. Nid am fy mod i'n galed, ond am nad ydw i'n trystio fy hun. Dwi'n gweld y dillad gwely'n hongian yn dwmpathau blêr rhwng y bariau metel da-i-ddim a'r gynfas wen, a oedd yn lân a difrycheulyd ychydig oriau'n ôl, yn grychau ac yn lympiau i gyd erbyn hyn.

Mae oglau pi-pi cynnes yn fy mwrw, a dwi'n sgrechian yn fud. Dwi'n bwrw fy nghynddaredd ar y gwely ac yn gollwng y bariau i lawr yn un stremp ac yn tynnu'r blancedi a'r cynfasau ac yn eu lluchio rywsut rywsut i rywle, dio'm ots i ble. Mae'r nadu'n gwaethygu, dwi'n gollwng fy hun ar erchwyn y gwely fel doli glwt. Munud dwi'i isio, dyna i gyd. Mi af ati yn y munud.

Ym mhen draw'r stafell, dwi'n gweld y cyrtens yn ffair i gyd. Hi sydd wedi rhoi'r darnau papur ar eu godre. "Cer i dy wely. Does dim byd yma." Neges iddi hi'i hun; yr un neges ar bob darn. Bore fory, os bydd y niwl wedi clirio, mi fydd yn gofyn am damaid o bapur a phensel, ac mi fydd yn sgwennu'r un peth eto, ac yn rhoi'r darn papur yn sownd yn y cyrtens. "Tro nesa, mi wna i ddarllen hwn, ac mi fydda i'n mynd i gysgu'n dawel. Yn saff iti," meddai hi bob tro. Mae yna ddarnau papur tebyg drwy'r tŷ i gyd; yn y lle chwech, i'w hatgoffa i beidio â phrynu papur toiled, yn y gegin, i ddweud bod ganddi ddigon o duniau ffa pob. Ond ym mhob man, mae'r cypyrddau'n gwegian.

Dwi'n troi i edrych arni. Mae ganddi sgarff amryliw wlanog am ei gwddf a thros waelod ei gên. Mae pob drôr yn y gist yn gilagored, a dillad o'i chwmpas ym mhobman. Dro'n ôl, mi gwmpodd y drôr isaf, a'r mwyaf, ar ei throed ac ers hynny dwi wedi gwneud yn siŵr nad oes dim yn y drôr hwnnw. Dwi'n gwybod am beth mae hi'n chwilio. Mi roddodd ei theulu ganpunt yn ei llaw pan gawson nhw wybod, a'i hel o'u golwg. Ddywedodd hi erioed pwy oedd y tad. Mi dorrodd y llinyn ei hun, a rhoi'r fechan yn y drôr, dan un o'i pheisiau. Pan ddaethon nhw o hyd iddi, roedd hi'n

gorwedd ar ei hyd ar fatras ar y llawr a'i braich dros ymyl y crud gwneud, a dwy lygoden fawr yn gelain yng nghornel y stafell.

Mae'n codi'i phen yn ofnus, ac yn sbio arna i, er nad ydi hi'n fy ngweld i'n iawn. Dwi'n gweld ei choesau'n gryndod i gyd o dan y goban denau. Yn raddol bach, mae'r heulwen yn hawlio'i le yn fy mhen: rhaff sgipio, prynhawniau welintons a phyllau dŵr, chwerthiniad iach yn y glaw, aroglau dail gwlyb a mwsog a phorfa newydd ei thorri, a dwi'n gwybod yr awn ni ymlaen hyd y dydd na fydd.

Dwi'n lapio gwrthban amdani'n dynn, a'i chusanu ar ei chorun. Dwi'n ei thynnu tuag ataf, a dwi'n teimlo'i gwallt fel papur sidan ar fy moch a phersawr ei lendid yn fy ffroenau. Mam ydi hi o hyd.

LLYFRYDDIAETH

Gweithiau beirniadol ac academaidd

ALAILY, ALY, *The History of the Parturition Chair* (St Leonards-on-Sea: Rosewell, 2000).

ASHDOWN, DULCIE M., *The Royal Line of Succession* (Andover: Pitkin Publishing, 2008).

ASHDOWN-HILL, JOHN, *Royal Marriage Secrets* (Stroud: The History Press, 2013).

ANCIENT AND MYSTICAL ORDER ROSAE CRUCIS, *Who and What are the Rosicrucians* (San Jose, California : The Rosicrucians AMORC, 1966).

ANKARLOO, BENGT; CLARK, STUART; MONTER, WILLIAM, *The Period of the Witch Trials* (London: Athlone Press, 2002).

BASSETT, T. M. (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Ynys Môn 1983* (Llandysul: Gwasg Gomer ar ran Llys yr Eisteddfod Genedlaethol, 1983).

BELL, JULIA; MAGRS, PAUL (gol.), *The Creative Writing Coursebook* (London: Macmillan, 2001).

CHAMBERLAIN, LES, *Welsh Nicknames*, (Talybont: Y Lolfa, 2013).

CORNELL, HELEN; TAYLOR, MATTHEW (gol.), *St Paul's Cathedral* (Llundain: Scala Publishers Ltd, 2011).

CRAMPIN, MARTIN, *Stained Glass at the Church of St Mary the Virgin, Tenby* (Talybont: Y Lolfa, 2014).

DAVIES, R. R., *Owain Glyn Dŵr* (Talybont: Y Lolfa, 2002).

DAVIES, R. R., *The Revolt of Owain Glyn Dŵr* (Oxford: Oxford University Press, 1995).

ECCLES, AUDREY, *Obstetrics and gynaecology in Tudor and Stuart England* (London: Croom Helm, 1982).

EDWARDS, DYFED, 'Veritas – annog darllenwyr', *Golwg*, 28/23 (18 Chwefror 2016), t. 21.

EVANS, HOWELL T., *Wales and the Wars of the Roses* (Cambridge: Cambridge University Press, 1915).

FYCHAN, CLEDWYN, *Pwy oedd Rhys Gethin?: yr ymchwil am gadfridog Owain Glyndŵr* (Aberystwyth: Cymdeithas Lyfrau Ceredigion, 2007).

- GERAGHTY, MARGARET, *More Five Minute Writing* (London: How To Books Ltd, 2013).
- GERAGHTY, MARGARET, *The Five Minute Writer* (Oxford: How To Books Ltd, 2009).
- GIBBON, ALEX, *The Mystery of Jack of Kent and the Fate of Owain Glyndwr* (Stroud: Sutton Publishing, 2004).
- GIES, FRANCES; GIES, JOSEPH, *Daily Life in Medieval Times* (Hoo, Kent : Grange, 2005).
- GRIFFITH, GWEN PRITCHARD, 'Nofel hanes a rhagymadrodd' (traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Bangor, 2006).
- HAAG, MICHAEL; HAGG, VERONICA, *The Rough Guide to the Da Vinci Code* (London: Rough Guides, 2004).
- HARRIS, ANTHONY, *Witch-hunt: The Great Essex Witch Scare of 1582* (Romford: Ian Henry Publications, 2001).
- HUGHES, J. ELWYN (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Maldwyn a'r Gororau 2015* (Llandysul: Gwasg Gomer ar ran Llys yr Eisteddfod Genedlaethol, 2015), tt. 109-118.
- IFANS, DAFYDD, 'Nofelau Hanesyddol fel Llenyddiaeth', yn J.E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol IX*, (Dinbych: Gwasg Gee, 1976), tt. 298-311.
- IORWERTH, DYLAN, 'Y Golofn Gymraeg', *Western Mail*, 6 Awst 2015, t. 27.
- ISLWYN, ALED, 'Tonfeddi bywyd yn y wlad a'r ddinas', *Barn*, Medi 2015, tt. 29-30
- JENNINGS, HARGRAVE, *The Rosicrucians, Their Rites and Mysteries*, (New York: JW Bouton, 1879).
- JOHNSTON, DAFYDD, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2005).
- LEWIS, DAFYDD MORGAN, 'Gwobr Goffa Daniel Owen – Adolygiad', *Golwg*, 27/48 (13 Awst 2015), tt. 20-1.
- LEWIS, HENRY; ROBERTS, THOMAS; WILLIAMS, IFOR (gol.) *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1937).
- LUDLOW, NEIL, *Pembroke Castle* (Pembroke Castle Trust: dim dyddiad na man cyhoeddi).
- MALLON, BRENDA, *The Mystic Symbols* (London: Godsfield Press, 2007).
- MALONE, ANDREW, 'Sex, spies and seven suspicious deaths', *Daily Mail*, 5 Mai 2012, tt. 42-4.

- McMANUS, DAMIAN, *A Guide to Ogam* (An Sagart, Maynooth 1991).
- OWEN, SIÂN, ‘Mân Esgyrn: Yr Awdur a’r Nofel – Dwy Daith yn Un?’ (traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Bangor, 2010).
- PARÉ, AMBROISE, *On Monsters and Marvels*, cyfieithwyd gan Pallister, Janis L. (Chicago; London: University of Chicago Press, 1982).
- RICHARDS, W. LESLIE (gol.), *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1964).
- ROBERTS, ENID, *Braslun o Hanes Llên Powys* (Dinbych: Gwasg Gee, 1965).
- ROBERTS, ENID, *Dafydd Llwyd o Fathafarn*, Darlith Lenyddol Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a’i Chyffiniau, 1981 (Caernarfon: Argraffwyr Gwynedd, 1981).
- SCAGELL, ROBIN, *Night Sky Atlas* (London: Dorling Kindersley Ltd, 2004).
- SNELSON, PETER, *Lady Margaret Beaufort* (Cambridge: Christian Heritage, 1999).
- SPAHR, CLAUDIA, *Right Time Baby* (London: Hay House, 2011).
- STEPHENS, MEIC (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1986).
- THOMAS, W. GWYN, *St. Mary’s Parish Church: A Short Account of the Building and History* (Tenby: The Printman, 2009)
- TODD, ALLAN, *Crime, Punishment & Protest* (Cambridge: Cambridge University Press, 2002).
- WESTCOTT, M. WYNN, *Numbers – Their Occult Power and Mystic Virtues* (London: Theosophical Publishing House, 1974).
- WILLIAMS, GLANMOR, *Harri Tudur a Chymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1985).
- WILLIAMS, IFOR (gol.), *Armes Prydein* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1955).
- WILLIAMS, TALIESIN, *Traethawd ar hynafiaeth ac awdurdodaeth coelbren y beirdd* (Llanymddyfri: W. Rees, 1840).
- WILSON, D. B., *Signs and Portents: Monstrous Births from the Middle Ages to the Enlightenment* (London: Routledge 1993).
- WORSLEY, LUCY, ‘Sleeping beauties’, *National Trust Magazine* (Hydref 2012), tt. 60-4.

Gweithiau creadigol a ffuglennol

- AP DAFYDD, MYRDDIN (gol.), *Cywyddau Cyhoeddus 2* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 1996).
- BECKER, JAMES, *The Lost Testament* (London: Bantam, 2013).
- BROWN, DAN, *Angels and Demons* (London: Corgi, arg. 2001).
- BROWN, DAN, *Inferno* (London: Corgi, arg. 2014).
- BROWN, DAN, *The Da Vinci Code* (London: Corgi, arg. 2004).
- BROWN, DAN, *The Lost Symbol* (London: Corgi, arg. 2010).
- CAIN, TOM, *Dictator* (London: Corgi, arg. 2011).
- CARRISI, DONATO, *The Lost Girls of Rome* (London: Abacus, arg. 2013).
- CARRISI, DONATO, *The Whisperer* (London: Abacus, arg. 2011).
- DAFYDD, FFLUR, *Y Llyfrgell* (Talybont: Y Lolfa, 2009).
- DAVIES, DANIEL, *Tair Rheol Anhrefn* (Talybont: Y Lolfa, 2011).
- ECO, UMBERTO, *Foucault's Pendulum* (London: Vintage, arg. 2001).
- ECO, UMBERTO, *The Name of the Rose* (London: Vintage, arg. 2004).
- ELIS, ISLWYN FFOWC, *Cysgod y Cryman* (Llandysul: Gwasg Gomer, arg. 1971).
- ELIS, ISLWYN FFOWC, *Yn ôl i Leifior* (Llandysul: Gwasg Gomer, arg. 1974).
- GEORGE, DELYTH, (gol.) *Mwys a Macâbr* (Talybont: Y Lolfa, 1996).
- GREGORY, PHILIPPA, *The White Princess* (London: Simon & Schuster, arg. 2014).
- GREGORY, PHILIPPA, *The White Queen* (London: Simon & Schuster, arg. 2013).
- HARDIE, JOHN L. (gol.), *Tales of Effect : a selection of the best short stories of Edgar Allan Poe* (London: Art & Educational Publishers, arg. 1948).
- HERBERT, JAMES, *The Secret of Crickley Hall* (London: Pan Books, arg. 2012).
- JAMES, P. D. *An Unsuitable Job for a Woman* (London: Faber & Faber, 1972).
- JAMES, P. D., *The Lighthouse* (London: Penguin, arg. 2006).
- JONES, GERAINT V., *Zen* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2004).
- JONES, GWEN PRITCHARD, *Dygwyl Eneidiau* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 2006).
- JONES, MARY ELIZABETH, *Dolennau* (Caerdydd: Urdd Gobaith Cymru, 1985).
- JÔS, CORRISA, *Ysgrife'r Randibw* (Talybont: Y Lolfa, 1983).
- JÔNS, IOLA, *Dal dy Dir* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2004).

KING, STEPHEN, *Full Dark, No Stars* (London: Hodder, arg. 2011).

LISA, MARI, *Ar Gortyn Brau* (Aberystwyth: Cymdeithas Lyfrau Ceredigion, 1990).

LISA, MARI, 'Y Dydd y Torrodd yr Argae' yn *Wyth Stori Fer* (gol. anhysbys) (Caerdydd: Hughes a'i Fab, 1990).

MAITLAND, KAREN, *Company of Liars* (London: Penguin, arg. 2009).

MAITLAND, KAREN, *The Gallows Curse* (London: Penguin, arg. 2012).

MAITLAND, KAREN, *The Falcons of Fire and Ice* (London: Penguin, arg. 2013).

MANTEL, HILARY, *Wolf Hall* (London: Fourth Estate, 2009).

MOSSE, KATE, *Labyrinth* (London: Orion, 2005).

YEATS, W. B., *Poems* (London: Unwin, 1901).

Cynnyrch clywedol

The White Queen, BBC1, darlledwyd 16 Mehefin 2013 – 18 Awst 2013.

The Musketeers, BBC1, cyfres 1, darlledwyd 19 Ionawr 2014 – 30 Mawrth 2014.

Darn Bach o Hanes, S4C, darlledwyd 20 Chwefror 2012.

Taro Naw, S4C, darlledwyd 23 Hydref 2012.

Lisa, Mari, *Veritas*, Llyfrau Llafar Cymru, tîp rhif 2073.

'Llyfr Bob Wythnos', *Bore Cothi*, Radio Cymru, darlledwyd 1-5 Chwefror 2016.

Gwefannau

BOSLEY, SARAH, 'Marriage between first cousins doubles risk of birth defects, say researchers', *The Guardian*, 4 Gorffennaf 2013, <<https://www.theguardian.com/science/2013/jul/04/marriage-first-cousins-birth-defects>>; cyrchwyd Mai 2014.

BOWEN, DAVID JAMES, 'Robin Ddu', *Y Bywgraffiadur Cymreig*, <<http://wbo.llgc.org.uk/cy/c-ROBI-DDU-1450.html>>; cyrchwyd Tachwedd 2014.

CAVENDISH, RICHARD, 'The birth of Henry Tudor', <<http://www.historytoday.com/richard-cavendish/birth-henry-tudor> >; cyrchwyd Ebrill 2014.

CLARIDGE, JACK, 'Rigor Mortis and Lividity', <<http://www.exploreforensics.co.uk/rigor-mortis-and-lividity.html> >; cyrchwyd Mawrth 2013.

COURTIS, JACK, 'Tabula Smaragdina Hermetis', <www.crcsite.org/printTabula.htm>; cyrchwyd Hydref 2010.

DEBRETT'S, 'Forms of address: Widow of an earl' <<http://www.debretts.com/forms-address/titles/earl-and-countess/widow-earl> >; cyrchwyd Mai 2012.

EVANS, MARTIN; SILVERMAN, ROSA, 'How Mark Bridger shunned his middle class upbringing for a life of lies and violence', *The Telegraph*, 30 Mai 2013, <<http://www.telegraph.co.uk/news/uknews/crime/10085907/How-Mark-Bridger-shunned-his-middle-class-upbringing-for-a-life-of-lies-and-violence.html> >; cyrchwyd Chwefror 2016.

GREENE, ELENA, 'Pregnancy and Childbirth for the Historical Author', <<http://www.elenagreene.com/childbirth.html> >; cyrchwyd Mehefin 2010.

MASTIN, LUKE, 'Famous Witches - Alice Kyteler (1280 - c.1325)', <http://www.witchcraftandwitches.com/witches_kyteler.html>; cyrchwyd Mawrth 2014.

MORGAN, WALTER THOMAS; CHAMBERS, LLEWELYN GWYN, 'Lewis o Gaerleon', *Y Bywgraffiadur Cymreig* <<http://wbo.llgc.org.uk/cy/c-LEWI-SOG-1491.html> >; cyrchwyd Hydref 2010.

PRITCHARD, ELFYN, adolygiad o *Veritas* oddi ar <www.gwales.com> trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru; cyrchwyd Mawrth 2016.

RIDPATH, IAN, 'Cassiopeia', <<http://www.ianridpath.com/startales/cassiopeia.htm> >; cyrchwyd Hydref 2012.

Gweithiau heb gydnabyddiaeth

‘Arthur Machen’, <www.wikipedia.org/wiki/Arthur_Machen>; cyrchwyd Hydref 2010.

‘Cabbala Hermetig’, <https://cy.wikipedia.org/wiki/Cabbala_Hermetig>; cyrchwyd Hydref 2010.

‘Cassiopeia (mythology)’, <[https://en.wikipedia.org/wiki/Cassiopeia_\(mythology\)](https://en.wikipedia.org/wiki/Cassiopeia_(mythology))>; cyrchwyd Hydref 2012.

‘Coelbren y Beirdd’, <<http://www.amgueddfacymru.ac.uk/888/>>; cyrchwyd Tachwedd 2011.

‘Dathlu’r Daniel’, *Golwg*, 27/47 (6 Awst 2015), t. 3

‘Descent of Elizabeth II from William I’, <http://wapedia.mobi/en/Direct_descent_from_William_I_to_Elizabeth_II>; cyrchwyd Chwefror 2010.

‘Dirgelwch ym mryniau Maldwyn’, *Golwg*, 27/48 (13 Awst 2015), t. 7

‘Dod o hyd i sgerbwd Rhisiart III dan faes parcio?’ <<http://golwg360.cymru/newyddion/cymru/85416-dod-o-hyd-i-sgerbwd-rhisiart-iii-dan-faes-parcio>>; cyrchwyd Medi 2012.

‘Erotic asphyxiation’, <https://en.wikipedia.org/wiki/Erotic_asphyxiation>; cyrchwyd Mawrth 2013.

‘Glyndwr’s burial mystery solved’, <<http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/mid/3982755.stm>>; cyrchwyd Chwefror 2010.

‘House of Plantagenet Family Tree’, <www.britroyals.com/plantagenet.htm>; cyrchwyd Chwefror 2010.

‘House of Tudor Family Tree’, <www.britroyals.com/tudor.htm>; cyrchwyd Chwefror 2010.

‘Magical motto’, <http://en.wikipedia.org/wiki/Magical_motto>; cyrchwyd Hydref 2010.

‘Margaret Beaufort, Countess of Richmond and Derby’, <http://en.wikipedia.org/wiki/Lady_Margaret_Beaufort>; cyrchwyd Mawrth 2016.

‘Maud Gonne’, <www.wikipedia.org/wiki/Maud_Gonne>; cyrchwyd Hydref 2010.

‘Nulla in mundo pax sincera’, <https://en.wikipedia.org/wiki/Nulla_in_mundo_pax_sincera>; cyrchwyd Awst 2013.

‘Owain Glyndŵr’, <http://wapedia.mobi/en/Owain_Glyndwr>; cyrchwyd Chwefror 2010.

‘Owen Tudor’, <http://wapedia.mobi/en/Owen_Tudor>; cyrchwyd Chwefror 2010.

‘Richard III’s DNA throws up infidelity surprise’, <<http://www.bbc.co.uk/news/science-environment-30281333>>; cyrchwyd Rhagfyr 2014.

‘Robert Recorde’, <<http://www-history.mcs.st-andrews.ac.uk/history/Biographies/Recorde.html>>; cyrchwyd Hydref 2012.

‘Robin Ddu ap Siencyn Bledrydd’,
<https://cy.wikipedia.org/wiki/Robin_Ddu_ap_Siencyn_Bledrydd>; cyrchwyd Tachwedd 2014.

‘Secret Symbols of the Rosicrucians’, <www.crcsite.org/SecretSymb5.htm>; cyrchwyd Hydref 2010.

‘The Richard III Society’, <<http://www.richardiii.net/aboutus.php>>; cyrchwyd Hydref 2010 a Mawrth 2016.

‘Willow pattern’, <https://en.wikipedia.org/wiki/Willow_pattern>; cyrchwyd Tachwedd 2012.

BBC, ‘Canllaw i’r Sêr’,
<http://downloads.bbc.co.uk/tv/guides/BBC_Stargazing_Live_Star_Guide_WELSH.pdf>; cyrchwyd Hydref 2012.

Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, *Cyfansoddiadau Llenyddol Buddugol* (Penygroes : Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Dyffryn Ogwen a'r Cylch, 1986).

Y Beibl Cymraeg Newydd, yn cynnwys yr Apocryffa (Swindon: Cymdeithas y Beibl, 1988).